



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 17 Mai 2006  
Wednesday, 17 May 2006**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 4 Atal Rheolau Sefydlog  
Suspension of Standing Orders
- 7 Sefydlu Comisiwn Cysgodol  
The Establishment of a Shadow Commission
- 8 Ethol Aelodau i'r Comisiwn Cysgodol  
Election of Members to the Shadow Commission
- 9 Sefydlu Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog  
The Establishment of a Committee on Standing Orders
- 14 Ethol Aelodau i'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog  
Election of Members to the Committee on Standing Orders
- 15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 33 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport
- 47 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ  
Questions to the House Committee
- 51 Cwestiwn Brys: Colli Swyddi (Vauxhall, Ellesmere Port)  
Urgent Question: Job Losses (Vauxhall, Ellesmere Port)
- 56 Ceisio Cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi  
Bodloni Gofynion Cynnig Gwenda Thomas o dan Reol Sefydlog Rhif 31 a  
Drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2005  
The Seeking of the National Assembly's agreement that the Welsh Assembly  
Government has Satisfied the Requirements of the Standing Order No. 31 Proposal  
by Gwenda Thomas that was debated in Plenary on 23 November 2005
- 61 Cymeradwyo Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant  
Approval of Changes to Main Expenditure Groups
- 76 Y Diwydiant Gweithgynhyrchu  
The Manufacturing Industry
- 98 Cynnig Trefniadol  
Procedural Motion
- 99 Y Diwydiant Gweithgynhyrchu: Parhad  
The Manufacturing Industry: Continued
- 117 Estyn—Adroddiad Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
Estyn—the Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training
- 121 Cynnig Trefniadol  
Procedural Motion

- 122 Estyn—Adroddiad Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant: Parhad  
Estyn—the Report of Her Majesty’s Chief Inspector of Education and Training:  
Continued

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o’r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been  
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

**The Business Minister (Jane Hutt):** I propose that:

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders Nos. 37.5 and 37.6:*

*1. suspends Standing Order 6.13, and that part of Standing Order No. 5.4 that requires the weekly business statement to constitute the agreed timetable for Assembly business, to allow NNDM3046 and NNDM3047—relating to the establishment and election of the Shadow Commission—to be considered in Plenary on Wednesday 17 May 2006; and*

*2. suspends Standing Order No. 6.14 to allow any amendments in relation to NNDM3046, tabled before 11 a.m. on Wednesday 17 May, to be considered in Plenary on Wednesday 17 May 2006. (NDM3048)*

**John Marek:** I will speak against this motion as an Assembly Members rather than as Deputy Presiding Officer.

The Chair of the House Committee knew nothing about this motion, that there should be a Shadow Commission, until it was tabled yesterday afternoon. The House Committee is meeting tomorrow, but it officially knows nothing about this motion until it is presented tomorrow. I contend that there ought to be proper consultation. I am not against the motion, as such—there ought to be a Shadow Commission; should the Government of Wales Bill be carried there are changes that will necessarily have to be made to our procedures. However, I insist on proper consultation. I am at a loss to understand why the Business Minister should table a motion like this without consulting the Chair of the House Committee, or the House Committee itself, formally. I do not understand it, although I have a reason for it, which I may

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 37.5 a 37.6:*

*1. yn gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6.13 a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r datganiad busnes wythnosol yw'r amserlen gytûn ar gyfer busnes y Cynulliad, i ganiatáu i NNDM3046 ac NNDM3047—sy'n ymwneud â sefydlu ac ethol y Comisiwn Cysgodol—gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Mai 2006; a*

*2. yn gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6.14 i ganiatáu i unrhyw welliannau mewn perthynas ag NNDM3046, a gyflwynwyd cyn 11 a.m. ddydd Mercher 17 Mai, gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Mai 2006. (NDM3048)*

**John Marek:** Byddaf yn siarad yn erbyn y cynnig hwn fel Aelod Cynulliad yn hytrach nag fel Dirprwy Lywydd.

Ni wyddai Cadeirydd Pwyllgor y Tŷ ddim am y cynnig hwn, sef y dylid cael Comisiwn Cysgodol, nes iddo gael ei gyflwyno brynhawn ddoe. Mae Pwyllgor y Tŷ yn cyfarfod yfory, ond ni wŷr ddim am y cynnig hwn yn swyddogol nes caiff ei gyflwyno yfory. Yr wyf yn dadlau y dylid cael ymgynghori priodol. Nid wyf yn erbyn y cynnig, fel y cyfryw—dylid cael Comisiwn Cysgodol; os bydd Mesur Llywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn bydd yn rhaid gwneud rhai newidiadau yn ein gweithdrefnau. Fodd bynnag, yr wyf yn mynnu cael ymgynghori priodol. Ni allaf ddeall pam y byddai'r Trefnydd yn cyflwyno cynnig fel hwn heb ymgynghori â Chadeirydd Pwyllgor y Tŷ, neu Bwyllgor y Tŷ ei hun, yn ffurfiol. Nid wyf yn ei ddeall, er bod gennyf reswm drosto, a hwyrach y

give later.

I believe that the House Committee should be involved. There ought to be some involvement about the relationship that should exist between the Shadow Commission and the House Committee.

**The Presiding Officer:** Order. I hate to interrupt my present colleague, but this is not a substantive debate on a motion; it is about the suspension of Standing Orders. If you catch my eye later on a substantive motion, you may deploy those arguments at that time.

**John Marek:** I understand what you say and will pay attention to it. I have no intention of speaking on the substantive motion; I am merely arguing why we should not suspend Standing Orders to consider weighty matters that should be properly considered, rather than tabled under a no named day motion where Standing Orders have to be suspended. I think that these matters are weighty and the House Committee ought to have been consulted. That means that we ought not to be suspending Standing Orders. That is the thrust of my argument.

I do not want to take a long time over this, but I want it on the record. I am not against this motion, but there ought to have been proper consultation. I urge the Assembly not to support this motion to suspend Standing Orders, but to enter into a proper process. A motion could then be taken as a normal, named day motion once consultation has taken place. Instead, we have this action by the Business Minister on her own account, without reference to any of the other authorities of the National Assembly.

**The Presiding Officer:** Order. This motion is not on the Business Minister's own account. I have agreed to this motion as being in order, and I have given my consent for it to appear on the agenda.

**The Business Minister (Jane Hutt):** As you say, this motion has been agreed through the appropriate channels in the Business Committee.

rhoddaf hwnnw'n ddiweddarach.

Credaf y dylai Pwyllgor y Tŷ gael ei gynnwys. Dylid sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys o ran y berthynas a ddylai fodoli rhwng y Comisiwn Cysgodol a Phwyllgor y Tŷ.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf dorri ar draws fy nghyd-Aelod, ond nid dadl wirioneddol ar gynnig yw hon; mae a wnelo ag atal Rheolau Sefydlog. Os byddwch yn dal fy sylw yn nes ymlaen ar gynnig gwreiddiol, gallwch ddefnyddio'r dadleuon hynny bryd hynny.

**John Marek:** Deallaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud, a byddaf yn rhoi sylw i hynny. Nid yw'n fwriad o gwbl gennyf siarad am y cynnig gwreiddiol; dim ond dadlau pam na ddylem atal Rheolau Sefydlog i ystyried materion pwysig y dylid eu hystyried yn briodol, yn hytrach na'u cyflwyno o dan gynnig heb ddyddiad trafod llw y mae'n rhaid atal Rheolau Sefydlog. Credaf fod y materion hyn yn bwysig ac y dylid bod wedi ymgynghori â Phwyllgor y Tŷ. Golyga hynny na ddylem fod yn atal Rheolau Sefydlog. Dyna yw byrddwn fy nabl.

Nid wyf am dreulio gormod o amser ar hyn, ond yr wyf am sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi. Nid wyf yn erbyn y cynnig hwn, ond dylid bod wedi cynnal ymgynghoriad priodol. Anogaf y Cynulliad i beidio â chefnogi'r cynnig hwn i atal Rheolau Sefydlog, ond i ddilyn proses briodol. Yna gellid cyflwyno cynnig fel cynnig arferol gyda dyddiad trafod cyn gynted ag y bydd yr ymgynghori wedi digwydd. Yn lle hynny, mae'r Trefnydd yn gweithredu ohoni ei hun, heb gyfeirio at unrhyw un o awdurdodau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid y Trefnydd sy'n gyfrifol am y cynnig hwn. Yr wyf wedi cytuno bod y cynnig hwn mewn trefn, ac yr wyf wedi caniatáu iddo ymddangos ar yr agenda.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fel y dywedwch, cytunwyd ar y cynnig hwn drwy'r sianeli priodol yn y Pwyllgor Busnes.

**Y Llywydd:** Nid oes siaradwyr eraill. Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair o blaid y cynnig er mwyn ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** There are no other speakers. This motion will require a two-thirds majority vote in favour for it to be carried.

*Cynnig (NDM3048): O blaid 45, Ymatal 1, Yn erbyn 1.*

*Motion (NDM3048): For 45, Abstain 1, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelod canlynol:  
The following Member abstained:

Thomas, Owen John

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:  
The following Member voted against:

Marek, John

## Sefydlu Comisiwn Cysgodol The Establishment of a Shadow Commission

**The Business Minister (Jane Hutt):** I **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigaf fod propose that:

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 8.1, resolves:* *Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.1, yn penderfynu:*

- |  |   |
|--|---|
| <p>1. <i>to establish a committee to plan for the matters within the responsibility of the future Assembly Commission as set out in clause 27 of the Government of Wales Bill;</i></p> <p>2. <i>that the title of the committee shall be the Shadow Commission;</i></p> <p>3. <i>that membership of the Shadow Commission shall comprise one Assembly Member from the Labour Party, one from Plaid Cymru, one from the Welsh Conservative Party and one from the Welsh Liberal Democrat Party and the Presiding Officer who shall chair the committee;</i></p> <p>4. <i>that the terms of reference of the shadow commission shall be to plan for the matters within the responsibility of the Assembly Commission;</i></p> <p>5. <i>that the committee shall cease to exist on 2 May 2007. (NNDM3046)</i></p> | <p>1. <i>sefydlu pwyllgor i gynllunio ar gyfer y materion a ddaw dan gyfrifoldeb y darpar Gomisiwn y Cynulliad, yn unol â'r hyn a bennir yng Nghymal 27 Mesur Llywodraeth Cymru;</i></p> <p>2. <i>mai teitl y pwyllgor fydd y Comisiwn Cysgodol.</i></p> <p>3. <i>y bydd aelodau'r Comisiwn Cysgodol yn cynnwys un Aelod Cynulliad o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o Blaid Ceidwadwyr Cymru ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Llywydd a fydd yn cadeirio'r pwyllgor;</i></p> <p>4. <i>mai cylch gorchwyl y Comisiwn Cysgodol fydd cynllunio ar gyfer y materion a ddaw dan gyfrifoldeb y darpar Gomisiwn y Cynulliad;</i></p> <p>5. <i>y bydd y pwyllgor yn peidio â bod ar 2 Mai 2007. (NNDM3046)</i></p> |
|--|---|

**Y Llywydd:** Nid oes siaradwyr ar y cynnig hwn, felly awn yn syth at bleidlais.

**The Presiding Officer:** There are no speakers on this motion, so we will move to the vote.

*Cynnig (NNDM3046): O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NNDM3046): For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn

Dunwoody, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Ethol Aelodau i'r Comisiwn Cysgodol Election of Members to the Shadow Commission**

**The Business Minister (Jane Hutt):** I **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod  
 propose that:

*the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 8.4, elects the following Members to its Shadow Commission:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Gomisiwn Cysgodol:*

*Dafydd Elis-Thomas (Presiding Officer), Lorraine Barrett (Labour), Elin Jones (Plaid Cymru), William Graham (Conservative), Peter Black (Liberal Democrat), and elects the Presiding Officer to be the Chair of the Shadow Commission. (NNDM3047)*

*Dafydd Elis-Thomas (y Llywydd), Lorraine Barrett (y Blaid Lafur), Elin Jones (Plaid Cymru), William Graham (y Blaid Geidwadol), Peter Black (y Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol y Llywydd i gadeirio'r Comisiwn Cysgodol. (NNDM3047)*

*Cynnig (NNDM3047): O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Motion (NNDM3047): For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:



The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Sefydlu Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog The Establishment of a Committee on Standing Orders**

**The Business Minister (Jane Hutt):** I Y Trefnydd (**Jane Hutt**): Cynigiaf fod propose that:

*the National Assembly for Wales, in Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â  
accordance with Standing Order No. 8.1, Rheol Sefydlog Rhif 8.1, yn penderfynu:  
resolves:*

- |   |  |
|---|--|
| <p>1. to establish an advisory committee to recommend Standing Orders for the Assembly constituted under the Government of Wales Bill;</p> <p>2. that the title of the committee shall be the Committee on Standing Orders;</p> <p>3. that membership of the committee shall comprise seven Assembly Members: four from the Labour Party, one from Plaid Cymru, one from the Welsh Conservative Party and one from the Welsh Liberal Democrat Party, who shall chair the committee;</p> <p>4. that the terms of reference for the Committee on Standing Orders shall be to:</p> <p>a) make every effort to recommend new Standing Orders that are capable of securing a two-thirds majority approval by Plenary;</p> <p>b) prepare a report that shall set out proposed new Standing Orders for consideration by Plenary.</p> <p>5. that the committee shall report on or before 31 January 2007. The committee shall cease to exist on 1 March 2007. (NDM3044)</p> | <p>1. sefydlu pwyllgor cynghorol i argymhell Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cynulliad o dan Fesur Llywodraeth Cymru;</p> <p>2. mai teitl y pwyllgor fydd y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog;</p> <p>3. y bydd saith Aelod Cynulliad yn aelodau o'r pwyllgor: pedwar o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o Blaid Ceidwadwyr Cymru ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a fydd yn cadeirio'r pwyllgor;</p> <p>4. mai cylch gorchwyl y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog fydd:</p> <p>a) gwneud pob ymdrech i argymhell Rheolau Sefydlog newydd a fydd yn sicrhau cymeradwyaeth mwyafrif o ddau draean yn y Cyfarfod Llawn;</p> <p>b) paratoi adroddiad a fydd yn amlinellu Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig i'w hystyried yn y Cyfarfod Llawn.</p> <p>5. y bydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar 31 Ionawr 2007 neu cyn hynny. Bydd y pwyllgor yn dod i ben ar 1 Mawrth 2007. (NDM3044)</p> |
|---|--|

**John Marek:** Again, I speak as an Assembly Member and not as Deputy Presiding Officer on this motion. I wish to put on record that I can tell you categorically that the Deputy Presiding Officer had no knowledge of this motion, was not consulted upon it, and had no influence over what it says. I would have thought, under Standing Orders, that certainly the officers of the house—that is, the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer—would have been acknowledged to have more knowledge of Standing Orders than the ordinary Assembly Member. I certainly know that the Deputy Presiding Officer has spent his time for the past six years interpreting and refining Standing Orders, and seeing how they can be framed expeditiously so that Government business is expedited while scrutiny of that business is effective and thorough. Therefore, I am mystified as to why it is not proposed that the Deputy Presiding Officer or the Presiding

**John Marek:** Eto, siaradaf fel Aelod Cynulliad, nid fel Dirprwy Lywydd, ar y cynnig hwn. Hoffwn gofnodi y gallaf ddweud wrthyach yn bendant nad oedd y Dirprwy Lywydd yn gwybod dim am y cynnig hwn, nid ymgynghorwyd ag ef yn ei gylch, ac nid oedd ganddo unrhyw ddylanwad ar ei gynnwys. Byddwn wedi meddwl, o dan y Rheolau Sefydlog, y byddid wedi cydnabod bod gan swyddogion y tŷ—hynny yw, y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd—fwy o wybodaeth am Reolau Sefydlog nag Aelod Cynulliad arferol. Gwn yn sicr fod y Dirprwy Lywydd wedi treulio ei amser yn y chwe blynedd diwethaf yn dehongli ac yn mireinio Rheolau Sefydlog, ac yn ymchwilio sut y gellir eu llunio'n gyflym fel y gellir cyflymu busnes y Llywodraeth tra bydd y gwaith o graffu ar y busnes hwnnw'n effeithiol ac yn drwyadl. Felly, ni allaf ddeall pam na chynigir y dylai'r Dirprwy Lywydd neu'r Llywydd fod ar y pwyllgor.

Officer be on the committee.

**The Presiding Officer:** Order. I wish that you would not include me in these points of argument. I am perfectly aware of everything that goes on in this place.

**John Marek:** Yes, of course. I shall not refer to you again, but what I have said is on the record. I am also aware of the arguments that go on in this place.

The Deputy Presiding Officer knew nothing about it until this motion appeared on the net. Indeed, it is strange that we have the Business Minister tabling a motion excluding people who could have contributed to the intrinsic workings of this committee. I do not mean just by presenting evidence or whatever, but by being involved in the discussion to be able to fashion the Standing Orders properly. I can only conclude that the Government is fixing the agenda again. [*Interruption.*] Yes. Hear, hear, Carl. We see in the Government of Wales Bill that the Secretary of State for Wales is not—

**The Presiding Officer:** Order. I am sorry to call my esteemed colleague to order, but this is not a debate about a Bill that is presently, I believe—though I have not got there yet—before the House of Lords at Westminster; this is a debate about an intention to establish a committee on Standing Orders, which is a matter for the Assembly.

**John Marek:** I agree with that. However, with respect, the Bill does lay down certain restrictions so that if we do not have a set of Standing Orders, the Secretary of State for Wales will write a set for us. I merely make the comment in passing that that clearly was a Labour Party fix. The second fix is that the Labour Party has decided not to appoint the Deputy Presiding Officer to any part in this committee. I have to say this on record: it is a great pity that personal antagonisms take precedence over the wellbeing of the Assembly. Yes, Huw Lewis can laugh, but I want this on record, and I want it understood exactly what the Labour Party has been doing as far as the establishment of this committee is concerned.

**Y Llywydd:** Trefn. Byddai'n well gennyf pe na baech yn fy nghynnwys i yn y pwyntiau hyn yn y ddadl. Yr wyf yn hollol ymwybodol o bopeth sy'n digwydd yn y lle hwn.

**John Marek:** Wrth gwrs. Ni chyfeiriaf atoch eto, ond mae'r hyn a ddywedais wedi'i gofnodi. Yr wyf fi hefyd yn ymwybodol o'r dadleuon yma.

Ni wyddai'r Dirprwy Lywydd ddim am hyn nes i'r cynnig ymddangos ar y we. Yn wir, mae'n rhyfedd fod gennym Drefnydd sy'n cyflwyno cynnig nad yw'n cynnwys pobl a allai fod wedi cyfrannu at waith priodol y pwyllgor hwn. Nid wyf yn golygu drwy gyflwyno tystiolaeth neu beth bynnag, ond drwy fod yn rhan o'r drafodaeth er mwyn gallu llunio'r Rheolau Sefydlog yn gywir. Ni allaf ond dod i'r casgliad bod y Llywodraeth unwaith eto yn trefnu'r agenda er ei budd ei hun. [*Torri ar draws.*] Ie. Clywch, clywch, Carl. Gwelwn ym Mesur Llywodraeth Cymru nad yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn—

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf alw fy nghyd-Aelod uchel ei barch i drefn, ond nid dadl yw hon am Fesur sydd, mi gredaf—er nad wyf wedi cyrraedd yno eto—gerbron Tŷ'r Arglwyddi yn San Steffan ar hyn o bryd; dadl yw hon am y bwriad i sefydlu pwyllgor ar Reolau Sefydlog, sy'n fater i'r Cynulliad.

**John Marek:** Cytunaf â hynny. Fodd bynnag, gyda phob parch, mae'r Mesur yn gosod rhai cyfyngiadau sy'n dweud, os na fydd gennym gyfres o Reolau Sefydlog, y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ysgrifennu cyfres i ni. Dim ond sôn wrth fynd heibio yr wyf fi fod hyn wedi ei drefnu er budd y Blaid Lafur. Yr ail achos o hyn yw bod y Blaid Lafur wedi penderfynu peidio â phenodi'r Dirprwy Lywydd ar gyfer unrhyw ran yn y pwyllgor hwn. Mae'n rhaid i mi gofnodi hyn: mae'n drueni mawr fod gwrthwynebiaethau personol yn cael blaenoriaeth dros les y Cynulliad. Ie, gall Hugh Lewis chwerthin, ond yr wyf am gofnodi hyn, ac yr wyf am i bawb ddeall yn union beth mae'r Blaid Lafur wedi bod yn ei wneud o ran sefydlu'r pwyllgor hwn.

We already have a new Bill that gives functions to Ministers, which means that Ministers will not be answerable to Plenary. Plenary will not be supreme as it presently is; it will have functions to pass new legislation, but it will not be supreme.

**The Presiding Officer:** Order. We are coming close to holding a Second Reading debate on the Bill, which I seem to have heard before.

**John Marek:** I will always accede to your requests. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Let me finish what I was saying. If this motion is passed and this committee, rigged by the Government, produces Standing Order that do not allow for full and effective scrutiny, the Welsh people will be cheated by the Labour Party in exercising its cronyism and fixing, as it is doing this afternoon. I urge Members to vote against this motion.

2.10 p.m.

**The Business Minister (Jane Hutt):** It is unfortunate that I have to stand up and refute virtually all that has been said, because John Marek has made a considerable contribution to the National Assembly for Wales, and it is disappointing that he should make this undermining allegation, which I refute. There is one Office of the Presiding Officer in the National Assembly, and it is important that we recognise that. This committee, as the Assembly and my colleagues across the parties know, has a considerable task ahead of it and we have had considerable discussions about how we can, together, in the best sense of the collaboration that we have built up in the Assembly, take forward this important task. I am delighted that this committee will be chaired by Jenny Randerson and that we have a full representation of people with the experience and commitment to ensure that, as and when the Government of Wales Bill proceeds through the House of the Lords and goes on the statute book, we will have a robust set of Standing Orders to take us forward post May 2007. In that spirit of goodwill and

Mae gennym Fesur newydd eisoes sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion, sy'n golygu na fydd y Gweinidogion yn atebol i'r Cyfarfod Llawn. Nid y Cyfarfod Llawn fydd uchaf, fel y mae ar hyn o bryd; bydd ganddo swyddogaethau i basio deddfwriaeth newydd, ond ni fydd yn uchaf.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr ydym ar fin cynnal dadl Ail Ddarlleniad ar y Mesur, a chredaf imi glywed hynny o'r blaen.

**John Marek:** Byddaf bob amser yn cytuno â'ch ceisiadau. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Gadewch imi orffen yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud. Os caiff y cynnig hwn ei dderbyn, ac os bydd y pwyllgor hwn, sydd wedi'i drefnu er budd y Llywodraeth, yn llunio Rheolau Sefydlog nad ydynt yn caniatáu craffu effeithiol a llawn, caiff pobl Cymru eu twyllo gan y Blaid Lafur wrth ddangos ffafriaeth a threfnu pethau er ei lles ei hun, yn union fel y mae'n ei wneud y prynhawn yma. Anogaf yr aelodau i bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae'n anffodus fod yn rhaid imi sefyll a gwrthbrofi bron popeth a ddywedwyd, gan fod John Marek wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n siomedig ei fod yn gwneud yr honiad anffafriol hwn, ac yr wyf yn ei wrthod. Un swydd Llywydd sydd yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'n bwysig inni gydnabod hynny. Mae gan y pwyllgor hwn, fel y gŵyr y Cynulliad a'm cyd-Aelodau ym mhob plaid, dasg anferthol o'i flaen a chawsom drafodaethau helaeth am y ffordd y gallwn gyflawni'r dasg bwysig hon gyda'n gilydd, drwy gydweithredu fel y gwnawn yn y Cynulliad. Yr wyf yn falch iawn fod y pwyllgor hwn i gael ei gadeirio gan Jenny Randerson a bod gennym gynrychiolaeth lawn o bobl sydd â'r profiad a'r ymrwymiad i sicrhau y bydd gennym gyfres gadarn o Reolau Sefydlog ar ôl Mai 2007, pan fydd Mesur Llywodraeth Cymru yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Arglwyddi ac yn dod yn gyfraith gwlad. Yn yr ysbryd hwnnw o ewyllys da ac ymrwymiad, dylem symud ymlaen a phleidleisio ar y cynnig hwn.

commitment, we should move forward and vote on this motion.

**Y Llywydd:** Gwelaf nad oes neb arall am gyfrannu i'r ddadl ddiddorol hon, felly galwaf bleidlais.

**The Presiding Officer:** I see that no-one else wishes to contribute to this interesting debate, therefore, I will call for a vote.

*Cynnig (NDM3044): O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 1.  
Motion (NDM3044): For 48, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Marek, John

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Ethol Aelodau i'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog**  
**Election of Members to the Committee on Standing Orders**

**The Business Minister (Jane Hutt): I Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod  
 propose that:

*the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 8.4, elects the following Members to the Committee on Standing Orders:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog:*

*Jane Hutt (Labour), Ann Jones (Labour), Val Lloyd (Labour), Gwenda Thomas (Labour), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Lisa Francis (Conservative), Jenny Randerson (Liberal Democrat), and elects Jenny Randerson to be the Chair of the committee. (NDM3045)*

*Jane Hutt (y Blaid Lafur), Ann Jones (y Blaid Lafur), Val Lloyd (y Blaid Lafur), Gwenda Thomas (y Blaid Lafur), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Lisa Francis (y Blaid Geidwadol), Jenny Randerson (y Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol Jenny Randerson i gadeirio'r Pwyllgor. (NDM3045)*

*Cynnig (NDM3045): O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*  
*Motion (NDM3045): For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Butler, Rosemary  
 Cairns, Alun  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, Glyn  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
 Dunwoody, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 Isherwood, Mark  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne

Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

### **Diddymu Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus The Abolition of Smoking in Public Places**

**C1 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd gyda diddymu ysmygu mewn manau cyhoeddus? OAQ0806(HSS)

**Q1 David Lloyd:** Will the Minister give a progress report on the abolition of smoking in public places? OAQ0806(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** We are making good progress with our preparations for a ban on smoking in enclosed public places. We will be issuing draft regulations in Wales once the Health Bill has received Royal Assent. We aim to get the ban in force by summer 2007, but we must ensure that all the necessary arrangements are in place before then.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Yr ydym yn gwneud cynnydd da gyda'n paratodau ar gyfer gwahardd ysmygu mewn manau cyhoeddus caeedig. Byddwn yn cyhoeddi rheoliadau drafft yng Nghymru cyn gynted ag y bydd y Mesur Iechyd wedi cael y Cydsyniad Brenhinol. Ein nod yw rhoi'r gwaharddiad ar waith erbyn yr haf 2007, ond rhaid inni sicrhau bod yr holl drefniadau angenrheidiol ar waith cyn hynny.

**David Lloyd:** Mae 400 o bobl yng Nghymru yn marw o sgîl-efeithiau anadlu mwg rhywun arall bob blwyddyn, ac mae profiad Iwerddon yn datgelu mai'r gwanwyn yw'r amser gorau i ddechrau gwaharddiad. Dyna pam daeth y gwaharddiad i rym yn Iwerddon ym Mawrth 2004, a pham daeth y gwaharddiad yn yr Alban i rym ym Mawrth eleni. Gan gofio hynny, beth yw'r siawns o weld y gwaharddiad yng Nghymru yn dod i rym ym Mawrth 2007?

**David Lloyd:** Four hundred people in Wales die every year from the side-effects of inhaling someone else's smoke, and the experience in Ireland reveals that the best time to start a ban is in the spring. That is why the ban came into force in Ireland in March 2004, and why the ban in Scotland came into force in March this year. Given that, what chance is there of the ban in Wales coming into force in March 2007?

**Brian Gibbons:** Given the democratic scrutiny procedures and the proper

**Brian Gibbons:** O ystyried y gweithdrefnau craffu democrataidd a'r gofynion priodol ar

requirements for legal notice and so forth, it would be difficult to get the necessary consultation and implement due process within the timescale that you ask for. I would not be averse to trying to achieve that timetable if possible, but there are legal and due process constraints that may not allow that to happen. We would not want to start the ban if there were a question about whether due process had been adhered to, because that would distract from its effective implementation. However, I hear what you say, and I am not opposed to the sentiment expressed.

gyfer hysbysiad cyfreithiol ac ati, byddai'n anodd trefnu'r ymgynghori angenrheidiol a rhoi'r broses briodol ar waith o fewn yr amserlen yr ydych yn gofyn amdani. Ni fyddwn yn gwrthwynebu ceisio cyflawni hynny o fewn yr amserlen honno os yw'n bosibl, ond mae cyfyngiadau cyfreithiol a phroses briodol na fyddant efallai yn caniatáu i hynny ddigwydd. Ni fyddem am gychwyn y gwaharddiad pe bai amheuaeth a fyddai'r broses briodol wedi cael ei dilyn, goherwydd byddai hynny'n tynnu oddi wrth y gwaith o'i gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, gallaf ddeall yr hyn yr ydych yn ei ddweud, ac nid wyf yn gwrthwynebu'r farn a fynegwyd.

### **Addysgu Dwyieithog yn Ysgol Nyrsio Coleg y Brifysgol Bangor Bilingual Teaching in the University College Bangor School of Nursing**

**C2 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol a gynigir ar gyfer addysgu dwyieithog yn ysgol nyrsio coleg y brifysgol, Bangor? OAQ0862(HSS)

**Q2 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on the financial assistance provided for bilingual teaching at university college Bangor school of nursing? OAQ0862(HSS)

**Brian Gibbons:** Welsh health programmes are negotiated with the five higher education providers following analysis of the workforce plans. The budget allocation identifies the additional cost of bilingual provision.

**Brian Gibbons:** Caiff rhaglenni iechyd Cymru eu negodi gyda'r pum darparwr addysg uwch ar ôl dadansoddi'r cynlluniau gweithlu. Mae'r gyllideb a ddyrennir yn nodi cost ychwanegol y ddarpariaeth ddwyieithog.

**Alun Ffred Jones:** Ar ymweliad diweddar â'r ysgol nyrsio, dysgais fod y gwaith a wneir ym Mangor yn arloesol ac yn torri tir newydd. Mae paratoi deunyddiau Cymraeg yn golygu costau ychwanegol, a'r honiad a wneir gan yr ysgol yw nad ydynt yn cael dim arian ychwanegol i dalu'r costau hynny. A wnewch chi, gyda'ch cyfeillion yn y Cabinet, edrych eto ar y ddarpariaeth hon sydd, fel y dywedais, yn arloesol ac yn torri tir newydd yng Nghymru?

**Alun Ffred Jones:** On a recent visit to the school of nursing, I learned that the work undertaken in Bangor is innovative and groundbreaking. Preparing Welsh-language material has additional cost implications, and the school claims that it does not receive additional funding to meet those costs. Will you, with your Cabinet colleagues, revisit this provision, which, as I say, is innovative and breaking new ground in Wales?

**Brian Gibbons:** I have heard what you have said, and the point that you make is worth listening to. As you have visited the school of nursing, you will be aware that a considerable amount of excellent work is taking place with undergraduate and postgraduate nursing students on the promotion of bilingualism. Something of the order of a quarter of the clinical teaching at the bedside takes place through the medium of Welsh where appropriate, and that is good. I heard what you said, and I will take that

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi clywed yr hyn a ddywedwch, ac mae'r pwynt a wnewch yn haeddu sylw. Gan eich bod wedi ymweld â'r ysgol nyrsio, fe wyddoch fod llawer iawn o waith rhagorol yn cael ei wneud gyda myfyrwyr nyrsio israddedig ac ôl-raddedig ar hyrwyddo dwyieithrwydd. Caiff tua chwarter yr addysgu clinigol wrth ymyl y gwely ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg lle mae'n briodol, ac mae hynny'n beth da. Clywais yr hyn a ddywedwch, a byddaf yn ei ystyried.



away.

**Mark Isherwood:** It is essential that people in north-west Wales are cared for by bilingual nurses. Logically, these nurses are best educated and recruited locally. How do you respond to concerns raised by newly qualified nurses within North West Wales NHS Trust when they were informed that no jobs were available?

**Brian Gibbons:** The health service's main priority is to deliver health services to patients in the local area, as you suggested, Mark, in a way that is sensitive to cultural needs and so forth. If that has to be done, extra nurses will need to be employed to deliver those services and achieve health service targets. However, each health service organisation must use its resources to deliver services to patients and to deliver financial balance. I am sure that you would agree that that can be a difficult task, but that must be the basis on which health service organisations operate.

**Mark Isherwood:** Mae'n hanfodol i bobl yn y gogledd-orllewin gael gofal gan nyrsys dwyieithog. Yn rhesymegol, addysgu a recriwtio'r nyrsys hyn yn lleol sydd orau. Sut yr ydych yn ymateb i bryderon a godwyd gan nyrsys newydd gymhwyso yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru pan ddywedwyd wrthynt nad oedd swyddi ar gael?

**Brian Gibbons:** Prif flaenoriaeth y gwasanaeth iechyd yw darparu gwasanaethau iechyd i gleifion yn yr ardal leol, fel yr awgrymoch, Mark, mewn ffordd sy'n diwallu anghenion diwylliannol, ac ati. Os oes yn rhaid gwneud hynny, bydd angen cyflogi mwy o nyrsys i ddarparu'r gwasanaethau hynny a chyrraedd targedau'r gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, rhaid i bob gwasanaeth iechyd ddefnyddio'i adnoddau i ddarparu gwasanaethau i gleifion a mantoli'r gyllideb. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno y gall hynny fod yn dasg anodd, ond rhaid i sefydliadau'r gwasanaeth iechyd seilio'u gweithrediadau ar hynny.

### **Dileu Swyddi yn y GIG NHS Staff Redundancies**

**Q3 Jonathan Morgan:** Will there be any NHS staff redundancies of any description in Wales as a result of financial deficits? OAQ0801(HSS)

**Brian Gibbons:** All NHS bodies must operate within their financial allocations and examine measures such as reducing reliance on agency staff and questioning the need to fill non-essential vacancies in order to balance their books and to deliver quality services for NHS patients in Wales.

**Jonathan Morgan:** You are clearly unaware of the fact that there are NHS trusts in Wales, the Cardiff and Vale NHS Trust being one, which have been considering options that have included the reduction in the number of staff members. Some of the options considered by Cardiff and the Vale include a reduction of 152 whole-time equivalent posts. That was the least draconian measure; the most draconian was to freeze all vacancies with a view to possibly holding an

**C3 Jonathan Morgan:** A fydd swyddi unrhyw aelod o staff y GIG yng Nghymru yn cael eu dileu o ganlyniad i ddiffygion ariannol? OAQ0801(HSS)

**Brian Gibbons:** Rhaid i holl gyrff y GIG weithredu o fewn eu dyraniadau ariannol ac archwilio mesurau megis dibynnu'n llai ar staff asiantaeth a chwestiynu'r angen i lenwi swyddi gwag nad ydynt yn hanfodol er mwyn mantoli'r gyllideb a darparu gwasanaethau o safon i gleifion y GIG yng Nghymru.

**Jonathan Morgan:** Mae'n amlwg nad ydych yn ymwybodol fod yna ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, ac mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn un ohonynt, sydd wedi bod yn ystyried dewisiadau sydd wedi cynnwys lleihau niferoedd staff. Ymhlith rhai o'r dewisiadau a ystyriwyd gan Gaerdydd a'r Fro mae cwtogi 152 o swyddi amser cyflawn cyfatebol. Dyna oedd y cam lleiaf llym; y cam llymaf oedd rhewi pob swydd wag gyda'r bwriad o gynnal adolygiad

organisational review with compulsory redundancies. These papers are public. Surely, as Minister, you should be aware of the pressures faced by the trusts, which are now in the difficult situation of having to decide whether to invest in what you tell them to invest in, or to decide whether they are in a position to cut back on jobs. In a letter sent to me this week, you state that you are personally committed to ensuring that the NHS does not lose highly qualified staff. How committed are you, and does that commitment extend to your putting your job on the line too?

**Brian Gibbons:** I do not quite follow the logical sequence in that question. However, the first priority, as I said to Mark, is that the health service delivers to meet the needs of patients, and does so within the context of the resources available to it. The key word in your assertion was 'options'. It is my understanding that the options have not been brought forward as concrete proposals. You will know as well as I do that when organisations are looking at challenges, they will undertake an appraisal of a wide range of options. Obviously, a large number of those options will be rejected as inappropriate to the task. This is the challenge facing Cardiff and the Vale. It is making good progress in addressing this by ensuring that its workforce planning is better in line, particularly in nursing—for example, the reliance on agency nursing in recent years has been cut almost by a half. That creative use of those types of options is more likely to deliver benefits for patients than some of the options that you are suggesting.

2.20 p.m.

**Jonathan Morgan:** The Cardiff and Vale NHS Trust has been creative in recent years, as, I am sure, have other trusts in Wales. In the situation in Cardiff, the trust has made savings in the past three years of up to £40 million. However, there will come a point in the future when those savings cannot be made. A report by the chief executive, put to the trust board on 4 May, states that implementing the local delivery plan, which is there to ensure that the trust meets the

trefniadaeth o bosibl gyda diswyddo gorfodol. Mae'r papurau hyn ar gael i'r cyhoedd. Oni ddylech, fel Gweinidog, fod yn ymwybodol o'r pwysau sy'n wynebu'r ymddiriedolaethau, sydd bellach yn y sefyllfa anodd o orfod penderfynu buddsoddi yn yr hyn y dywedwch wrthynt am fuddsoddi ynddo, neu benderfynu a ydynt mewn sefyllfa i gwtogi swyddi. Mewn llythyr a anfonwyd ataf yr wythnos hon, dywedwch eich bod wedi ymrwymo i sicrhau na fydd y GIG yn colli staff gyda chymwysterau uchel. Faint yw eich ymrwymiad, ac a yw'r ymrwymiad hwnnw yn cynnwys bod eich swydd chi yn y fantol hefyd?

**Brian Gibbons:** Nid wyf yn deall trefn resymegol y cwestiwn hwnnw. Fodd bynnag, y flaenoriaeth gyntaf, fel y dywedais wrth Mark, yw bod y gwasanaeth iechyd yn diwallu anghenion cleifion, ac yn gwneud hynny yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ganddo. Y gair allweddol yn eich honiad oedd 'dewisiadau'. Hyd y gwn i, nid yw'r dewisiadau wedi eu cyflwyno fel cynigion pendant. Fe wyddoch cystal â mi fod sefydliadau, pan fyddant yn edrych ar heriau, yn gwneud arfarniad o ystod eang o ddewisiadau. Yn amlwg, caiff nifer fawr o'r dewisiadau hynny eu gwrthod fel rhai sy'n amhriodol i'r dasg. Dyna'r her sy'n wynebu Caerdydd a'r Fro. Mae'n gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â hyn drwy sicrhau ei bod yn cynllunio'i gweithlu'n well, yn enwedig o ran nyrsio—er enghraifft, mae'r ddibyniaeth ar nyrsys asiantaeth wedi ei haneru bron yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae defnyddio mathau hynny o ddewisiadau yn greadigol fel hyn yn fwy tebygol o fod o fudd i gleifion na rhai o'r dewisiadau a awgrymwch.

**Jonathan Morgan:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro wedi bod yn greadigol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y mae ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru, mae'n sicr gennyf. Yng Nghaerdydd, mae'r ymddiriedolaeth wedi arbed hyd at £40 miliwn yn y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, bydd adeg rywbryd yn y dyfodol pan na ellir sicrhau'r arbedion hyn. Dywed adroddiad gan y prif weithredwr, a gyflwynwyd i fwrdd yr ymddiriedolaeth ar 4

ambitious 2009 waiting time target, will be difficult. In fact, the chief executive states that if the local delivery plan is not fully funded, in the same way as the staff contracts have not been fully funded, it will receive only £14 million from you as opposed to the anticipated £26 million that it needs to do the job properly. He states that not only will the trust not meet the key milestones for the waiting time target for 2006, it will fail to maintain the existing orthopaedic 12-month in-patient and day-case waiting times. Therefore, it is not just a question of sustaining what it has now and doing better in three years' time; he states quite clearly that the trust will fail to keep the current obligations that you have set for it. Is it not time that you reviewed where the money is going in the system to ensure that the trusts have the money that they need to do the job properly?

**Brian Gibbons:** I agree with the point that you made that all health organisations must carefully monitor where their money goes, and that it must go towards delivering front-line patient services. It is true to say that negotiations are going on with Cardiff and Vale NHS Trust regarding what it requires in order to deliver the 2009 programme. The original difference between the two sides has significantly narrowed; I do not think that the gap has been fully and finally narrowed, but, given the starting point of the discussions, considerable progress has been achieved. Everyone needs to have the resources to deliver the targets for 2009, which are ambitious and I am pleased that you acknowledged that delivering waiting times is an ambitious challenge. It is a pity that you did not take that view last month.

**Jenny Randerson:** If you are not aware of the Cardiff and Vale trust's difficulties, perhaps you have been made aware today of the Royal Gwent Hospital's difficulties, which it is seeking to solve by closing a ward. That will mean not just the loss of jobs; it will also have a direct impact on the service and level of care provided to patients. Have

Mai, fod gweithredu'r cynllun cyflawni lleol, sydd â'r nod o sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn cyrraedd targed uchelgeisiol 2009 ar gyfer amseroedd aros, yn anodd. Yn wir, dywed y prif weithredwr os na chaiff y cynllun cyflawni lleol ei ariannu'n llawn, fel y methwyd ag ariannu contractau staff yn llawn, dim ond £14 miliwn a gaiff gennych o'i gymharu â'r £26 miliwn disgwylidig sydd ei angen arni i wneud y gwaith yn iawn. Mae'n dweud nid yn unig y bydd yr ymddiriedolaeth yn methu â chyrraedd y cerrig milltir allweddol ar gyfer y targed amseroedd am 2006, ond hefyd yn methu â chynnal yr amseroedd aros presennol o 12 mis ar gyfer cleifion mewnlol a chleifion allanol orthopedig. Felly, nid mater o gynnal yr hyn sydd ganddi yn awr a gwneud yn well ymhen tair blynedd yw hyn; mae'n dweud yn ddigon clir y bydd yr ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni'r rhwymedigaethau presennol a bennwyd gennych ar ei chyfer. Onid yw'n bryd i chi edrych i ble y mae'r arian yn mynd yn y system, er mwyn sicrhau bod gan yr ymddiriedolaethau yr arian y mae arnynt ei angen i wneud y gwaith yn iawn?

**Brian Gibbons:** Cytunaf â'ch pwynt fod yn rhaid i bob sefydliad iechyd fonitro'm ofalus i ble yr aiff ei arian, a bod yn rhaid ei wario ar ddarparu gwasanaethau cleifion rheng flaen. Mae'n wir dweud bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ynghylch yr hyn y mae arni ei angen i ddarparu rhaglen 2009. Mae'r gwahaniaeth gwreiddiol rhwng y ddwy ochr wedi lleihau'n sylweddol; ni chredaf fod y bwlch wedi ei leihau'n gyfan gwbl, ond o ystyried man cychwyn y trafodaethau, gwnaed cryn dipyn o gynnydd. Mae angen i bawb gael yr adnoddau i gyrraedd y targedau ar gyfer 2009, sy'n uchelgeisiol, ac yr wyf yn falch eich bod wedi cydnabod bod cyflawni amseroedd aros yn her uchelgeisiol. Mae'n drueni nad oeddech yn meddwl hynny fis diwethaf.

**Brian Gibbons:** Ar y pwynt olaf hwnnw, credaf eich bod, mae'n debyg, yn gwybod bod swm sylweddol eisoes yn cael ei fuddsoddi yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, wrth inni siarad. Un o'r heriau mwyaf o ran rhoi'r arian hwnnw i'r ysbyty yw bod yn rhaid inni nid yn unig gynnig tebyg am debyg, ond hefyd ddarparu gwasanaethau gwerthychwanegol gwirioneddol fel rhan o'r prosiect buddsoddi hwnnw ar gyfer pobl Merthyr a Rhymni. Gwyddom i gyd fod iechyd pobl Merthyr ymhlith y gwaethaf yng Nghymru, ac o bosibl y Deyrnas Unedig. Fel y dywedodd Derek Wanless wrthym, rhan o'r rheswm y tu ôl i hynny yw'r gwasanaeth gofal sylfaenol nad yw ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, bod gormod o bobl yn wynebu cymhlethdodau sylweddol gyda chlefydau y dylid bod wedi'u trin yn gynharach. Mae'n rhaid i wella gwasanaethau gofal sylfaenol ym Merthyr a Rhymni fod yn her sylweddol inni yn y Cynulliad, ond yn fwy arbennig i'r gymuned iechyd ym Merthyr. Byddwn yn sicr yn barod i ymrwymo i sicrhau bod hynny'n digwydd.

### **Y Contract Deintyddol Cyffredinol Newydd The New General Dental Contract**

**C10 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y contract deintyddol cyffredinol newydd? OAQ0840(HSS)

**Q10 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on the new general dental contract? OAQ0840(HSS)

**Brian Gibbons:** Information from local health boards and the NHS business services authority indicates that over 97 per cent of dentists have signed up to the new dental contract from 1 April, providing care to over 95 per cent of dental-service patients, who were on the NHS prior to the changes. Additional investment worth £30 million has been provided for NHS dentistry in 2006-07.

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdod gwasanaethau busnes y GIG yn nodi bod dros 97 y cant o ddeintyddion wedi ymrwymo i'r contract deintyddol newydd o 1 Ebrill, gan ddarparu gofal i dros 95 y cant o gleifion y gwasanaeth deintyddol a oedd yn rhan o'r GIG cyn y newidiadau. Darparwyd buddsoddiad ychwanegol gwerth £30 miliwn



ar gyfer deintyddiaeth y GIG yn 2006-07.

**Owen John Thomas:** You seem to be looking at the situation through rose-tinted spectacles, Minister. The general dental contract has been rushed through by the Welsh Assembly Government and approximately half of Cardiff's dental practices are involved in unresolved disputes over funding streams. Cardiff Local Health Board has been awarded £1 million to implement the new dental contracts, which practitioners estimate to be approximately £4 million short of the amount required. The ramifications of the situation, if unresolved, could result in more practices leaving the NHS and redundancies, ultimately diminishing access for the public to a national health service dentist. What steps are you taking to avert this potential crisis?

**Owen John Thomas:** Weinidog, mae'n ymddangos eich bod yn edrych ar y sefyllfa'n obeithiol. Rhuthrwyd y contract deintyddol cyffredinol drwodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae tua hanner practisau deintyddol Caerdydd yn wynebu anghydfodau sydd heb eu datrys ynghylch ffrydiau ariannu. Rhoddwyd £1 filiwn i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd i roi'r contractau deintyddol newydd ar waith, ac mae ymarferwyr yn amcangyfrif eu bod tua £4 miliwn yn brin o'r swm angenrheidiol. Gallai goblygiadau'r sefyllfa, os na chânt eu datrys, olygu bod mwy o bractisau'n gadael y GIG a diswyddiadau, ac yn y pen draw byddai hynny'n ei gwneud yn fwy anodd cael gwasanaeth deintydd yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i osgoi'r argyfwng posibl hwn?

**Brian Gibbons:** It is extraordinary when you say that I am looking through rose-tinted spectacles because, in reality, spending on NHS dentistry since the Assembly was established has increased by almost 90 per cent. Equally, we know that the level of investment in the NHS in Cardiff is the highest in Wales, at over £15 million. I do not think that that is the view through rose-tinted spectacles; that is the reality. The fact that the overwhelming majority of dentists signed up for the national health service on 1 April speaks for itself. It is true that there are some unresolved contractual issues, which we hope to work through with the individual dentists, but to portray that in the apocalyptic and cataclysmic terms that you have chosen to use here today is totally divorced from reality.

**Brian Gibbons:** Mae'n rhyfeddol eich clywed yn dweud fy mod yn edrych ar y sefyllfa'n obeithiol, oherwydd mewn gwirionedd mae'r gwariant ar ddeintyddiaeth y GIG ers sefydlu'r Cynulliad wedi cynyddu bron 90 y cant. Yn yr un modd, gwyddom mai lefel y buddsoddiad yn y GIG yng Nghaerdydd yw'r uchaf yng Nghymru, sef dros £15 miliwn. Ni chredaf mai edrych ar y sefyllfa'n obeithiol yw hynny; dyna'r gwirionedd. Mae'r ffaith fod mwyafrif helaeth y deintyddion wedi ymrwymo i'r gwasanaeth iechyd gwladol ar 1 Ebrill yn adrodd cyfrolau. Mae'n wir fod rhai problemau gyda chontractau sydd heb eu datrys, a gobeithiwn allu eu datrys gyda'r deintyddion unigol. Ond mae portreadu hynny yn y termau apocalyptiaidd a thrychinebus y dewisech eu defnyddio yma heddiw yn hollol groes i'r gwirionedd.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

#### **Datblygu Gêm Broffesiynol Rygbi'r Gynghrair Development of Professional Rugby League**

**Q1 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on the development of professional rugby league in Wales? OAQ0788(CWS)

**C1 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu rygbi'r cynghrair proffesiynol yng Nghymru? OAQ0788(CWS)

**Q2 Janet Ryder:** What recent discussions has the Minister had regarding the development of professional rugby league in Wales? OAQ0785(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** There is one professional rugby league team in Wales, the Celtic Crusaders. They play their home games at Bridgend's Brewery field and the local AM, Carwyn Jones, tells me that they have made a decent start to the season. If they can beat Blackpool in their next game, they will be well set for promotion.

**Janet Ryder:** I declare an interest as a patron of the Wales Rugby League. I congratulate your Cabinet colleague for supporting such a great team. I hope that you will join me in congratulating the Wales Rugby League on being awarded governing body status by the Sports Council for Wales. That puts it on a par with the Welsh Rugby Union and the Football Association of Wales, and it is a great step forward for rugby league in Wales. I am sure that you are aware that rugby league is now a summer sport; as such, it does not compete with soccer or rugby union because, as their seasons draw to an end, ours is about to kick off in a fortnight's time. That brings problems, however, in that many clubs use the summer to repair their pitches. Would you agree to work with the rugby league and support and help it to gain access to those pitches for the many and increasing number of youth teams, in particular, that are taking up rugby league to ensure that the sport can continue to develop even further?

**Alun Pugh:** We are certainly happy to look at that. Personally, I would never fancy the idea of playing rugby in summer; the pitches would be far too hard for someone like me. *[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. What is the point of shouting?

**Alun Pugh:** I certainly agree that the attainment of governing-body status is good for Welsh rugby league and for sport overall.

**C2 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn ddiweddar ar ddatblygu rygbi'r gynghair proffesiynol yng Nghymru? OAQ0785(CWS)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae yna un tîm rygbi'r gynghair proffesiynol yng Nghymru, Celtic Crusaders. Maent yn chwarae eu gemau cartref ar Gae'r Bragdy ym Mhen-y-bont ar Ogwr a dywed yr AC lleol, Carwyn Jones, wrthyf fod y tymor wedi dechrau'n eithaf da iddynt. Os gallant drechu Blackpool yn eu gêm nesaf, bydd cyfle da iddynt gael dyrchafiad.

**Janet Ryder:** Datganaf fuddiant fel noddwr Cynghrair Rygbi Cymru. Hoffwn longyfarch eich cyd-Weinidog yn y Cabinet am gefnogi cystal tîm. Gobeithio yr ymunwch â mi i longyfarch Cynghrair Rygbi Cymru ar gael statws corff llywodraethu gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae hynny'n ei roi ar yr un lefel ag Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru, ac mae'n gam mawr ymlaen i rygbi'r cynghair yng Nghymru. Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod rygbi'r cynghair bellach yn gêm haf; fel y cyfryw, nid yw'n cystadlu â phêl-droed na rygbi'r undeb, oherwydd wrth i'w tymhorau hwy dynnu at eu terfyn, mae ein tymor ni ar fin dechrau ymhen pythefnos. Fodd bynnag, daw problemau yn sgîl hynny gan fod nifer o glybiau'n defnyddio'r haf i adfer cyflwr eu caeau. A gytunwch i weithio gyda'r cynghrair rygbi a'i gefnogi a'i helpu i sicrhau bod y caeau hynny ar gael i'r timau ieuenctid niferus a chynyddol, yn arbennig, sy'n dechrau chwarae rygbi'r cynghrair i sicrhau y gall y gamp hon barhau i ddatblygu ymhellach?

**Alun Pugh:** Yr ydym yn sicr yn fodlon edrych ar hynny. Yn bersonol, ni fyddwn yn hoff o'r syniad o chwarae rygbi yn yr haf; byddai'r caeau lawer yn rhy galed i rywun fel fi. *[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Beth yw diben gweiddi?

**Alun Pugh:** Yn sicr yr wyf yn cytuno bod cael statws corff llywodraethu yn dda i rygbi'r cynghrair yng Nghymru ac i chwaraeon yn gyffredinol.

**Janet Ryder:** You are right that playing rugby league in summer makes it a fast, hard and open game that is not for those who are in any way weak—it takes a real man to play proper rugby league at top-class level. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’] Are you aware, Minister, that only yesterday, the rugby league announced its under-19 squad to compete in the European championships at the end of July, that we have eight development officers working in Wales now, and that we operate in 27 schools? Will you join me in congratulating the five students from Wales who have gained their places in the Great Britain squad to tour New Zealand and Australia in July?

**Alun Pugh:** I am happy to do that, and I am pleased that our colleagues in the Sports Council for Wales are taking the development agenda in rugby league seriously. I am pleased to see that some £34,000 has been allocated to support grass-roots work.

**Laura Anne Jones:** How are you working with local authorities to ensure that the much-needed investment in rugby facilities and pitches is being delivered? Of course, if the facilities are available, particularly all-round facilities, as was touched on earlier, then people will have the choice of playing rugby union or rugby league.

**Alun Pugh:** We would certainly like to see more people play both codes of rugby. Rugby is a terrific game that plays a huge part in Welsh culture, and the development of national sports, such as rugby, is a key part of the ‘Climbing Higher’ agenda.

**Janet Ryder:** Yr ydych yn iawn i ddweud bod chwarae rygbi'r cynghrair yn yr haf yn ei gwneud yn gêm gyflym, galed ac agored nad yw'n addas i bobl sy'n wan mewn unrhyw ffordd—mae angen dyn go iawn i chwarae rygbi'r cynghrair yn iawn ar y lefel uchaf. [AELODAU'R CYNULLIAD: ‘O’.] A oeddech yn gwybod, Weinidog, fod y cynghrair rygbi ddoe wedi cyhoeddi ei garfan dan 19 a fydd yn cystadlu ym mhencampwriaeth Ewrop ddiwedd mis Gorffennaf, a bod gennym wyth o swyddogion datblygu yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, a'n bod yn gweithredu mewn 27 o ysgolion? A ymunwch â mi i longyfarch y pum myfyriwr o Gymru a enillodd eu lleoedd yng ngharfan Prydain Fawr i fynd ar daith i Seland Newydd ac Awstralia ym mis Gorffennaf?

**Alun Pugh:** Yr wyf yn barod iawn i wneud hynny ac yn falch fod Cyngor Chwaraeon Cymru yn cymryd yr agenda ddatblygu ar gyfer rygbi'r cynghrair o ddifrif. Yr wyf yn falch gweld bod tua £34,000 wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar lawr gwlad

**Laura Anne Jones:** Sut yr ydych yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y buddsoddiad y mae cymaint o'i angen gymaint mewn cyfleusterau a chaeau rygbi yn cael ei ddarparu? Wrth gwrs, os bydd y cyfleusterau ar gael, yn enwedig cyfleusterau y gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn, fel y trafodwyd yn gynharach, yna gall pobl ddewis chwarae rygbi'r undeb neu rygbi'r cynghrair.

**Alun Pugh:** Byddem yn sicr yn hoffi gweld mwy o bobl yn chwarae'r ddau fath o rygbi. Mae rygbi'n gêm wych sy'n rhan enfawr o ddiwylliant Cymru, ac mae datblygiad chwaraeon cenedlaethol, megis rygbi, yn rhan allweddol o'r agenda ‘Dringo'n Uwch’.

### **Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yng Nghanol De Cymru Promoting the Welsh Language in South Wales Central**

**Q3 Leanne Wood:** What new measures is the Minister implementing to promote the Welsh language in South Wales Central? OAQ0793(CWS)

**Alun Pugh:** As part of the Assembly

**C3 Leanne Wood:** Pa gamau newydd y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghanol De Cymru? OAQ0793(CWS)

**Alun Pugh:** Fel rhan o ymrwymiad

Government's commitment to creating a fully bilingual Wales, we are working hard to promote the Welsh language to all of the people of Wales and in every part of Wales—including, of course, your region of South Wales Central.

**Leanne Wood:** I understand that at a public meeting last night in Swansea, you yet again refuted the need for new legislation on the Welsh language. Can you therefore update me on how your programme of persuasion and good will, supported by your Tory allies, is coming along? Also, why are you happy to stand by and let your Labour colleagues—*[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. I was about to call Leighton Andrews to ask a supplementary, but I am having second thoughts, given his sedentary intervention. I understood Leanne Wood to refer to something that the Minister said in Swansea, which may or may not have relevance to South Wales Central.

**Leanne Wood:** Minister, can you also tell me why you are happy to stand back and let your Labour colleagues on Rhondda Cynon Taf Council Borough Council slash funding for Welsh-medium playscheme places and after-school clubs, thereby decimating 12 years of hard work and denying my constituents the opportunities that you claim to support? Do you not think that you have a duty to intervene?

**Alun Pugh:** There are many positive news stories coming out from the private sector and the voluntary sector in terms of positive promotion of the Welsh language. Organisations as diverse as BT and the Principality Building Society see the importance of promoting Welsh as part of their Welsh identity. There are a lot of good-news stories around.

In the case of the private and the voluntary sectors, we are not in the business of having major new legislation to go into those areas because we believe that a process of encouragement is securing the best way forward in creating the bilingual Wales that

Llywodraeth y Cynulliad i greu Cymru gwbl ddwyieithog, yr ydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhlith holl bobl Cymru ac ym mhob rhan o Gymru—gan gynnwys, wrth gwrs, eich rhanbarth chi yng Nghanol De Cymru.

**Leanne Wood:** Deallaf eich bod, mewn cyfarfod cyhoeddus yn Abertawe neithiwr, unwaith eto wedi gwrthod yr angen am ddeddfwriaeth newydd ar yr iaith Gymraeg. A allwch, felly, roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am hynt eich rhaglen o berswâd ac ewyllys da, sy'n cael ei chefnogi gan y Toriaid? A hefyd, pam yr ydych yn fodlon gadael i'ch cyd-Aelodau Llafur—*[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Yr oeddwn ar fin galw ar Leighton Andrews i ofyn cwestiwn atodol, ond yr wyf wedi ailfeddwl, o gofio iddo ymyrryd ar ei eistedd. Deallais fod Leanne Wood yn cyfeirio at rywbeth a ddywedodd y Gweinidog yn Abertawe, a all fod yn berthnasol i Ganol De Cymru neu beidio.

**Leanne Wood:** Weinidog, a allwch hefyd ddweud wrthyf pam yr ydych yn fodlon gadael i'ch cyd-Aelodau Llafur ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gwtogi'r cyllid ar gyfer lleoedd mewn cynlluniau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol dry gyfrwng y Gymraeg, gan ddileu 12 mlynedd o waith caled, felly, a gwrthod y cyfleoedd i'm hetholwyr yr ydych yn honni eu cefnogi? Oni chredwch fod dyletswydd arnoch i ymyrryd?

**Alun Pugh:** Mae nifer o straeon newyddion cadarnhaol yn dod o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol. Mae sefydliadau mor amrywiol â BT a Chymdeithas Adeiladau Principality yn gweld pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'u delwedd Gymreig. Mae yna nifer o straeon newyddion da.

Yn achos y sectorau preifat a gwirfoddol, nid ydym yn bwriadu cyflwyno prif ddeddfwriaeth newydd yn y meysydd hynny, oherwydd credwn fod proses o annog yn sicrhau'r ffordd orau ymlaen i greu'r Gymru ddwyieithog y mae'r holl Aelodau yn

all Members want to see.

**Leighton Andrews:** Weinidog, a wnewch chi longyfarch grwpiau o oedolion yn y Rhondda sy'n dysgu Cymraeg, megis y grwpiau o Faerdy a Llwynypia?

3.00 p.m.

A gytuna'r Gweinidog fod grwpiau fel y rhain yn rhoi cyfle pwysig i bobl sydd eisiau dysgu Cymraeg gyda'i gilydd, ac felly y dylem eu cefnogi?

**Alun Pugh:** Gwn fod llawer o bobl yn y Rhondda yn dysgu'r Gymraeg ar hyn o bryd, a hoffwn eu llongyfarch am eu gwaith.

**David Melding:** Will you join me in congratulating the Welsh Language Board and the Vale of Glamorgan Council who have promoted Welsh among Welsh learners in the vale during the past few years, and its social use in particular? They meet and discuss issues in some of the pubs of the Vale of Glamorgan, and one can almost see the spirit of Iolo Morganwg looming, wanting to make a contribution. [*Laughter.*]

**Alun Pugh:** One of the good things that we can draw from the last census return and other evidence is the upsurge of interest in the Welsh language, in terms of the number of adults learning the Welsh language and the number of enrolments for Welsh-medium education. There is a very positive story to be told in those parts of Wales which, in the past, have not had Welsh speakers in great volumes.

**Jenny Randerson:** I was delighted to see the Welsh language use survey, which flowed directly from 'Iaith Pawb'. It revealed an increase of just under 9 per cent in the number of Welsh speakers in South Wales Central, whereas there was a drop in the number of Welsh speakers elsewhere. However, only 41 per cent of those Welsh speakers were fluent, which serves to underline the importance of the Welsh-medium education system. Therefore, do you share my concern that proposals to boost, develop and expand the thriving and popular Welsh-medium system in Cardiff, met with

dymuno'i gweld.

**Leighton Andrews:** Minister, will you congratulate groups of adults in Rhondda who learn Welsh, such as those groups from Maerdy and Llwynypia?

Does the Minister agree that such groups are an important opportunity for those who wish to learn Welsh to get together, and that we should, therefore, support them?

**Alun Pugh:** I am aware that many people in Rhondda are currently learning Welsh, and I congratulate them on their work.

**David Melding:** A ymunwch â mi i longyfarch Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Bro Morgannwg sydd wedi bod yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a'i defnyddio'n gymdeithasol yn benodol, ymhlith dysgwyr Cymraeg yn y fro yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Byddant yn cwrdd i drafod materion yn rhai o'r tafarndai ym Mro Morgannwg, ac mae ysbryd Iolo Morganwg i'w deimlo yno bron, yn ysu am gael gwneud cyfraniad. [*Chwerthin.*]

**Alun Pugh:** Un o'r pethau da y gallwn ei gasglu o ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf a thystiolaeth arall yw'r cynnydd yn y diddordeb yn y Gymraeg, o ran nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg a'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae stori gadarnhaol iawn i'w hadrodd yn y rhannau hynny o Gymru lle na fu llawer o siaradwyr Cymraeg yn y gorffennol.

**Jenny Randerson:** Yr oeddwn yn falch o weld yr arolwg ar ddefnyddio'r Gymraeg, a ddeilliodd yn uniongyrchol o 'Iaith Pawb'. Dangosodd gynnydd o 9 y cant bron yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghanol De Cymru, ond gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn mannau eraill. Fodd bynnag, dim ond 41 y cant o'r siaradwyr Cymraeg hynny sy'n rhugl, sy'n tanlinellu pwysigrwydd y system addysg Gymraeg. Felly, a ydych chi, fel finnau, yn pryderu am yr ymateb negyddol iawn a gafwyd i gynigion i roi hwb, datblygu ac ehangu'r system Gymraeg ffyniannus a phoblogaidd

such a gravely negative response during the consultation period, which included a strong and overtly anti-Welsh-language approach by some of the campaigners? Will you condemn that element of the campaign?

**Alun Pugh:** We want to see a positive response to the growing demand for Welsh-medium education in all parts of Wales—let us be clear about that. You also mentioned the issue of evidence, and I said earlier that it was very encouraging to see that growth in the overall census results, which reverses nearly a century of decline in the language. However, we have never had enough detailed evidence to properly inform language planning, and that is why, as part of the increased investment in the Welsh language, we have ploughed a considerable amount of resources into additional census information and the amassing of additional evidence, which will inform future policy development.

yng Nghaerdydd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys dull gwrth-Gymreig cryf ac amlwg gan rai o'r ymgyrchwyr? A wnewch chi gondemnio'r elfen honno yn yr ymgyrch?

**Alun Pugh:** Yr ydym am weld ymateb cadarnhaol i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg ym mhob rhan o Gymru—gadewch inni fod yn glir am hynny. Soniech hefyd am dystiolaeth, a dywedais yn gynharach ei bod yn galonogol iawn gweld y twf hwnnw yng nghanlyniadau cyffredinol y cyfrifiad, sy'n gwrthdroi bron i ganrif o ddirywiad yn yr iaith. Fodd bynnag, nid ydym erioed wedi cael digon o dystiolaeth fanwl i lywio'r broses o gynllunio iaith yn gywir, a dyna pam yr ydym, fel rhan o'r buddsoddi cynyddol yn y Gymraeg, wedi rhoi llawer iawn o adnoddau i gael gwybodaeth ychwanegol o'r cyfrifiad ac i gasglu tystiolaeth ychwanegol, a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisiau yn y dyfodol.

### **Gwella Mynediad at Ddrama a Cherddoriaeth Improving Access to Drama and Music**

**Q4 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on improving access to drama and music in Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ0796(CWS)

**Alun Pugh:** Almost £125,000 was spent by the Arts Council of Wales on projects in the Merthyr Tydfil and Rhymney areas in 2005-06, including £25,000 specifically aimed at developing music activities. A further £250,000 was given to Spectacle Theatre to develop drama projects in Merthyr Tydfil and the surrounding areas, but I accept that we need to do more.

**Huw Lewis:** Thank you, Minister; it is moving in the right direction. However, there can be no doubt that Merthyr is in dire need of a well-situated and sustainably funded arts venue that serves and engages with the local community. As regards the arts, Merthyr remains the dog that has not yet barked; it is a town ideally situated to serve the cultural needs of its own, and many other, communities, but, so far, it has been starved of the necessary investment and vision. Will the Minister join me in recognising the

**C4 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella'r mynediad i ddrama a cherddoriaeth ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ0796(CWS)

**Alun Pugh:** Gwariwyd bron i £125,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar brosiectau yn ardaloedd Merthyr Tudful a Rhymni yn 2005-06, gan gynnwys £25,000 a neilltuwyd yn benodol i ddatblygu gweithgareddau cerddoriaeth. Rhoddwyd £250,000 yn ychwanegol i Theatr Spectacle i ddatblygu prosiectau drama ym Merthyr Tudful a'r ardaloedd o amgylch, ond yr wyf yn derbyn bod angen inni wneud mwy.

**Huw Lewis:** Diolch, Weiniidog; yr ydym yn symud i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, yn ddiau mae angen dybryd ym Merthyr am leoliad celfyddydol mewn man da sy'n cael ei ariannu mewn ffordd gynaliadwy ac sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac yn ymgysylltu â hi. O ran y celfyddydau, nid yw Merthyr wedi bod mewn sefyllfa i ddangos ei photensial llawn; mae'r dref mewn man delfrydol i wasanaethu anghenion diwylliannol ei chymunedau ei hun, a llawer cymuned arall, ond hyd yma ni welwyd y

importance of a new arts venue for Merthyr Tydfil and the huge cultural and economic boost that it would give not only to Merthyr, but to the northern Valleys as a whole?

**Alun Pugh:** This is a matter that I raised in early meetings with Dai Smith, the interim chair of the Arts Council of Wales. You are right to say that it is not just a cultural imperative, important though that is. There are much wider concerns in terms of social inclusion and economic development.

**William Graham:** Do you agree that the money spent by the Arts Council of Wales in 2005—nearly £40,000 on seven projects in the borough to engage children in a wide range of musical activities—should be further encouraged?

**Alun Pugh:** Yes, and that is why the Assembly Government has consistently increased investment in culture in general, and in arts in particular.

buddsoddiad na'r weledigaeth angenrheidiol. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i gydnabod pwysigrwydd lleoliad celfyddydol newydd ar gyfer Merthyr Tudful a'r hwb diwylliannol ac economaidd enfawr y byddai lle o'r fath yn ei roi, nid yn unig i Ferthyr ond i'r Cymoedd gogleddol yn gyffredinol?

**Alun Pugh:** Codais y mater hwn mewn cyfarfodydd yn gynharach gyda Dai Smith, cadeirydd dros dro Cyngor Celfyddydau Cymru. Yr ydych yn gywir i ddweud nad y rheidrwydd diwylliannol yw'r unig beth i'w ystyried, er bod hwnnw'n bwysig. Mae pryderon llawer ehangach o ran cynhwysiant cymdeithasol a datblygu economaidd.

**William Graham:** A ydych yn cytuno o dylid rhoi anogaeth bellach i'r arian a wariwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2005—bron i £40,000 ar saith o brosiectau yn y fwrdeistref i gynnwys plant mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cerddorol?

**Alun Pugh:** Ydwyf, a dyna pam mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyson wedi cynyddu buddsoddiad mewn diwylliant yn gyffredinol, ac yn y celfyddydau'n benodol.

### **Adeiladau Hanesyddol Historical Buildings**

**C5 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd ein hadeiladau hanesyddol? OAQ0767(CWS)

**Alun Pugh:** Mae ein hadeiladau hanesyddol yn rhan bwysig o'n treftadaeth. Mae gennym 30,000 o adeiladau ar y rhestr statudol ar hyn o bryd. Mae treftadaeth yn cefnogi llawer o bethau, yn enwedig twristiaeth ac addysg.

**Owen John Thomas:** Fel yr ydych yn cydnabod, rhan bwysig o etifeddiaeth gyfoethog Cymru yw'r amgylchedd adeiledig. Mae ein cestyll, er enghraifft, yn adlewyrchu ein gwytnwch fel cenedl, ac mae gennym eglwysi, capeli, ac adeiladau diwydiannol, tai mawr y boneddigion a bythynnod y werin, sydd i gyd yn bwysig wrth greu delwedd gadarnhaol ac atyniadol o Gymru. Mae'n drueni nad yw Cadw yn fodlon cydnabod pwysigrwydd llawer o adeiladau o bwysigrwydd lleol oni bai bod ganddynt arwyddocâd cenedlaethol hefyd. Pa

**Q5 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on the importance of our historic buildings? OAQ0767(CWS)

**Alun Pugh:** Our historic buildings are an important part of our heritage. We have 30,000 buildings on the statutory list at present. Heritage supports many things, especially tourism and education.

**Owen John Thomas:** As you have acknowledged, an important part of Wales's rich heritage is our built environment. Our castles, for example, are testimony to our resilience as a nation, and we have churches, chapels and industrial buildings, the great houses of the gentry and the cottages of ordinary people, which are all important in creating a positive and attractive image of Wales. It is disappointing that Cadw is not prepared to acknowledge the importance of many buildings of local importance unless they are also of national significance. What

gamau yr ydych yn eu cymryd i newid y meini prawf a ddefnyddir gan Cadw fel y gallwn warchod a hyrwyddo adeiladau sydd yn drysorau lleol?

**Alun Pugh:** I am not sure that the Edwardian castles stand as a monument to our strength as a nation. You know that listing matters are covered by the law. There will be a major review in terms of heritage protection in the autumn, which will be a joint review conducted by us and colleagues in the Department for Culture Media and Sport. There will be an opportunity for consultation at that time and I know that you will have much to say on it.

**Owen John Thomas:** Bob tro y caiff adeilad o arwyddocâd lleol ei ddymchwel, mae'r gymuned, a Chymru gyfan, yn colli rhan o'i hetifeddiaeth ac o'i photensial economaidd i ddenu buddsoddiad. Er enghraifft, nid oes un o'r 100 o lanfeydd glo Caerdydd ar ôl i goffâu statws y porthladd fel prif borthladd glo'r byd. A fydddech yn fodlon annog awdurdodau lleol i wneud arolwg o'u hadeiladau arwyddocaol fel y gallwn warchod i'r dyfodol eu hetifeddiaeth gyfoethog?

**Alun Pugh:** I am not sure that you are right to say that there is nothing left of importance in terms of Cardiff's maritime history. As I said, we have some 30,000 listed buildings, which are listed against statutory criteria. It is down in the law. There will also be this review in the autumn, and I have every intention of taking that through to legislation in due course.

**Lisa Francis:** The emerging culture strategy and the environment strategy that landed on our desks today offer unique opportunities to seize the day and develop ambitious outcomes for Wales's unique heritage, a large part of which is made up of our historic buildings. Is it not high time that we had an annual state of the historic environment report, including an audit of the built historic environment?

**Alun Pugh:** It is fair to say that Wales is particularly rich in terms of its built

steps are you taking to change the criteria used by Cadw so that we can safeguard and promote buildings that are local treasures?

**Alun Pugh:** Nid wyf yn siŵr a yw'r cestyll Edwardaidd yn dangos ein cryfder fel cenedl. Gwyddoch fod materion sy'n ymwneud â rhestru yn cael eu cynnwys gan y gyfraith. Bydd adolygiad mawr o'r broses o ddiogelu treftadaeth yn yr hydref, a fydd yn adolygiad ar y cyd a arweinir gennym ni a chydweithwyr yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd cyfle i ymgynghori bryd hynny, a gwn y bydd gennych lawer i'w ddweud ar y mater.

**Owen John Thomas:** Every time a building of local significance is demolished, the community, and Wales as a whole, loses part of its heritage and its economic potential to attract investment. For example, not one of the 100 coal jetties in Cardiff remains to acknowledge the status of the port as the world's main coal-exporting port. Would you be prepared to encourage local authorities to conduct a survey of their buildings of importance so that we can safeguard their rich heritage for the future?

**Alun Pugh:** Nid wyf yn siŵr a ydych yn gywir i ddweud nad oes dim byd o bwys ar ôl o ran hanes morol Caerdydd. Fel y dywedais, mae gennym tua 30,000 o adeiladau rhestredig, a restrir yn erbyn meini prawf statudol. Mae hynny wedi'i nodi yn y gyfraith. Gwneir yr adolygiad hwnnw hefyd yn yr hydref, ac yr wyf yn llawn fwriadu sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei llunio yn sgîl hynny maes o law.

**Lisa Francis:** Mae'r strategaeth ddiwylliant a'r strategaeth amgylcheddol ddiweddaraf a laniodd ar ein desgiau heddiw yn gyfleoedd unigryw i fanteisio i'r eithaf a datblygu canlyniadau uchelgeisiol ar gyfer treftadaeth unigryw Cymru y mae ein hadeiladau hanesyddol yn rhan fawr ohoni. Onid yw'n bryd inni gael adroddiad blynyddol ar gyflwr yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys archwiliad o'r amgylchedd hanesyddol adeiledig?

**Alun Pugh:** Mae'n deg dweud bod Cymru yn gyfoethog iawn yn ei hamgylchedd



environment. We think in terms of Edwardian castles but, turning one's eyes to the south of the nation, Blaenavon ironworks has rightly been regarded as a world heritage site. In terms of an annual report, Cadw has produced such reports for many years.

**Lisa Francis:** That is not quite the same thing as what I am asking for. An annual state of the historic environment report has been produced by English Heritage for the past five years. The report provides an account of current trends that affect the historic environment, including buildings, and the threats and challenges faced by those who are charged with running all of that in a sustainable way. Are you saying that Wales does not deserve the same thing?

**Alun Pugh:** No. I am saying that I am not sure that we should simply ape the practice of English quangos. I certainly believe that the protection of the historic environment is rightly an important statutory obligation for the Assembly.

adeiledig. Yr ydym yn dueddol o feddwl am gestyll Edwardaidd, ond os trown ein sylw at y de, mae gwaith haearn Blaenafon wedi'i ystyried, ac yn haeddiannol felly, yn safle treftadaeth y byd. O ran adroddiad blynyddol, mae Cadw wedi cynhyrchu adroddiadau o'r fath ers blynyddoedd lawer.

**Lisa Francis:** Nid yw hynny'n union yr un fath â'r hyn yr wyf yn gofyn amdano. Mae adroddiad blynyddol ar gyflwr yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynhyrchu gan English Heritage dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfrif o dueddiadau presennol sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys adeiladau, a'r bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu'r rheini sy'n gyfrifol am redeg hynny i gyd mewn ffordd gynaliadwy. A ydych yn dweud nad yw Cymru yn haeddu'r un peth?

**Alun Pugh:** Na. Dweud yr wyf nad wyf yn siŵr a ddylem ddilyn arferion cwangos yn Lloegr. Yr wyf yn bendant o'r farn fod gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, yn haeddiannol, yn rhwymedigaeth statudol bwysig i'r Cynulliad.

### Saethyddiaeth Maes Field Archery

**Q6 Leighton Andrews:** What is the Minister doing to encourage field archery in Wales? OAQ0798(CWS)

**Alun Pugh:** Support for archery in Wales is provided through the Sports Council for Wales, in consultation with the governing bodies of the sport. In the case of field archery, this involves the Welsh Field Archery Association.

3.10 p.m.

**Leighton Andrews:** As you are aware, the 2008 World Field Archery Championships are scheduled to be held in the Rhondda. The Pentref Bowmen have been in discussion with your department regarding support for this event. This will be a major opportunity to promote not only field archery, but the Rhondda, globally. I encourage you and your officials to support this event, as I am sure Rhondda Cynon Taf County Borough Council will be doing.

**C6 Leighton Andrews:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu saethyddiaeth maes yng Nghymru? OAQ0798(CWS)

**Alun Pugh:** Mae saethyddiaeth yng Nghymru yn cael cefnogaeth drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, drwy ymgynghori â'r cyrff llywodraethu saethyddiaeth. O ran saethyddiaeth maes, mae Cymdeithas Saethyddiaeth Maes Cymru yn gysylltiedig.

**Leighton Andrews:** Fel y gwyddoch, cynhelir Pencampwriaethau Saethyddiaeth Maes y Byd 2008 yn Rhondda. Mae Saethwyr Pentref wedi cael trafodaethau gyda'ch adran i gael cymorth ar gyfer y digwyddiad hwn. Bydd hwn yn gyfle mawr, nid yn unig i hyrwyddo saethyddiaeth maes ond hefyd Rhondda ei hun, ar draws y byd. Hoffwn eich annog chi a'ch swyddogion i gefnogi'r digwyddiad hwn, fel yr wyf yn siŵr y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda

Cynon Taf yn ei wneud.

**Alun Pugh:** We support the event coming to the Rhondda. In terms of direct financial assistance, that will have to be evaluated against our criteria for supporting major events. It is true to say that this will generate additional bed nights in areas such as the Rhondda, which is good to see. We will have a further meeting. I understand that Jean Howells, the chair of the organising committee, met my officials earlier this week. We would want to take this on and we would take a supportive approach to negotiations.

**Alun Pugh:** Yr ydym yn cefnogi'r ffaith ffod y digwyddiad i gael ei gynnal yn Rhondda. O ran cymorth ariannol uniongyrchol, bydd yn rhaid pwysu a mesur hynny yn erbyn ein meini prawf ar gyfer cefnogi digwyddiadau mawr. Mae'n wir dweud y bydd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn aros mewn ardaloedd fel Rhondda, sy'n beth da i'w weld. Byddwn yn cael cyfarfod pellach. Deallaf fod Jean Howells, cadeirydd y pwyllgor trefnu, wedi cyfarfod â'm swyddogion yn gynharach yn yr wythnos. Byddem am fod yn rhan o hyn, a byddai gennym agwedd gefnogol at drafodaethau.

**Alun Cairns:** The Welsh Conservative Party is keen to support the World Field Archery Championships in the Rhondda, as we do all field sports, because they have an important part to play. Following the ban on hunting, will the Minister pledge his support for game shooting, which is another important field sport? Many of those participating in game shooting—

**Alun Cairns:** Mae'r Blaid Geidwadol yng Nghymru yn awyddus i gefnogi Pencampwriaethau Saethyddiaeth Maes y Byd yn Rhondda, fel y gwnawn gydag unrhyw chwaraeon maes, oherwydd bod iddynt ran bwysig i'w chwarae. Yn dilyn y gwaharddiad ar hela, a wnaiff y Gweinidog addo cefnogi saethu gêm, sydd hefyd yn bwysig fel chwaraeon maes? Mae nifer o'r rheini sy'n cymryd rhan mewn saethu gêm-

**The Presiding Officer:** Order. I do not think that your question is in order. I stand to be corrected by some of my hunting friends, but I do not believe that archery is used to shoot game in Wales any more.

**Y Llywydd:** Trefn. Ni chredaf fod eich cwestiwn yn berthnasol. Efallai y caf fy nghywiro gan rai o'm cyfeillion sy'n hela, ond ni chredaf fod saethyddiaeth yn cael ei defnyddio i saethu gêm yng Nghymru mwyach.

**Alun Cairns:** With the greatest of respect, Presiding Officer, my question relates to field sports in general. I hope that the Minister would share my support of other field sports, such as shooting.

**Alun Cairns:** Gyda'r parch mwyaf, Lywydd, mae a wnelo fy nghwestiwn â chwaraeon maes yn gyffredinol. Gobeithio y byddai'r Gweinidog yn rhannu fy nghefnogaeth i chwaraeon maes eraill, fel saethu.

**The Presiding Officer:** Order. The question refers specifically to field archery. Therefore, I stand by my ruling. It is not about general field sports, unless any Member can urgently show me that bows and arrows are still used in the pursuit of field sports.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at saethyddiaeth maes. Felly, yr wyf yn cadw at fy nyfarniad. Nid yw'n ymwneud â chwaraeon maes yn gyffredinol, oni all unrhyw Aelod ddangos imi yn awr bod bwâu a saethau yn cael eu defnyddio ym myd chwaraeon maes o hyd.

**Alun Pugh:** It is good to see the Conservatives supporting the principles of Robin Hood.

**Alun Pugh:** Mae'n dda gweld y Ceidwadwyr yn cefnogi egwyddorion Robin Hood.

**Cynllun Chwaraeon y Ddraig  
Dragon Sport Initiative**

**Q7 John Griffiths:** Will the Minister provide an update on the Dragon Sport initiative? OAQ0784(CWS)

**Alun Pugh:** A total of 96 per cent of our primary and junior schools and nearly 103,000 children have taken part in Dragon Sport activities in the last year. It is good to see that more than 700 sports clubs are running Dragon Sport activities and that more than 5,000 volunteers are involved in this programme.

**John Griffiths:** The success of this scheme relies on engaging volunteers and commitment at a local level. In that context, would you join me in congratulating Newport, which saw 4,000 children take part in sessions in the past year alone? This has been primarily assisted by the University of Wales, Newport athletics club and the Newport Gwent Dragons, which have an impressive outreach programme for schools in the area.

**Alun Pugh:** It is fair to say that the Dragon Sport programme has been successful across Wales. Newport has been particularly successful because every eligible school in the city is engaged in the programme. When we roll it out to secondary schools later this year, I am sure that it will get an equally enthusiastic response.

**Glyn Davies:** I am a great supporter of Dragon Sport and what it has achieved. It is wonderful for young children in Wales. An important aspect of the programme is the ability to play on playing fields and green spaces in schools in Wales. Will you improve the record keeping in terms of the way in which playing fields are being used? I have tried to find out the extent to which we are losing playing fields in Wales, but the information is unavailable.

**Alun Pugh:** We get the occasional problem

**C7 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Chwaraeon y Ddraig? OAQ0784(CWS)

**Alun Pugh:** Mae 96 y cant o'n hysgolion cynradd a'n hysgolion iau a bron i 103,000 o blant wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Chwaraeon y Ddraig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n dda gweld bod dros 700 o glybiau chwaraeon yn cynnal gweithgareddau Chwaraeon y Ddraig a bod dros 5,000 o wirfoddolwyr yn gysylltiedig â'r rhaglen hon.

**John Griffiths:** Mae llwyddiant y cynllun hwn yn dibynnu ar ymgysylltu â gwirfoddolwyr a sicrhau ymrwymiad ar lefel leol. Yn y cyd-destun hwnnw, a ymunwch â mi i longyfarch Casnewydd, lle mae 4,000 o blant wedi cymryd rhan mewn sesiynau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig? Cafwyd cymorth yn y lle cyntaf gan glwb athletau Prifysgol Cymru, Casnewydd a Dreigiau Casnewydd Gwent, sydd â rhaglen allgymorth nodedig ar gyfer ysgolion yn yr ardal.

**Alun Pugh:** Mae'n deg dweud bod rhaglen Chwaraeon y Ddraig wedi bod yn llwyddiannus ledled Cymru. Bu Casnewydd yn arbennig o lwyddiannus oherwydd bod pob ysgol gymwys yn y ddinas wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Pan fyddwn yn cyflwyno'r rhaglen i ysgolion uwchradd yn ddiweddarach eleni, yr wyf yn siŵr y bydd yr ymateb lawn mor frwdfrydig.

**Glyn Davies:** Yr wyf yn gefnogwr brwd i raglen Chwaraeon y Ddraig a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Mae'n rhaglen ragorol ar gyfer plant ifanc yng Nghymru. Un o agweddau pwysig y rhaglen yw'r gallu i chwarae ar feysydd chwarae a manau gwyrdd mewn ysgolion yng Nghymru. A wnewch chi wella'r broses o gadw cofnodion am y ffordd y caiff meysydd chwarae eu defnyddio? Yr wyf wedi ceisio dod o hyd i wybodaeth am y graddau yr ydym yn colli meysydd chwarae yng Nghymru, ond nid yw'r wybodaeth ar gael.

**Alun Pugh:** Byddwn yn cael ambell problem

with the disposal of school playing fields, but it is not a systematic problem across Wales. We do not have the problems here that they have, for example, in south-east England, where there are intensive development pressures and land values are sky high. Therefore, there is a systematic problem there. I am pleased to say that we do not have those problems in Wales, but we occasionally have problems with specific sites. In those circumstances, we take advice from the Sports Council for Wales.

gwerthu meysydd chwarae ysgolion, ond nid yw'n broblem systematig ledled Cymru. Nid ydym yn gweld yr un problemau yma ag a welir, er enghraifft, yn ne-ddwyrain Lloegr, lle mae pwysau mawr i ddatblygu tir a gwerthoedd tir yn aruthrol o uchel. Felly, mae problem systematig yno. Mae'n bleser gennyf ddweud nad oes gennym y problemau hynny yng Nghymru, ond weithiau byddwn yn wynebu problemau gyda safleoedd penodol. Bryd hynny, byddwn yn ceisio cyngor gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

### **CyMAL—Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru** **CyMAL—Museums, Archives and Libraries Wales**

**Q8 Rosemary Butler:** Will the Minister provide a progress report on CyMAL? OAQ0763(CWS)

**C8 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am CyMAL? OAQ0763(CWS)

**Alun Pugh:** Since its establishment in April 2004, CyMAL has made excellent progress in the establishment of advice and support services for local museums, archives and libraries. This activity is underpinned by new grant schemes totalling more than £1.8 million a year, which will ensure that more people benefit from these public services.

**Alun Pugh:** Ers ei sefydlu yn Ebrill 2004, mae CyMAL wedi gwneud cynnydd ardderchog wrth sefydlu gwasanaethau cyngor a chymorth i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol. Ategir y gweithgarwch hwn gan gynlluniau grant newydd gwerth dros £1.8 miliwn y flwyddyn, a fydd yn sicrhau y gall mwy o bobl gael budd o'r gwasanaethau cyhoeddus hyn.

**Rosemary Butler:** Thank you for that response, Minister. The recent award by CyMAL of £8,256 to Newport Museum and Art Gallery for the display of artefacts from the Newport medieval ship was very well received. That was on top of the £3 million that has already been committed by the Welsh Assembly Government for the conservation and eventual display of the ship, which is of international archaeological importance.

**Rosemary Butler:** Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Cafwyd croeso cynnes i'r swm o £8,256 a roddwyd yn ddiweddar gan CyMAL i Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd i arddangos arteffactau o long ganoloesol Casnewydd. Yr oedd hynny'n ychwanegol at y £3 miliwn a ymrwymwyd eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddiogelu'r llong, sydd o bwysigrwydd archeolegol rhyngwladol, a'i harddangos yn y pen draw.

In the words of Jennifer Stuart, the heritage lottery fund's manager for Wales, museums are evolving, and the more interactive, innovative and high tech they are, the more chance they have of survival. Have you any plans for CyMAL to develop a funding stream specifically for the development of high-tech and innovative projects for the display of our national heritage across Wales?

Yng ngeiriau Jennifer Stewart, rheolwraig cronfa dreftadaeth y loteri i Gymru, mae amgueddfeydd yn esblygu, a pho fwyaf rhyngweithiol, arloesol a thechnolegol ydynt, mwyaf oll yw eu gobaidh o barhau. A oes gennych unrhyw gynlluniau i CyMAL ddatblygu llyfr arian yn benodol ar gyfer datblygu prosiectau arloesol sy'n defnyddio uwch dechnoleg i arddangos ein treftadaeth genedlaethol ledled Cymru?

**Alun Pugh:** You are certainly right in saying that CyMAL's grant schemes, both large and

**Alun Pugh:** Yn sicr, yr ydych yn llygad eich lle i ddweud bod cynlluniau grant CyMAL,

small, are making a real difference in Wales. We have no intention of introducing a long-term revenue support grant scheme, because some of those local museums and archives are run by voluntary organisations, and some by local authorities. We are not in the business of supplying core funding, but, for the activities that you are talking about, such as the development work and innovative new projects, there will certainly be continued access to funding.

**Eleanor Burnham:** Despite the fact that certain public libraries are performing extremely well—and I have to commend Wrexham Library, which is an excellent library—I understand that only nine authorities achieved the standard in March 2005. What measures are you taking to ensure that all local authority public libraries achieve your 2005-08 targets?

**Alun Pugh:** You are right to say that there is a lack of consistency across different public library authorities in Wales. You mentioned Wrexham, and I would certainly agree that it is doing some very good work. In fact, it has been commissioned to do some additional work on marketing for the library sector across Wales. John Griffiths also pointed out last week that Newport is doing well. It is fair to say that there is a lack of consistency, but, overall, the analysis of the public library standards shows that they are driving up standards, and it is also heartening to see a growth in expenditure on library books and, best of all, a 14 per cent increase in visitor numbers.

waeth beth fo'u maint, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yng Nghymru. Nid oes gennym fwriad i gyflwyno cynllun grant cynnal refeniw hirdymor, gan fod rhai o'r amgueddfeydd a'r archifau lleol hynny'n cael eu rhedeg gan sefydliadau gwirfoddol, a rhai gan awdurdodau lleol. Nid ydym yn gyfrifol am ddarparu cyllid craidd, ond ar gyfer y gweithgareddau a grybwyllwyd gennych, megis y gwaith datblygu a phrosiectau arloesol newydd, yn sicr bydd arian ar gael iddynt o hyd.

**Eleanor Burnham:** Er bod rhai llyfrgelloedd cyhoeddus yn perfformio'n eithriadol o dda—ac mae'n rhaid imi ganmol Llyfrgell Wrecsam, sy'n llyfrgell ardderchog—deallaf mai naw awdurdod yn unig a gyrhaeddodd y safon ym mis Mawrth 2005. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau y bydd llyfrgelloedd cyhoeddus pob awdurdod lleol yn cyrraedd eich targedau ar gyfer 2005-08?

**Alun Pugh:** Yr ydych yn llygad eich lle yn dweud bod diffyg cysondeb ar draws gwahanol awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Yr oedech yn sôn am Wrecsam, ac yn sicr byddwn yn cytuno ei bod yn gwneud gwaith da iawn. Yn wir, fe'i comisiynwyd i wneud rhywfaint o waith ychwanegol ar farchnata ar gyfer y sector llyfrgelloedd ledled Cymru. Eglurodd John Griffiths hefyd yr wythnos diwethaf fod Casnewydd yn gwneud yn dda. Mae'n deg dweud bod diffyg cysondeb, ond ar y cyfan dengys y dadansoddiad o safonau llyfrgelloedd cyhoeddus eu bod yn codi eu safonau. Mae hefyd yn galonogol gweld twf yn y gwariant ar lyfrau llyfrgell, ac yn well na hynny, cynnydd o 14 y cant yn nifer yr ymwelwyr.

### **Digwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghaerdydd Hosting Major Sporting Events in Cardiff**

**Q9 Jonathan Morgan:** What assessment has the Minister made of the impact upon Cardiff and south Wales of hosting major sporting events as a result of the helpful delays to the new Wembley stadium? OAQ0799(CWS)

**Alun Pugh:** As a consequence of the delays in construction at Wembley stadium, the Millennium Stadium hosted the FA Cup final

**C9 Jonathan Morgan:** Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr ar Gaerdydd a de Cymru o ganlyniad i'r oedi gyda stadiwm newydd Wembley? OAQ0799(CWS)

**Alun Pugh:** O ganlyniad i'r oedi wrth adeiladu stadiwm Wembley, cynhaliwyd rownd derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y

last weekend—a terrific match—and will be staging the Football League play-offs and the FA Community Shield. Each of these events will bring a significant number of visitors to south Wales, boosting the local economy, and, hopefully, boosting Swansea City Football Club too.

**Jonathan Morgan:** Thank you, Minister, for that reply. While I accept that there are huge benefits to the capital city, particularly for our businesses, the promotion of tourism, and the further recognition of Cardiff as a vibrant capital city capable of hosting such events, there are additional costs that have to be borne, particularly by the local authority. What assistance is provided to Cardiff to help it to cope with its responsibility as the capital city?

**Alun Pugh:** Part of the difficulties of being a capital city is that you get more than your fair share of these highlight events. Events such as the FA Cup final have been a terrific advert for Cardiff and for Wales. The extra cost pressure is part of the general rate support grant that the local authority receives.

Mileniwm y penwythnos diwethaf—gêm ardderchog—a chynhelir gemau terfynol y Cynghair Pêl-droed a Tharian Gymunedol yr FA yno hefyd. Daw pob un o'r digwyddiadau hyn â nifer sylweddol o ymwelwyr i dde Cymru, gan hybu'r economi leol, a hybu Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe hefyd, gobeithio.

**Jonathan Morgan:** Diolch, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Er fy mod yn derbyn bod buddiannau enfawr i'r brifddinas, yn arbennig o ran ein busnesau, hyrwyddo twristiaeth, ac ennill cydnabyddiaeth bellach i Gaerdydd fel prifddinas lewyrchus a all gynnal digwyddiadau o'r fath, mae yna gostau ychwanegol hefyd, yn arbennig i'r awdurdod lleol. Pa gymorth a roddir i Gaerdydd i'w helpu i ddelio â'i chyfrifoldeb fel y brifddinas?

**Alun Pugh:** Rhan o'r anawsterau o fod yn brifddinas yw'r ffaith y cewch fwy na'ch cyfran deg o'r digwyddiadau blaenllaw hyn. Yr oedd digwyddiadau fel rownd derfynol Cwpan yr FA yn hysbyseb ardderchog i Gaerdydd ac i Gymru. Mae pwysau'r costau ychwanegol yn rhan o'r grant cynnal trethi cyffredinol a roddir i'r awdurdod lleol.

### Hyrwyddo Chwaraeon Promoting Sport

**Q10 Irene James:** What action is the Minister taking to promote sport in Wales? OAQ0778(CWS)

**Alun Pugh:** Our 'Climbing Higher' strategy is placing sport and physical activity at the heart of Welsh life and Government. Working with our Sports Council for Wales, a fully integrated 'Climbing Higher' action plan will be launched shortly, allowing us to promote the delivery of the very ambitious targets that we have set ourselves.

**C10 Irene James:** Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru? OAQ0778(CWS)

**Alun Pugh:** Mae ein strategaeth 'Dringo'n Uwch' yn golygu bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol wrth wraidd bywyd a Llywodraeth yng Nghymru. Gan weithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru, caiff cynllun gweithredu 'Dringo'n Uwch' cwbl integredig ei lansio'n fuan, a fydd yn caniatáu inni hyrwyddo darparu'r targedau'r uchelgeisiol iawn yr ydym wedi eu gosod inni ein hunain.

3.20 p.m.

**Irene James:** Thank you for that response, Minister. Will you join me in commending the Abercarn Bowls Club, which has successfully bid for a grant of over £15,000 to provide a new women's changing room

**Irene James:** Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. A ymunwch â mi i gymeradwyo Clwb Bowls Aber-carn, sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am grant o dros £15,000 i ddarparu ystafell newid

and to provide greater access and participation among local women? Do you agree that bowling, as a sport for everyone of all ages, is an excellent activity that promotes better health for all the community?

**Alun Pugh:** Yes. Such grants make a huge difference for the better in communities. As well as contributing towards health gain, the sport improves the social lives of the people who take part in it.

newydd i fenywod, ac i sicrhau gwell mynediad a chyfranogiad ymhlith menywod lleol? A gytunwch fod bowlio, fel chwaraeon i bawb o bob oed, yn weithgaredd ardderchog sy'n hyrwyddo gwell iechyd i'r gymuned gyfan?

**Alun Pugh:** Cytunaf. Mae grantiau o'r fath yn gwneud gwahaniaeth mawr er gwell mewn cymunedau. Yn ogystal â chyfrannu at wella iechyd, mae'r gweithgaredd yn gwella bywydau cymdeithasol y bobl sy'n cymryd rhan.

## **Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ Questions to the House Committee**

### **Datblygiadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Information and Communications Technology Developments**

**Q1 Alun Cairns:** Will the representative of the House Committee make a statement on the latest information and communications technology developments for Assembly Members? OAQ0010(HC)

**The Deputy Presiding Officer (John Marek):** ICT developments for Assembly Members in the coming months will include enhancing the capability of the broadband facility. The work has three aspects. The first is an increase in the network capacity providing up to 8MB broadband, although the exact bandwidth will depend on an individual's ability to take that much. The second is the provision of a second broadband connection for every Member, enabling Members to have a broadband connection in their home or anywhere else of their choice. The third is broadband access for Members' laptops through a virtual private network, which will enable Members to use laptops at most locations where broadband connections are available.

**Alun Cairns:** I am grateful to the Member for his response. Will he agree that we have made significant progress over the past 12 to 18 months in upgrading services for Members in general and for Assembly Parliamentary Service staff? Although many of the transformation changes have been quite difficult to achieve, in relation to Merlin and its support in this respect, in view

**C1 Alun Cairns:** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Tŷ ddatganiad am y datblygiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu diweddaraf ar gyfer Aelodau'r Cynulliad? OAQ0010(HC)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Bydd datblygiadau TGCh ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ystod y misoedd nesaf yn cynnwys gwella grym y cyfleuster band eang. Mae tair agwedd ar y gwaith. Mae'r agwedd gyntaf yn cynnwys cynyddu capasiti'r rhwydwaith gan ddarparu band eang hyd at 8MB, er y bydd union led y band yn dibynnu ar allu unigolyn i gymryd cymaint â hynny. Mae a wnelo'r ail â darparu ail gyswllt band eang i bob Aelod, gan alluogi Aelodau i sefydlu cyswllt band eang yn eu cartrefi neu rywle arall o'u dewis. Bydd y drydedd yn rhoi mynediad band eang i gliniaduron Aelodau drwy rwydwaith preifat rhithwir, a fydd yn galluogi Aelodau i ddefnyddio gliniaduron yn y rhan fwyaf o fannau lle mae cysylltiadau band eang ar gael.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei ymateb. A yw'n cytuno ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf yn uwchraddio gwasanaethau i Aelodau yn gyffredinol, ac i staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad? Er bod llawer o'r newidiadau trawsffurfio wedi bod yn ddigon anodd eu cyflawni, o ran Merlin a'r cymorth cysylltiedig yn y cyd-

of the fact that the IT sub-committee of the House Committee is now reviewing all wider services in relation to IT, including the Senedd, individual services and support, among others, does he agree that Merlin needs to listen to calls from Assembly Members to answer their needs, particularly bearing in mind that the Merlin contract is the largest contract ever commissioned by the Welsh Assembly Government?

**The Deputy Presiding Officer:** There have been a number of ongoing ICT issues, with which the ICT sub-group of the House Committee has been dealing. My understanding is that many, but not all, of these issues have now been resolved. Merlin does work under contract to the National Assembly for Wales and is obliged to respond to the needs of Members as and when requested. The schedules, which are currently being developed within the overall Merlin contracts, will provide Members with services specifically designed to meet their requirements. I will take on board what you have said, Alun, and I will ensure that Merlin is made well aware of the need to service Members as quickly and as efficiently as possible.

**Elin Jones:** Ar hyn o bryd, y cyfarwyddyd a roddir i Aelodau a staff yw i logio oddi ar ein cyfrifiaduron bob nos yn hytrach na'u diffodd, sydd yn defnyddio ynni sylweddol ac yn wastraff. A gytunwch ei bod yn dda ein bod wedi cael cadarnhad y bore yma, yng nghyfarfod y pwyllgor technoleg gwybodaeth, ei bod yn bosibl inni ddiffodd ein cyfrifiaduron bob nos? A wnewch chi sicrhau bod Aelodau a staff y Cynulliad yn cael cyfarwyddyd i ddiffodd eu cyfrifiaduron bob nos fel ein bod yn arbed ynni?

**The Deputy Presiding Officer:** Yes, I agree with you completely, Elin. I certainly switch off the monitor, because I can do that by pressing the switch on the right-hand side when I finish in the afternoon. It may well be that all Members' equipment here can be switched off centrally, perhaps 15 minutes or so after the end of the session, or when Members have stopped working—I do not know. However, I will investigate it and make sure that a decision is made so that the

destun hwn, o gofio fod is-bwyllgor TG Pwyllgor y Tŷ bellach yn adolygu'r holl wasanaethau ehangach mewn perthynas â TG, gan gynnwys y Senedd, gwasanaethau unigol a chymorth, ymhlith eraill, a yw'n cytuno bod angen i Merlin wrando ar geisiadau gan Aelodau'r Cynulliad i ddiwallu eu hanghenion, yn arbennig o gofio mai contract Merlin yw'r contract mwyaf a gomisiynwyd erioed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru?

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae yna nifer o faterion TG parhaus wedi bod, ac mae is-grŵp TGCh Pwyllgor y Tŷ wedi bod yn ymdrin â hwy. Yr wyf ar ddeall fod nifer o'r materion hyn, er nad pob un, bellach wedi'u datrys. Mae Merlin yn gweithio o dan contract i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae rhwymedigaeth arno i ymateb i anghenion Aelodau yn ôl y galw. Bydd yr amserlenni, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd o fewn contractau cyffredinol Merlin, yn darparu gwasanaethau i'r Aelodau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fodloni eu gofynion. Ystyriaf yr hyn a ddywedwyd gennych, Alun, ac fe sicrhaf y caiff Merlin wybod yn glir fod angen gwasanaethu Aelodau mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl.

**Elin Jones:** At present, the advice given to Members and to staff is to log off our computers each night rather than switch them off, which uses a considerable amount of energy and is a waste. Do you agree that it was good to hear confirmation at the IT sub-committee meeting this morning that it is acceptable for us to switch off our computers at night? Will you ensure that Members and Assembly staff are given guidance to switch off their computers at night so that we can save energy?

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwnaf, cytunaf yn llwyr â chi, Elin. Yr wyf yn sicr yn diffodd y monitor, oherwydd gallaf wneud hynny drwy bwyso'r botwm ar yr ochr dde pan fyddaf yn gorffen yn y prynhawn. Mae'n ddigon posibl y gellir diffodd offer pob Aelod yma'n ganolog, efallai tua 15 munud ar ôl diwedd y sesiwn, neu pan fydd Aelodau wedi rhoi'r gorau i weithio—ni wn. Fodd bynnag, fe ymchwiliaf i hynny gan sicrhau gwneud penderfyniad a fydd yn rhoi blaenoriaeth i



conservation of energy remains at the forefront, if at all possible. arbed ynni, os yw'n bosibl o gwbl.

### **Adeilad Newydd y Cynulliad The New Assembly Building**

**Q2 Rosemary Butler:** How many people have visited the new Assembly building? OAQ0011(HC)

**C2 Rosemary Butler:** Faint o bobl sydd wedi ymweld ag adeilad newydd y Cynulliad? OAQ0011(HC)

**The Deputy Presiding Officer:** The Senedd opened to the public on Tuesday, 7 February 2006. From that time until Sunday, 14 May 2006, 127,215 people have visited the Senedd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Agorodd y Senedd i'r cyhoedd ddydd Mawrth, 7 Chwefror 2006. O'r adeg honno tan ddydd Sul, 14 Mai 2006, yr oedd 127,215 o bobl wedi ymweld â'r Senedd.

**Rosemary Butler:** That is a sensational number. I am sure that we would all agree that the building is an architectural gem. I have a lot of visitors who find looking up at the ceiling breathtaking. It is marvellous. However, I do not think that enough is being made of the Senedd's green credentials. Although you have a new brochure out, 'Explore the Senedd', I note that there is only a small paragraph about green issues and the technology that we have installed in the building. There is just a small mention of what is happening with the cowl and the stale air, and a small mention of the geothermal coils and the heating. Is there any chance of our developing a DVD or a video that could be run on a loop so that when people come to visit, particularly on the weekend, they can look at the building and sit and watch a video or a DVD? I am sure that that would make life much more enjoyable for people visiting the Assembly.

**Rosemary Butler:** Mae hynny'n nifer rhyfeddol. Yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod yr adeilad yn em bensaernïol. Mae nifer o ymwelwyr yn rhyfeddu wrth syllu i fyny ar y nenfwd. Mae'n odidog. Fodd bynnag, ni chredaf bod digon o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i nodweddion gwyrdd y Senedd. Er ichi gyhoeddi llyfryn newydd, 'Crwydro'r Senedd', sylwaf mai paragraff byr yn unig sydd am faterion gwyrdd a'r dechnoleg yr ydym wedi'i gosod yn yr adeilad. Prin yw'r sôn am yr hyn sy'n digwydd gyda'r cwfl a'r hen aer, a phrin yw'r sôn am y coiliau geothermol a'r gwres. A oes unrhyw obaith y gallem ddatblygu DVD neu fideo y gellid ei ddarlledu'n barhaus, fel y gall pobl a ddaw i ymweld â'r lle, yn arbennig ar benwythnosau, edrych ar yr adeilad ac eistedd a gwyllo fideo neu DVD? Yr wyf yn siŵr y byddai hynny'n gwneud bywyd lawer yn fwy pleserus i'r bobl a fydd yn ymweld â'r Cynulliad.

**The Deputy Presiding Officer:** The production of a DVD, or at least information for Members, was considered by the House Committee about 18 months to two years ago, but it was postponed at that time because of the construction of this building. Your suggestion is a good one, and we now need to revisit that. There is a House Committee meeting tomorrow, and I shall ensure that it is on the agenda for consideration.

**Y Dirprwy Lywydd:** Ystyriodd Pwyllgor y Tŷ a ellid cynhyrchu DVD, neu o leiaf wybodaeth i Aelodau, tua 18 mis neu ddwy flynedd yn ôl, ond fe'i gohiriwyd bryd hynny oherwydd y gwaith o godi'r adeilad hwn. Mae eich awgrym yn un da, ac mae'n bryd yn awr inni ailystyried hynny. Bydd cyfarfod o Bwyllgor y Tŷ yfory, ac fe sicrhaf y caiff y mater ei gynnwys ar yr agenda i'w ystyried.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** I believe that all Members will share the joy of our now being the attraction with the second highest visitor figures in Wales after the

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Credaf y bydd pob Aelod yn rhannu'r llawenydd mai ni erbyn hyn yw'r atyniad sy'n denu'r ffigurau ymwelwyr uchaf ond un

National History Museum at St Fagans. That puts to bed any of the doubters who believed that this building would not be an attraction to the people of Wales, and would not be an attraction for us all to enjoy. Would the House Committee consider doing a small survey of how much people spend in the area, so that we can also work out the economic impact of the building over a period of time? We would then be able to adjust those figures, and perhaps put to bed any of those doubters who may still be left lurking in certain corners of the Chamber.

I welcome Rosemary's point on a DVD for this building. Would the House Committee also take on board the matter of the presentation of this building to people who are just passing through it, using the television screens that are available throughout? If a looped DVD were available, perhaps that could be placed on the screens. I know that some Members like to see the faces of Members perpetually recurring on the screens, but, unfortunately, it might be a better use of resource to try to tell people about this building, about democracy, and about how this building works. I hope that the House Committee can consider that.

**The Deputy Presiding Officer:** I am not sure whether we should consider the comparisons between St Fagans and this building too closely. I am not sure either that I can recommend to the House Committee that we engage and spend finances on commercial exercises about spending in the area, as I do not think that that is a proper use of moneys voted by the Assembly for running the National Assembly. However, your last point is certainly a good one, and I shall ensure that it is also, together with Rosemary's point, on the agenda for tomorrow's meeting.

**Helen Mary Jones:** Some visitors to the building in the past few months have made representations to me and, I know, to other Assembly Members, regretting that it is now more difficult, because of the layout of the building, for them to have informal access to Assembly Members in the way that they could in the previous Chamber. Has the House Committee received any

ying Nghymru, ar ôl Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Mae hynny'n tawelu unrhyw un rai o'r amheuwyr a oedd yn credu na fyddai'r adeilad hwn yn atyniad i bobl Cymru, ac na fyddai'n atyniad inni bob un ei fwynhau. A wnaiff Pwyllgor y Tŷ ystyried gwneud arolwg bach o faint y mae pobl yn ei wario yn yr ardal, er mwyn inni allu hefyd gyfrifo effaith economaidd yr adeilad dros gyfnod o amser? Wedyn, byddem yn gallu addasu'r ffigurau hynny, ac efallai dawelu unrhyw rai o'r amheuwyr hynny a all fod yn dal i lechu yn rhai o gorneli'r Siambr.

Croesawaf bwynt Rosemary am DVD ar gyfer yr adeilad hwn. A wnaiff Pwyllgor y Tŷ hefyd ystyried y mater o gyflwyno'r adeilad hwn i bobl sy'n pasio drwyddo, gan ddefnyddio'r sgriniau teledu sydd ar gael drwyddo draw? Pe gellid defnyddio DVD parhaus, efallai y gellid ei ddarlledu ar y sgriniau. Gwn fod rhai Aelodau yn hoffi gweld wynebau Aelodau yn ymddangos byth a hefyd ar y sgriniau, ond yn anffodus efallai y byddem yn defnyddio hadnoddau'n well drwy geisio dweud wrth bobl am yr adeilad hwn, am ddemocratiaeth, ac am y ffordd y mae'r adeilad hwn yn gweithio. Gobeithio y gall Pwyllgor y Tŷ ystyried hynny.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid wyf yn siŵr a ddylem ystyried y cymariaethau rhwng Sain Ffagan a'r adeilad hwn yn rhy agos. Nid wyf yn siŵr ychwaith a allaf argymhell i Bwyllgor y Tŷ y dylem ddefnyddio a gwario ein cyllidebau ar ymarferion masnachol ynglŷn â gwariant yn yr ardal, gan nad wyf yn credu bod hynny'n ddefnydd priodol o arian a bleidleisiwyd gan y Cynulliad i'w ddefnyddio i redeg y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae eich pwynt olaf yn sicr yn bwynt da, ac fe sicrhaf fod hwnnw hefyd, ynghyd â phwynt Rosemary, yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod yfory.

**Helen Mary Jones:** Mae rhai sydd wedi ymweld â'r adeilad yn ystod y misoedd diwethaf wedi cyflwyno sylwadau imi ac i Aelodau eraill o'r Cynulliad, mi wn, yn gresynu ei bod bellach yn anos, oherwydd cynllun yr adeilad, iddynt allu mynd yn anffurfiol at Aelodau'r Cynulliad, fel yr arferent ei wneud yn y Siambr flaenorol. A yw Pwyllgor y Tŷ wedi cael unrhyw

representations in that regard and, if not at this stage, would you be prepared to do so?

**The Deputy Presiding Officer:** We have had representations about public access to parts of this building, and the fact that it is more difficult to have informal access to Members here than in the old Chamber. The matter is under consideration by the new building sub-group that has been established, and I hope that we can make improvements to it in due course.

sylwadau cyffelyb, ac os nad ydynt ar hyn o bryd, a fydddech yn barod i wneud hynny?

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr ydym wedi cael sylwadau ynglŷn â mynediad i'r cyhoedd i rannau o'r adeilad hwn, a'r ffaith ei bod yn anos gallu mynd yn anffurfiol at Aelodau o'i gymharu â'r hen Siambr. Mae'r mater yn cael ei ystyried gan yr is-grŵp a sefydlwyd ar gyfer yr adeilad newydd, a gobeithio y gallwn wella'r sefyllfa maes o law.

### **Cwestiwn Brys Urgent Question**

#### **Colli Swyddi (Vauxhall, Ellesmere Port) Job Losses (Vauxhall, Ellesmere Port)**

**Carl Sargeant:** What discussion has the Minister had regarding the job losses at the Vauxhall Ellesmere Port plant and the effect that it will have on north-east Wales? EAQ(EIN)

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** The prospective loss of 900 jobs at GM's facility at Ellesmere Port is disappointing news. My ministerial colleagues at the Department of Trade and Industry and I are working closely together to establish what this may mean for Welsh workers and the automotive industry in Wales. I have discussed the issue with the chief executive of the Welsh Automotive Forum. Our other Team Wales partners will work with their colleagues in England to ensure that we respond to this decision as positively as we can.

**Carl Sargeant:** Thank you for that response, Minister. Many of my constituents will be affected by today's decision. I have already had discussions with some of the workforce, who are deeply concerned that this does not only affect them personally, but also their families. You have given me assurances that you will talk to the Secretary of State for Trade and Industry, and I understand that there is a delegation from his department at the plant today. Will you assure me that, although this is a cross-border issue, you will open up discussions with all relevant bodies, so that workers who live in Wales and work

**Carl Sargeant:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y colli swyddi yng ngweithfeydd Vauxhall yn Ellesmere Port a'r effaith a gaiff hynny ar y gogledd-ddwyrain? EAQ(EIN)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae'r posibilrwydd o golli 900 o swyddi yng nghyfleuster GM yn Ellesmere Port yn newyddion siomedig. Yr wyf yn cydweithio'n agos â'm cyd-Weinidogion yn yr Adran Diwydiant a Masnach i weld beth y gallai hyn ei golygu i weithwyr yng Nghymru a'r diwydiant moduro yng Nghymru. Yr wyf wedi trafod y mater gyda phrif weithredwr Fforwm Modurol Cymru. Bydd ein partneriaid eraill yn Nhîm Cymru yn gweithio gyda'u cydweithwyr yn Lloegr i sicrhau ein bod yn ymateb i'r penderfyniad hwn mor gadarnhaol â phosibl.

**Carl Sargeant:** Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Bydd y penderfyniad heddiw yn effeithio ar nifer o'm hetholwyr. Yr wyf eisoes wedi cael trafodaethau gyda rhai o'r gweithlu, sy'n pryderu'n ddifrifol y bydd hyn nid yn unig yn effeithio arnynt hwy'n bersonol, ond ar eu teuluoedd hefyd. Yr ydych wedi rhoi sicrwydd imi y byddwch yn siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach, a deallaf fod cynrychiolwyr o'i adran ar y safle heddiw. A allwch roi sicrwydd imi, er bod hwn yn fater trawsffiniol, y byddwch yn dechrau trafodaethau gyda'r holl gyrff perthnasol, fel

at the Vauxhall plant at Ellesmere Port will not be forgotten, and that they and their families will be engaged in a process of support?

na fydd gweithwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n gweithio ar safle Vauxhall yn Ellesmere Port yn mynd yn angof, ac y bydd proses o gefnogaeth yn cael ei rhoi ar waith iddynt hwy a'u teuluoedd?

3.30 p.m.

**Andrew Davies:** I am willing to give that commitment. We are liaising with the Department of Trade and Industry on this issue. There has been speculation for some time about developments at Ellesmere Port. It is well known that the company is experiencing huge difficulties, particularly in its base in America. The credit rating and other operations are in very serious difficulties, but we will work with the DTI, the unions and the company to identify ways in which this might affect both those employed at Ellesmere Port and the supply chain in terms of those Welsh companies who are supplying GM. However, rest assured that we will keep in touch and I will keep Members informed of any developments.

**Andrew Davies:** Yr wyf yn barod i roi'r ymrwymiad hwnnw. Yr ydym yn cysylltu â'r Adran Diwydiant a Masnach ar y mater hwn. Bu rhywfaint o ddyfalu ers tro ynglŷn â datblygiadau yn Ellesmere Port. Mae'n hysbys fod y cwmni'n wynebu anawsterau mawr, yn enwedig yn ei ganolfan yn America. Mae'r statws credyd a gweithrediadau eraill mewn anawsterau difrifol, ond byddwn yn gweithio gyda'r adran diwydiant a masnach, yr undebau a'r cwmni i nodi ffyrdd y gallai hyn effeithio ar bobl a gyflogir yn Ellesmere Port, ynghyd â'r gadwyn gyflenwi o ran y cwmnïau hynny o Gymru sy'n cyflenwi GM. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y byddwn yn cadw mewn cysylltiad ac y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw ddatblygiadau.

**Alun Ffred Jones:** Job losses at Vauxhall Ellesmere Port are deeply regrettable, and I endorse what Carl Sargeant has said. However, a number of businesses in north-east Wales are also dependent on the plant. Presumably, those jobs may be at risk. Will you carry out an assessment or an audit to see what effect the Vauxhall decision might have on these businesses and bring that information to the relevant committee?

**Alun Ffred Jones:** Gresyn o'r mwyaf yw'r colledion swyddi yn Vauxhall Ellesmere Port, ac yr wyf yn ategu'r hyn a ddywedodd Carl Sargeant. Fodd bynnag, mae nifer o fusnesau yn y gogledd-ddwyrain yn ddibynnol ar y ffatri. Byddwn yn tybio y gall y swyddi hynny fod mewn perygl. A fyddwch yn gwneud asesiad neu archwiliad i weld pa effaith y gallai penderfyniad Vauxhall ei chael ar y busnesau hyn, a rhoi'r wybodaeth honno i'r pwyllgor perthnasol?

**Andrew Davies:** I am more than happy to give that commitment, which follows on from the commitment I gave to Carl Sargeant. The Welsh automotive forum is unable, at this stage, to say what the precise implications will be for Welsh-based companies, but we will be working with it—as we have done when previous such announcements have been made by large companies in the automotive sector—and I will keep the committee and Members informed.

**Andrew Davies:** Yr wyf yn fwy na bodlon ymrwymo i hynny, sy'n dilyn o'r ymrwymiad a roddais i Carl Sargeant. Ni all fforwm modurol Cymru ddweud ar hyn o bryd beth yw'r union oblygiadau i gwmnïau yng Nghymru, ond byddwn yn cydweithio ag ef—fel y gwnaethom yn y gorffennol yn dilyn cyhoeddiadau o'r fath gan gwmnïau mawr yn y sector modurol—a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ac i'r Aelodau.

**Mark Isherwood:** This is devastating news, and I personally know people on both sides

**Mark Isherwood:** Mae hyn yn newyddion trist ofnadwy, ac yr wyf yn bersonol yn

of the border who could be affected by this. This is against the backdrop of UK vehicle production falling last year by 2.6 per cent, whereas it increased by 3.4 per cent in Germany. As John Marek will be interested to hear, the Czech Republic has seen an increase of 35 per cent. Tony Woodley of the Transport and General Workers Union said today that manufacturing is being massacred, and that if manufacturing matters to this country then the Government must have a plan to support manufacturing.

Amicus's general secretary, Derek Simpson, said that this is another devastating blow to the car industry and UK manufacturing in general, and that this plant or industry in our county cannot afford to keep shedding skills like this.

Jonathan Browning, the Vauxhall chairman, said that quality and productivity have shown significant improvements, so the workforce must be credited for that, but that the issue of long-term competitiveness remains.

What action, working with your colleagues in London, do you propose to take in order to address that issue of long-term competitiveness? What action have you taken to identify Welsh resident employees so that appropriate support might be given to them, and what action will you take to, hopefully, ensure that there will be no compulsory redundancies and that the new Astra will come to Ellesmere Port to secure the long-term jobs there for people on both sides of the border?

**Andrew Davies:** It is reading too much into the situation to say that this is manufacturing in meltdown or the end of the automotive sector in the UK. If you look at the automotive sector overall, it continues to do very well indeed. In Wales alone, 25,000 people are employed in the automotive sector. Overall, exports are increasing and the UK continues to have more global manufacturers than before making vehicles. The number of cars produced stands at 1.6 million, as has been the case every year since 2000. The sector is clearly experiencing major difficulties, particularly with the fact

adnabod pobl ar ddwy ochr y ffin y gallai hyn effeithio arnynt. Yn gefndir i hyn mae'r ffaith fod cynhyrchiant modurwl wedi gostwng 2.6 y cant y llynedd yn y DU a chynyddu 3.4 y cant yn yr Almaen. Byddai o ddiddordeb i John Marek glywed bod y Weriniaeth Siec wedi gweld cynnydd o 35 y cant. Yn ôl Tony Woodley o Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol, mae'r diwydiant gweithgynhyrchu heddiw ar ei liniau, ac os yw'r diwydiant gweithgynhyrchu yn bwysig i'r wlad hon, rhaid i'r Llywodraeth gael cynllun i gefnogi gweithgynhyrchu.

Yn ôl Derek Simpson, ysgrifennydd cyffredinol Amicus, mae hon yn ergyd drom arall i'r diwydiant ceir a gweithgynhyrchu yn y DU yn gyffredinol, ac ni all y ffatri hon na diwydiant yn ein sir fforddio parhau i gael gwared â sgiliau fel hyn.

Yn ôl Jonathan Browning, cadeirydd Vauxhall, gwelwyd gwelliannau sylweddol o ran ansawdd a chynhyrchiant. Felly, rhaid canmol y gweithlu am hynny, ond mae problem bod yn gystadleuol yn y tymor hir yn parhau.

Gan weithio gyda'ch cyd-aelodau yn Llundain, pa gamau y bwriadwch eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem honno o fod yn gystadleuol yn y tymor hir? Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i nodi gweithwyr sy'n byw yng Nghymru i sicrhau rhoi cymorth priodol iddynt, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau, gobeithio, na fydd diswyddiadau gorfodol ac y bydd yr Astra newydd yn dod i Ellesmere Port i sicrhau'r swyddi tymor hir yno i bobl o bobtu'r ffin?

**Andrew Davies:** Byddai dweud bod gweithgynhyrchu ar ei liniau neu bod y sector modurwl yn y DU yn wynebu difodiant yn darllen gormod i mewn i'r sefyllfa. Os edrychwch ar y sector modurwl yn gyffredinol, mae'n dal i wneud yn dda iawn. Yng Nghymru yn unig cyflogir 25,000 o bobl yn y sector modurwl. Yn gyffredinol, mae'r allforion yn cynyddu ac mae mwy o weithgynhyrchwyr ceir byd-eang nag erioed o'r blaen yn y DU. Cynhyrchir 1.6 miliwn o geir bob blwyddyn, ffigur sydd wedi parhau'n sefydlog bob blwyddyn er 2000. Mae'r sector yn amlwg yn wynebu

that there is significant over capacity in the sector globally, as we have already seen in relation to the very sad demise of MG Rover last year. The sector is very competitive, and the cost pressures on companies are continuing to bear down, but the Assembly Government and the Government in London continue to support the industry. The UK Government has provided a whole range of financial support packages since 1996, and £25 million has been invested in the Ellesmere Port plant by the UK Government, which mirrors the support that we have given to a range of companies in the sector. In terms of redundancies, we do not know what the impact will be at the moment, because my understanding is that the company will be seeking voluntary redundancies. Clearly, we do not know what impact that will have. When such voluntary redundancy schemes are announced, companies often find that the schemes are oversubscribed and more people are seeking redundancies than there are vacancies available. Therefore, we still do not know what the implications will be, either for the workers from Wales who work at Ellesmere Port or for the Welsh companies that supply goods and services to the Ellesmere Port plant.

**Eleanor Burnham:** I am equally shocked and concerned about this, and commiserate, as the other speakers have, with those concerned and their families. This is a really bad blow, because we know that the Astra is a popular car, and I am sure that you, having been in the automotive industry, understand this as much as anyone. I note that—as we will debate the manufacturing industry later—in your economic strategy for November 2005, you asserted that the high-technology, automotive and aerospace sectors and so on are key sectors that are identified as important to the future of the Welsh economy. I can only hope that you are doing your best to mitigate any consequences for Welsh employees. Do you have any idea or will you be assessing how many people from Wales will be affected? How soon will you come back to tell us about the results and how you are going to alleviate this heavy blow to those from Wales who will be affected?

anawsterau mawr, yn enwedig o ran y ffaith fod gormod o gapasiti yn y sector byd-eang, fel y gwelsom eisoes gyda diflaniad trist MG Rover y llynedd. Mae'r sector yn gystadleuol iawn, ac mae'r pwysau o ran costau yn parhau i wasgu ar gwmnïau. Ond mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Llywodaeth yn Llundain yn parhau i gefnogi'r diwydiant. Darparwyd ystod gyflawn o becynnau cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU er 1996 a buddsoddwyd £25 miliwn yn ffatri Ellesmere Port gan Lywodraeth y DU, sy'n adlewyrchu'r cymorth yr ydym wedi'i roi i amrywiol gwmnïau yn y sector. O ran diswyddiadau, ni wyddom beth fydd yr effaith ar hyn o bryd, oherwydd yr wyf ar ddeall y bydd y cwmni'n gofyn am ddiswyddiadau gwirfoddol. Yn amlwg, ni wyddom pa effaith a gaiff hynny. Pan gyhoeddir cynlluniau diswyddo gwirfoddol o'r fath, bydd cwmnïau yn aml yn gweld bod mwy o bobl yn gwneud cais am gael eu diswyddo nag sydd o leoedd gwag. Felly, ni wyddom beth fydd y goblygiadau, i'r gweithwyr o Gymru sy'n gweithio yn Ellesmere Port nac i'r cwmnïau o Gymru sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ffatri Ellesmere Port.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf finnau wedi fy arswydo ac yn pryderu ynghylch hyn, fel y siaradwyr eraill, lawn cymaint â'r rheini dan sylw a'u teuluoedd. Mae hyn yn ergyd drom, oherwydd gwyddom fod yr Astra yn gar poblogaidd, ac yr wyf yn siŵr eich bod chi, ar ôl gweithio yn y diwydiant modurrol, yn deall hyn cystal â neb. Sylwaf—gan y byddwn yn trafod y diwydiant gweithgynhyrchu yn ddiweddarach—ichi haeru yn eich strategaeth economaidd ar gyfer Tachwedd 2005 fod y sectorau uwch-dechnoleg, moduron ac awyrofod ac yn y blaen yn sectorau allweddol a nodir fel sectorau pwysig i ddyfodol economi Cymru. Ni allaf ond gobeithio eich bod yn gwneud eich gorau i liniaru unrhyw ganlyniadau sy'n wynebu gweithwyr o Gymru. A wyddoch neu a fyddwch yn asesu faint o bobl o Gymru y bydd hyn yn effeithio arnynt? Pryd y cawn wybod gennych am y canlyniadau, a sut fyddwch chi'n lleddfu'r ergyd drom hon i'r rheini o Gymru y bydd hyn yn effeithio arnynt?

**Andrew Davies:** As I said, it is too early to say what the impact will be on Welsh employees at Ellesmere Port, or on Wales-based companies that are supplying goods and services to the plant. It is a voluntary redundancy scheme, and until the company has worked with the workforce and the unions to identify who will be taking up the offer of voluntary redundancy, we cannot say from where those workers will be. I have given a commitment that I will keep the committee and Members informed of developments.

**John Marek:** When the Minister makes contact with the Secretary of State for Trade and Industry, will he impress upon him the need to ensure that, when companies make workers redundant in this country, the penalty that these companies must pay is not much less than it is in almost any other European Union country? Does he agree that, just for once, the Labour Party should stand up for the rights of working men and women in this country?

**Andrew Davies:** We were not going to get a different message from the Member to that which we have heard on countless occasions before. As I have said on previous occasions, when companies have had financial assistance from the Government, and, indeed, from the UK Government, and they break the terms and conditions of the grant offer, they will have to repay it. I have made my views clear about companies off-shoring or relocating, which is that the workforce should be consulted on that basis. I made it clear in my statement yesterday on the job losses at Continental Teves UK Ltd that that was my position.

However, you must bear in mind that the UK has had the most successful economy in the whole of the eurozone, particularly when set against our major competitors, France and Germany. In France and Germany, unemployment is still near the 10 per cent mark, which is, significantly, almost twice the level in the UK, and certainly twice the level in Wales. We have been singularly successful in Britain in terms of attracting inward investment. As ever with these issues, you must take a balanced view, and the performance of the UK and the Welsh

**Andrew Davies:** Fel y dywedais, mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith a gaiff hyn ar weithwyr o Gymru yn Ellesmere Port, neu ar gwmnïau yng Nghymru sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r ffatri. Mae'n gynllun diswyddo gwirfoddol, a nes i'r cwmni weithio gyda'r gweithlu a'r undebau i nodi pwy fydd yn derbyn y cynnig diswyddo gwirfoddol, ni allwn ddweud o ble y daw'r gweithwyr hynny. Yr wyf wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i'r pwyllgor ac i'r Aelodau.

**John Marek:** Pan fydd y Gweinidog yn cysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach, a fydd yn pwysleisio wrtho fod angen sicrhau na fydd y gosb y mae'n rhaid i gwmnïau ei thalu pan fyddant yn diswyddo gweithwyr yn y wlad hon lawer yn is nag ydyw mewn unrhyw wlad arall bron yn yr Undeb Ewropeaidd? A yw'n cytuno, am unwaith, y dylai'r blaid Lafur sefyll dros hawliau gweithwyr yn y wlad hon?

**Andrew Davies:** Nid oeddem am gael neges wahanol gan yr Aelod i'r hyn a glywyd ganddo ar achlysuron dirifedi yn y gorffennol. Fel y dywedais ar achlysuron blaenorol, pan fydd cwmnïau wedi cael cymorth ariannol gan y Llywodraeth, ac yn wir, gan Lywodraeth y DU, ac yn torri telerau ac amodau'r cynnig grant, rhaid iddynt ei adalu. Yr wyf wedi datgan yn glir beth yw fy marn am gwmnïau sy'n symud neu'n ymsefydlu dramor, sef y dylid ymgynghori â'r gweithlu. Gwneuthum yn glir yn fy natganiad ddoe am y swyddi a gollir yn Continental Teves UK Ltd mai dyna oedd fy safbwynt.

Fodd bynnag, rhaid ichi gofio mai economi'r DG yw'r economi fwyaf llwyddiannus yn ardal yr ewro, yn enwedig o ystyried ein prif gystadleuwyr, Ffrainc a'r Almaen. Yn Ffrainc a'r Almaen mae diweithdra'n dal yn agos i 10 y cant, ac mae hynny, yn arwyddocaol iawn, bron ddwywaith y lefel yn y DU ac yn bendant ddwywaith yn fwy na'r lefel yng Nghymru. Yr ydym wedi bod yn arbennig o lwyddiannus ym Mhrydain wrth ddenu mewnfuddsoddiad. Fel bob amser gyda'r materion hyn, rhaid ichi gymryd golwg gytbwys, ac mae perfformiad

economy clearly demonstrates that, on balance, both we and the UK Government are managing the economy extremely well.

economi'r DU a Chymru yn dangos yn glir ein bod ni a Llywodraeth y DU ar y cyfan yn rheoli'r economi'n dda iawn.

**Ceisio Cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi Bodloni Gofynion Cynnig Gwenda Thomas o dan Reol Sefydlog Rhif 31 a Drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2005**

**The Seeking of the National Assembly's agreement that the Welsh Assembly Government has Satisfied the Requirements of the Standing Order No. 31 Proposal by Gwenda Thomas that was debated in Plenary on 23 November 2005**

**The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson):** I propose that:

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Cynigiad fod

*the National Assembly for Wales:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. recognises that the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills:*

*1. yn cydnabod bod y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:*

*a) brought forward the Education Act 2002 (Commencement No. 8) (Wales) Order 2006, which commences section 175 of the Education Act 2002 for approval in Plenary 31 January 2006; and*

*a) wedi dod â Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006 ymlaen, sy'n cychwyn adran 175 Deddf Addysg 2002 ar gyfer ei gymeradwyo yng Nghyfarfod Llawn 31 Ionawr 2006; a*

*b) will issue guidance to support local education authorities and governing bodies exercise their functions to safeguard and promote the welfare of children, which includes the nomination of a named governor responsible for child protection matters and the setting up of local education authority databases of nominated governors for consultation during the summer term to take effect in schools during the autumn term 2006;*

*b) yn cyhoeddi arweiniad i gefnogi awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu i arfer eu swyddogaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, sy'n cynnwys enwebu llywodraethwr wedi'i enwi a fydd yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a sefydlu cronfeydd data awdurdodau addysg lleol o lywodraethwyr a enwebwyd ar gyfer ymgynghori yn ystod tymor yr haf gyda'r bwriad o roi hyn ar waith mewn ysgolion yn ystod tymor Hydref 2006;*

*2. believes that the actions sought by Gwenda Thomas in her Standing Order No. 31.2 motion NDM2641 debated on 23 November 2005, will have been satisfactorily completed, and therefore that it should not proceed with the remaining steps in the Standing Order No. 31 procedure. (NDM3043)*

*2. yn credu y bydd y camau a geisiodd Gwenda Thomas yn ei chynnig NDM2641 dan Reol Sefydlog Rhif 31.2 a drafodwyd ar 23 Tachwedd 2005 wedi cael eu cwblhau'n foddhaol, ac felly na ddylai fwrw ymlaen â gweddill camau gweithdrefn Rheol Sefydlog Rhif 31. (NDM3043)*

On 23 November last year, in response to Gwenda Thomas's motion under Standing Order No. 31, I confirmed my plans to bring forward secondary legislation to commence section 175 of the Education Act 2002, which would place local education authorities and the governing bodies of schools and further

Ar 23 Tachwedd y llynedd, wrth ymateb i gynnig Gwenda Thomas o dan Reol Sefydlog Rhif 31, bu imi gadarnhau fy nghynlluniau i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i gychwyn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, a fydd yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethol ysgolion a



education institutions under a statutory duty to safeguard children. On 31 January, the Assembly agreed the Education Act 2002 (Commencement No. 8) (Wales) Order 2006, bringing section 175 into force from 1 September 2006.

3.40 p.m.

In agreeing to commence the legislation on 31 January, the Assembly recognised that the timescales associated with Standing Order No. 31 and Assembly secondary legislative procedures could have significantly delayed the implementation of the legislation and guidance in schools until 2007. Guidance to support local authorities, schools and further education institutions in exercising this duty is being drafted and will shortly be issued for consultation. I am happy to provide the Assembly with further reassurances today that the guidance will reflect the terms of Gwenda Thomas's motion in respect of both the nomination of a named governor responsible for child protection matters and the setting up of local authority databases of nominated governors.

**Gwenda Thomas:** I am happy to support the motion before us. I am pleased that the commencement Order was approved in Plenary on 31 January this year. I am also content with the Minister's assurance that draft guidance on the second part of my Standing Order No. 31 proposal, in respect of the nomination of a named governor responsible for child protection matters and the setting up of the local education authority database of nominated governors, will be issued during the summer term, with the aim of issuing the guidance to schools during the autumn term this year. This will be a further step forward in safeguarding and protecting our children and I hope that we will all want to support the motion today.

**Jocelyn Davies:** Gwenda Thomas's idea clearly deserves our support, as it may lead to better protection for schoolchildren. It was made clear in the original debate that, at the very least, the guidance would need to be issued, but I have yet to see it and therefore I do not yet know whether I approve of its contents. This motion asks me to vote in

sefydliadau addysg bellach i ddiogelu plant. Ar 31 Ionawr cytunodd y Cynulliad ar Orchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006 i ddod ag adran 175 i rym o 1 Medi 2006.

Wrth gytuno i gychwyn y ddeddfwriaeth ar 31 Ionawr, yr oedd y Cynulliad yn cydnabod y gallai'r amserlenni'n gysylltiedig â Rheol Sefydlog Rhif 31 a gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth y Cynulliad fod wedi oedi gweithredu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau mewn ysgolion yn sylweddol tan 2007. Mae canllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach wrth arfer y ddyletswydd hon yn y broses o gael eu llunio, a chânt eu cyhoeddi maes o law ar gyfer ymgynghori. Yr wyf yn fodlon rhoi sicrwydd pellach i'r Cynulliad heddiw y bydd y canllawiau'n adlewyrchu telerau cynnig Gwenda Thomas o ran enwebu llywodraethwr a fydd yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant a sefydlu cronfeydd data awdurdodau lleol o lywodraethwyr wedi eu henwebu.

**Gwenda Thomas:** Yr wyf yn falch cefnogi'r cynnig ger ein bron. Yr wyf yn falch fod y Cyfarfod Llawn wedi cymeradwyo'r Gorchymyn cychwyn ar 31 Ionawr eleni. Yr wyf hefyd yn fodlon â sicrwydd y Gweinidog y bydd canllawiau drafft ar ail ran fy nghynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 31, o ran enwebu llywodraethwr wedi eu henwi i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant a sefydlu cronfa ddata mewn awdurdodau addysg lleol o lywodraethwyr wedi eu henwebu, yn cael eu cyhoeddi yn ystod tymor yr haf, gyda'r bwriad o roi canllawiau i ysgolion yn ystod tymor yr hydref eleni. Bydd hyn yn gam pellach ymlaen i ddiogelu ac amddiffyn ein plant, a gobeithio y byddwn i gyd am gefnogi'r cynnig heddiw.

**Jocelyn Davies:** Mae syniad Gwenda Thomas yn amlwg yn haeddu ein cefnogaeth oherwydd gallai arwain at well diogelwch i blant ysgol. Gwnaed yn glir yn y ddadl wreiddiol y byddai angen cyhoeddi'r canllawiau o leiaf, ond nid wyf wedi eu gweld eto, felly, ni wn eto a wyf yn cymeradwyo eu cynnwys. Mae'r cynnig hwn

blind faith that I will approve of the contents of that guidance, and I am afraid that I cannot do that. The motion expects me, and the rest of us, to trust that sometime in the future Gwenda Thomas's proposal will become a reality, without any evidence that that is the case. We have also said that this proposal requires training and support for those school governors who might take up the onerous responsibility envisaged in the proposal. Training and support are vital for the success of this measure. I do not believe, Minister, that you have yet discharged your duties in relation to this measure. I hope that that will happen soon and, if it does, I will congratulate you. However, I would rather that you came back to us once you have done it.

In the meantime, perhaps you can tell us today which local authorities have implemented this proposal and which have not. Perhaps you could give us a timetable as to when you plan to fulfil all the requirements of Gwenda Thomas's Standing Order No. 31 proposal. Although Plaid Cymru fully supports Gwenda's proposal that each school shall have a named governor with responsibility for the protection and welfare of its pupils, we cannot vote for a motion that gives the impression that the Minister has completed her part of the Standing Order No. 31 proposal when she has yet to do so.

**Peter Black:** I strongly support the sentiments that Jocelyn has expressed. This issue of how Standing Order No. 31 motions should be dealt with has been dogged by confusion. Our understanding, and, I think, the understanding set out in the Standing Order, is that the Minister needs to report back to Plenary within a set time on the issues that are raised by the Standing Order proposal and the motion that has been carried by Plenary. The misunderstanding that has arisen is that I think that some people on the Government side were under the impression that providing that Gwenda Thomas was satisfied, that would be fine. In fact, once a motion has been carried by Plenary, it becomes the property of Plenary and, therefore, it is Plenary that has to be satisfied

yn gofyn imi bleidleisio'n ddall i gymeradwyo cynnwys y canllawiau hynny, ac mae arnaf ofn na allaf wneud hynny. Mae'r cynnig hwn yn disgwyl i mi, a'r gweddill ohonom, fod yn ffyddiog y bydd cynnig Gwenda Thomas rywbryd yn y dyfodol yn cawl ei wireddu, heb unrhyw dystiolaeth mai dyna'r achos. Yr ydym hefyd wedi dweud, yn sgîl y cynnig hwn, fod angen hyfforddiant a chymorth i'r llywodraethwyr ysgol hynny a allai ysgwyddo'r cyfrifoldeb mawr hwnnw a ragwelir yn y cynnig. Mae hyfforddiant a chymorth yn hanfodol i lwyddiant y mesur hwn. Ni chredaf, Weinidog, eich bod wedi cyflawni'ch dyletswyddau eto mewn cysylltiad â'r mesur hwn. Gobeithio y bydd hynny'n digwydd yn fuan, ac os bydd, byddaf yn eich llongyfarch. Fodd bynnag, byddai'n well gennyf pe baech yn dod yn ôl atom ar ôl ichi wneud hynny.

Yn y cyfamser, efallai y gallwch ddweud wrthym heddiw pa awdurdodau lleol sydd wedi gweithredu'r cynnig hwn a pha rai sydd heb wneud. Efallai y gallech roi amserlen inni pryd yr ydych yn bwriadu cyflawni holl ofynion cynnig Gwenda Thomas o dan Reol Sefydlog Rhif 31. Er bod Plaid Cymru yn llwyr gefnogi cynnig Gwenda y bydd gan bob ysgol lywodraethwr wedi ei enwebu i fod yn gyfrifol am ddiogelwch a lles ei disgyblion, ni allwn bleidleisio dros gynnig sy'n rhoi'r argraff fod y Gweinidog wedi cwblhau ei rhan hi o'r cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 31 pan nad yw wedi gwneud hynny hyd yma.

**Peter Black:** Yr wyf yn cefnogi'n gryf y sylwadau gan Jocelyn. Bu dryswch mawr ynghylch y broblem hon o ymdrin â chynigion o dan Reol Sefydlog Rhif 31. Yr hyn a ddeallwn ni, a'r hyn sydd wedi ei osod allan yn y Rheol Sefydlog, mi gredaf, yw bod angen i'r Gweinidog ddod ag adroddiad yn ôl i'r Cyfarfod Llawn o fewn amser penodol am y materion a godir gan y cynnig o dan y Rheol Sefydlog ac am y cynnig sydd wedi ei basio gan y Cyfarfod Llawn. Y camddealltwriaeth sydd wedi codi, mi gredaf, yw bod rhai pobl ar ochr y Llywodraeth wedi cael yr argraff y byddai popeth yn iawn cyn belled â bod Gwenda Thomas wedi ei bodloni. Mewn gwirionedd, pan fydd y Cyfarfod Llawn wedi pasio cynnig, y Cyfarfod Llawn biau'r cynnig hwnnw, ac

that the Standing Order No. 31 proposal has been dealt with appropriately.

Like Jocelyn, I totally support what Gwenda put forward in her motion, which is that we should have a designated governor responsible for child protection matters. It is important that we get the guidance in place as soon as possible. I look forward to that guidance coming back to Plenary for us to approve and to being able to scrutinise it to ensure that it delivers everything that we and Gwenda expected from her original motion.

This motion has come to us out of time in terms of Standing Order No. 31, which sets out a timetable for when this matter should come before us. We accept that that has happened, and we will move on from that, as there is no point in having sour grapes about it, but, for the future, I hope that lessons will have been learnt, and that Ministers respond within the timescale set out by Standing Order No. 31. I hope that they come back to us in good time and do not assume that, because they may bring guidance or whatever at some point in the future, that will satisfy what Assembly Members believe should happen. There must be some regard to the will of Plenary in this matter, and that now should be met. Having said that, we are prepared to vote for this motion because, clearly, action is being taken, but in future, we need to have learnt the lessons of this particular instance.

**The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson):** I make it absolutely clear that the Government knows that, once a motion has been carried in Plenary, it is then an Assembly motion and has to be properly dealt with in those terms. However, as I said in my earlier contribution, and I think that I also said it in my contribution of 31 January, in practice, we were overtaken by an opportunity that we wanted to seize. That is why, in the three-month timescale, we had the debate on 31 January, when I brought forward the commencement Order to enable us to do exactly as was required under Standing Order

felly rhaid bodloni'r Cyfarfod Llawn fod y cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 31 wedi ei drin yn briodol

Fel Jocelyn, yr wyf finnau yn llwyr gefnogi'r hyn y mae Gwenda wedi'i gyflwyno yn ei chynnig, sef y dylid cael llywodraethwr penodedig sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant. Mae'n bwysig inni sefydlu'r canllawiau cyn gynted â phosibl. Edrychaf ymlaen at weld y canllawiau hynny'n dod yn ôl i'r Cyfarfod Llawn er mwyn inni eu cymeradwyo a chraffu arnynt, i sicrhau eu bod yn darparu popeth yr ydym ni a Gwenda yn ei ddisgwyl o'i chynnig gwreiddiol hi.

Mae'r cynnig hwn wedi'i gyflwyno inni y tu allan i'r amser arferol o ran Rheol Sefydlog Rhif 31, sy'n gosod amserlen pryd y dylai'r mater hwn ddod ger ein bron. Derbyniwn fod hynny wedi digwydd, a byddwn yn symud ymlaen, gan nad oes diben bod yn chwerw ynglŷn â'r mater. Ond yn y dyfodol, gobeithio y bydd gwersi wedi'u dysgu, ac y bydd Gweinidogion yn ymateb o fewn yr amserlen sydd wedi ei gosod yn Rheol Sefydlog Rhif 31. Gobeithio y byddant yn rhoi ymateb inni mewn da bryd ac na fyddant yn tybied, oherwydd y gallent gyflwyno canllawiau neu beth bynnag rywbryd yn y dyfodol, y bydd hynny'n bodloni'r hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn credu ddylai ddigwydd. Rhaid rhoi rhyw ystyriaeth i ewyllys y Cyfarfod Llawn yn y mater hwn, a dylid gwneud hynny'n awr. Wedi dweud hynny, yr ydym yn barod i bleidleisio o blaid y cynnig hwn, ond yn y dyfodol, mae angen inni ddysgu'r gwersi sy'n codi o'r achos penodol hwn.

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Hoffwn wneud yn hollol glir fod y Llywodraeth yn gwybod bod cynnig, ar ôl iddo gael ei dderbyn yn y Cyfarfod Llawn, yn mynd yn gynnig o eiddo'r Cynulliad, a bod yn rhaid ymdrin ag ef yn briodol fel hynny. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy nghyfraniad cynharach, a chredaf imi ddweud hyn yn fy nghyfraniad ar 31 Ionawr, yn ymarferol cododd cyfle yr oeddem yn awyddus i fanteisio arno. Dyna'r rheswm, yn yr amserlen o dri mis, pam y cawsom y ddadl ar 31 Ionawr, pan gyflwynais y Gorchymyn cychwyn i'n galluogi i wneud yn union beth

No. 31. In practical terms, therefore, the Assembly recognised at that point that elements of those procedures had been overtaken by the arrangements that were in existence prior to the debate on 23 November.

In my contribution today, I made it clear that the coming-into-force date is September 2006. We have already said what the guidance would have in place, broadly, in committee terms, but I tell all Members that the guidance will reinforce the need for schools to have effective and accessible policies and procedures in place for designating a member of staff and a governor with lead responsibility for child protection, for referring concerns about a child's welfare, whether that child is at risk or in need, for co-operating across the support agencies to address concerns about broader child welfare, for effective and safe recruitment practices, for handling allegations against staff, for exercising disciplinary and dismissal function, and for training and raising awareness. The nominated governor role will be to ensure that the school has effective policies for each of these key areas, that procedures are accessible to those who ask for them, and to be the designated person for referring allegations against the headteacher to the statutory authorities.

I hope that Members will support the discharging of the functions under Standing Order No. 31. The Government remains utterly committed to taking forward the safeguarding children agenda. We will have opportunities to look further at these issues when the guidance is published for consultation in committee in the usual way.

oedd yn ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 31. Yn ymarferol, felly, yr oedd y Cynulliad yn cydnabod bryd hynny fod y trefniadau a oedd ar waith cyn y ddadl ar 23 Tachwedd wedi mynd yn drech nag elfennau o'r gweithdrefnau hynny.

Yn fy nghyfraniad heddiw, eglurais mai Medi 2006 yw'r dyddiad y daw i rym. Yr ydym eisoes wedi dweud beth fyddai'r canllawiau'n ei ddarparu, yn fras, o ran y pwyllgor. Ond dywedaf wrth bob Aelod y bydd y canllawiau'n atgyfnerthu'r angen i ysgolion sicrhau bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith sydd ar gael i bawb i ddynodi aelod o'r staff a llywodraethwr a fydd yn bennaf gyfrifol am amddiffyn plant, am gyfeirio pryderon am les plentyn, p'un a fydd y plentyn hwnnw mewn perygl neu mewn angen, am gydweithredu ar draws yr asiantaethau cymorth i fynd i'r afael â phryderon am les plant yn fwy cyffredinol, am arferion recriwtio effeithiol a diogel, am ddelio â honiadau yn erbyn staff, am arfer swyddogaeth disgyblu a diswyddo, ac am hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth. Rôl y llywodraethwr wedi ei enwebu fydd sicrhau bod gan yr ysgol bolisiau effeithiol ar waith ar gyfer pob un o'r meysydd allweddol hyn, bod y gweithdrefnau ar gael i'r rheini sy'n gofyn amdanynt, a bod hefyd yn berson wedi ei enwi i gyfeirio honiadau yn erbyn y pennaeth i'r awdurdodau statudol.

Gobeithio y bydd Aelodau'n cefnogi cyflawni'r swyddogaethau o dan Reol Sefydlog Rhif 31. Mae'r Llywodraeth yn dal wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu'r agenda diogelu plant. Cawn gyfleoedd i ystyried y materion hyn ymhellach pan gaiff y canllawiau eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn y pwyllgor yn y ffordd arferol.

*Cynnig (NDM3043): O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 11.*

*Motion (NDM3043): For 42, Abstain 0, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Marek, John  
Ryder, Janet

Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, Glyn  
 Dunwoody, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 Isherwood, Mark  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda

Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Cymeradwyo Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant Approval of Changes to Main Expenditure Groups**

**The Finance Minister (Sue Essex):** I propose that:

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 21.6, approves the changes to main expenditure groups for the financial year 2006-07 laid in the Table Office on Tuesday 9 May by the Finance Minister, Sue Essex. (NDM3040)*

Each year, it is my responsibility to seek approval for changes in the main expenditure groups from those previously approved in the Assembly's budget. In most cases, such changes are technical in nature, and they are often the result of changes in accounting procedures. In some cases, the changes result from a transfer of function to the Assembly, while in other cases the changes result from

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Cynigiai fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.6, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r prif grwpiau gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 9 Mai gan y Gweinidog Cyllid, Sue Essex. (NDM3040)*

Bob blwyddyn, fy nghyfrifoldeb i yw ceisio cymeradwyaeth am y newidiadau yn y prif grwpiau gwariant o'u cymharu â'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol yng nghyllideb y Cynulliad. Gan amlaf, mae newidiadau o'r fath yn rhai technegol o ran natur, a byddant yn aml yn codi o ganlyniad i newidiadau mewn gweithdrefnau cyfrifyddu. Mewn rhai achosion, mae'r newidiadau'n deillio o

funds having been added to the block in consequence of extra expenditure announced by the Chancellor. An increase in the block is initially added to the reserve, and when the Government has decided to allocate that money to an expenditure group, it is necessary and proper that I seek the approval of the Assembly through a motion such as this one.

3.50 p.m.

The documents laid last week were termed as MEG-to-MEG transfers insofar as the proposed transfers include transfers from the reserve. I acknowledge that it would perhaps be more accurate to say that the motion is simply to change MEG allocations.

There are 21 adjustments to the budget contained in the motion. I draw your attention to the transfer of £141 million to reflect the Assembly Government's new responsibility for the management of rail transport in Wales—a change which has been widely welcomed by the Assembly.

The motion also brings onto the face of the budget the additional funding announced by the Chancellor in the pre-budget report and the March budget. I refer Members to the Cabinet statement released on 28 March. A description of each transfer is given in the notes which accompany table 1 attached to the motion.

I am seeking approval for the addition of £13 million to the education expenditure group to be allocated to local education authorities for distribution to schools with the highest concentration of disadvantaged children. This adjustment to the budget is indicative of the continued high priority that the Assembly Government gives to schools and to enabling all children and young people, particularly where they suffer the effects of disadvantage, to achieve their full potential.

The Minister for Education, Lifelong

drosglwyddo swyddogaeth i'r Cynulliad, ond mewn achosion eraill mae'r newidiadau'n ganlyniad i ychwanegu cyllid at y bloc o herwydd cyhoeddi gwariant ychwanegol gan y Canghellor. Ychwanegir cynnydd yn y bloc at y gronfa wrth gefn i ddechrau, a phan fydd y Llywodraeth wedi penderfynu dyrannu'r arian hwnnw i grŵp gwariant, mae'n angenrheidiol ac yn briodol fy mod yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad drwy gynnig fel hwn.

Galwyd y dogfennau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn drosglwyddiadau o un prif grŵp gwariant i un arall, yn yr ystyr bod y trosglwyddiadau a gynnigir yn cynnwys trosglwyddiadau o'r gronfa wrth gefn. Cydnabyddaf y byddai'n fwy cywir, hwyrach, i ddweud mai newid dyraniadau prif grwpiau gwariant yn unig y mae'r cynnig.

Mae'r cynnig yn cynnwys 21 o addasiadau i'r gyllideb. Tynnaf eich sylw at drosglwyddo £141 miliwn i adlewyrchu cyfrifoldeb newydd Llywodraeth y Cynulliad dros reoli trafniadaeth rheilffordd yng Nghymru—newid a groesawyd yn helaeth gan y Cynulliad.

Mae'r cynnig hefyd yn ymgoffori yn y gyllideb y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn yr adroddiad cyn y gyllideb ac yng nghyllideb mis Mawrth. Cyfeiriaf Aelodau at y datganiad gan y Cabinet a gyhoeddwyd ar 28 Mawrth. Disgrifir pob trosglwyddiad yn y nodiadau gyda thabl 1, sydd wedi ei gysylltu wrth y cynnig.

Yr wyf yn ceisio cymeradwyaeth am y £13 miliwn ychwanegol i'r grŵp gwariant addysg sydd i'w ddyrannu i awdurdodau addysg lleol i'w ddsbarthu i ysgolion sydd â'r ganran uchaf o blant difreintiedig. Mae'r addasiad hwn yn y gyllideb yn dangos y flaenoriaeth uchel y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i'w rhoi i ysgolion ac i alluogi pob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig lle maent yn wynebu effeithiau anfantais, i gyflawni eu potensial llawn.

Bydd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu

Learning and Skills will use powers delegated to her under section 14 of the Education Act 2002 to distribute this sum of money, in accordance with the usual arrangements for making grants for education and childcare. The arrangements were the subject of consideration by the Education, Lifelong Learning and Skills Committee on 3 May.

Assembly Members will welcome and approve the transfer to health of the sum of £2.6 million to further improve the provision of NHS primary dental services. The transfer of extra money to the social justice budget will allow further expenditure on a police-led education programme on community safety issues, relating to drugs, alcohol, domestic abuse and anti-social behaviour. It will also support the implementation of the recommendations in the 'Hidden Harm' report by the Advisory Council on the Misuse of Drugs.

Members will be aware that, at first sight, the total Assembly budget seems to reduce. However, let me prevent any misconceptions about the reasons for this. The apparent reduction is only as a result of the fact that the Assembly now receives European funding without the need to negotiate Treasury expenditure cover, and is, therefore, required to show this funding as a specific receipt. The total Assembly budget has been adjusted to provide a figure for the Treasury-financed expenditure net of all European funding. This adds clarity to our budget, and it will be warmly welcomed by Assembly Members. The apparent reductions in the budget for enterprise, innovation and networks and the environment, planning and countryside is simply a reflection of the fact that these budgets are now reported net of the significant European funds that they receive.

Details of the changes are set out in the tables that have been issued to Members, and the Assembly's financial monitoring systems will be updated to reflect the changes as soon as possible.

Gydol Oes a Sgiliau yn defnyddio pwerau a ddirprwywyd iddi o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002 i ddosbarthu'r arian hwn, yn unol â'r trefniadau arferol ar gyfer rhoi grantiau addysg a gofal plant. Ystyriwyd y trefniadau gan y Pwyllgor Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 3 Mai.

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn croesawu ac yn cymeradwyo'r cynnig i drosglwyddo swm o £2.6 miliwn i iechyd i wella darpariaeth gwasanaethau deintyddol sylfaenol y GIG ymhellach. Bydd trosglwyddo arian ychwanegol i gyllideb cyfiawnder cymdeithasol yn ei gwneud yn bosibl gwario rhagor ar raglen addysg o dan arweiniad yr heddlu ar faterion diogelwch cymunedol, yn ymwneud â chyffuriau, alcohol, cam-drin yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hefyd yn helpu gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad gan y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau, 'Niwed Cudd'.

Bydd Aelodau'n ymwybodol fod cyfanswm cyllideb y Cynulliad, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn llai. Fodd bynnag, egluraf y rhesymau dros hyn rhag i neb gamddeall. Yr unig reswm pam mae'r gyllideb yn ymddangos yn llai yw fod y Cynulliad yn cael arian Ewropeaidd erbyn hyn heb orfod negodi darpariaeth gwariant y Trysorlys. Felly, mae'n ofynnol iddo ddangos y cyllid hwn fel derbyniad penodol. Mae cyfanswm cyllideb y Cynulliad wedi'i addasu i ddarparu ffigur ar gyfer y gwariant a ariannir gan y Trysorlys heb yr holl arian Ewropeaidd. Mae hyn yn gwneud ein cyllideb yn fwy eglur, a bydd Aelodau'r Cynulliad yn croesawu hynny'n fawr. Yr unig reswm pam mae'r gyllideb ar gyfer menter, arloesed a rhwydweithiau a'r amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad yn ymddangos yn llai yw'r ffaith fod y cyllidebau hyn bellach yn cael eu cofnodi heb y symiau Ewropeaidd sylweddol a gânt.

Mae manylion am y newidiadau wedi eu gosod allan yn y tablau a roddwyd i'r Aelodau, a chaiff systemau monitro ariannol y Cynulliad eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau mor fuan â phosibl.

**Nick Bourne:** I thank the Minister for coming forward with the revised figures and for her usual openness in the way in which she has presented the figures. Most of the changes are technical and are mostly accounting changes. I also thank the Members' research service which has been extremely helpful in finding a way around some of the points in the notes with which I have needed assistance. For example, I discovered that some figures which are shown as reductions are actually increases in the social justice budget.

I hope that the Minister will take up two particular issues on the social justice budget. I realise that matters in relation to police pension payments will go to the Home Office. However, at the same time, can we take the opportunity to reinforce the message—as the Minister for Social Justice and Regeneration has done—about the way in which we expect the full costs of level 2 policing and restructuring to be met from the Home Office? We should not miss that opportunity for a free shot to underline the point.

I am aware that the Minister has previously referred to my next point in relation to the £13 million that will go directly to schools where there are disadvantaged children, which we wholly endorse. However, the Minister has acknowledged that there needs to be flexibility in the criteria for determining disadvantaged schools; there is a problem with the eligibility-for-free-school-meals criteria used, which has been referred to by Members across all parties. I hope that there will be some flexibility because one or two schools near the margin will, perhaps, have a legitimate concern there. However, subject to that, we are happy with these figures and I thank the Minister for bringing them forward.

**Janet Ryder:** Plaid Cymru will support this money. While we will support the transfer into the education budget of £13 million for the raising attainment and individual standards in education in Wales programme, and while we accept that you need to target money within the education budget, I will raise several points, which might be better

**Nick Bourne:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r ffigurau diwygiedig ac am eu cyflwyno yn ei ffordd agored arferol. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau yn rhai technegol ac yn newidiadau cyfrifyddu yn bennaf. Hoffwn hefyd ddiolch i wasanaeth ymchwil yr Aelodau sydd wedi rhoi cymaint o gymorth i egluro rhai o'r pwyntiau yn y nodiadau, cymorth yr oedd arnaf fi ei angen. Er enghraifft, darganfŷm fod rhai ffigurau sydd i'w gweld fel gostyngiadau yn godiadau mewn gwirionedd yn y gyllideb cyfiawnder cymdeithasol.

Gobeithio y bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â dau fater penodol yn y gyllideb cyfiawnder cymdeithasol. Sylweddolaf fod materion mewn perthynas â thaliadau pensiwn yr heddlu yn fater i'r Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, ar yr un pryd, a gawn ni achub ar y cyfle hwn i atgyfnerthu'r neges—fel y gwnaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio—am y ffordd y disgwyliwn i'r Swyddfa Gartref dalu costau llawn plismona ac ailstrwythuro lefel 2. Ni ddylem golli'r cyfle hwnnw i danlinellu'r pwynt.

Yr wyf yn ymwybodol fod y Gweinidog wedi cyfeirio eisoes at fy mhwynt nesaf mewn cysylltiad â'r £13 miliwn a gaiff ei roi'n uniongyrchol i ysgolion lle mae plant difreintiedig, rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi'n llwyr. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi cydnabod bod angen hyblygrwydd o ran y meini prawf ar gyfer pennu ysgolion difreintiedig; cyfyd problem gyda'r meini prawf i bennu cymhwyster i gael cinio ysgol am ddim, a chyfeiriodd Aelodau o bob plaid at hynny. Gobeithio y bydd ychydig hyblygrwydd oherwydd efallai y bydd gan un neu ddwy ysgol ar y ffin bryderon dilys yn hyn. Fodd bynnag, yn amodol ar hynny, yr ydym yn fodlon ar y ffigurau hyn, a diolchaf i'r Gweinidog am eu cyflwyno.

**Janet Ryder:** Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r arian hwn. Er ein bod yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo £13 miliwn i'r gyllideb addysg i godi cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg yn rhaglen Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod angen ichi dargedu arian yn y gyllideb addysg, codaf sawl pwynt byddai'n well efallai i'ch cyd-Weinidog, y



addressed by your colleague, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills.

We have never had the opportunity, as an Assembly, to debate this money. It was announced in a written statement; neither Plenary nor the Education, Lifelong Learning and Skills Committee were given the opportunity to discuss it. We had a report on this as part of the Minister's report to the last Education, Lifelong Learning and Skills Committee meeting but we are still waiting to be told how this money will be monitored. When the Minister came to the Committee on School Funding meeting at the end of March, she promised that, when she brought the details to committee, she would tell us how she was going to monitor the money. [*Interruption.*] It is on the record, Minister. When you came to committee, there was nothing there to say how it was going to be monitored. We need to know what the monitoring procedures are going to be so that we can see that this targeted money will have an effect.

I draw your attention, Finance Minister—and I am sure that the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills is well aware of this—to the fact that the instrument being used to distribute this grant, as Nick Bourne pointed out, is a very blunt tool. It can be used at a county level, but when you take it below that level and when a Minister tells counties which schools should have this money, which has never happened before, it is not a good indicator. Even your own backbench colleagues have pointed out that it does not work. On 20 March, Carl Sargeant, in the Flintshire *Evening Leader*, said that measuring the proportion of free school dinners in a school was not an accurate method of judging whether its pupil base was disadvantaged. He said,

‘Some of the indicators need to be more balanced and we really need to look at updating the criteria.’

If it is educational achievement that you are trying to update, use an educational indicator. It needs to be a better method. If the county level had been used, then, with discussions at that county level, the Minister would have

Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oeseu hateb a Sgiliau ymdrin â hwy.

Nid ydym erioed wedi cael cyfle, fel Cynulliad, i drafod yr arian hwn. Fe'i cyhoeddwyd mewn datganiad ysgrifenedig; nid yw'r Cyfarfod Llawn na'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cael cyfle i'w drafod. Cawsom adroddiad ar hyn fel rhan o adroddiad y Gweinidog i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ond yr ydym yn dal i ddisgwyl clywed sut y caiff yr arian hwn ei fonitro. Pan ddaeth y Gweinidog i gyfarfod y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion ddiwedd mis Mawrth, addawodd, wrth gyflwyno'r manylion i'r pwyllgor, y byddai'n dweud wrthym sut yr oedd am fonitro'r arian. [*Torri ar draws.*] Dyna beth sydd wedi'i gofnodi, Weinidog. Pan ddaeth i'r pwyllgor, nid oedd dim i ddweud sut yr oeddech yn bwriadu monitro'r arian. Mae angen inni wybod beth fydd y gweithdrefnau monitro fel y gallwn weld y bydd yr arian hwn sydd wedi'i dargedu yn cael effaith.

Tynnaf eich sylw, Weinidog Cyllid—ac yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn hollol ymwybodol o hyn—at y ffaith nad yw'r offeryn a ddefnyddir ar gyfer dosbarthu'r grant hwn, fel yr eglurodd Nick Bourne, yn un cynnil iawn. Gellir ei ddefnyddio ar lefel sir, ond pan ewch o dan y lefel honno a phan fydd Gweinidog yn dweud wrth siroedd pa ysgolion a ddylai gael yr arian hwn, nad yw erioed wedi digwydd o'r blaen, nid yw'n ddangosydd da. Mae hyd yn oed eich cyd-aelodau ar y meinciau cefn wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'n gweithio. Ar 20 Mawrth, dywedodd Carl Sargeant, yn *Evening Leader* sir y Fflint, nad oedd mesur cyfran y plant sy'n cael cinio ysgol am ddim mewn ysgol yn ffordd gywir i farnu a oedd ei disgyblion yn ddifreintiedig. Meddai,

Mae angen i rai o'r dangosyddion fod yn fwy cytbwys ac mae gwir angen inni ystyried diweddarau'r meini prawf.

Os cyflawniad addysgol yr ydych yn ceisio'i ddiweddarau, defnyddiwch ddangosydd addysgol. Mae angen dull gwell. Pe bai'r lefel sirol wedi ei defnyddio fel sail, yna gyda thrafodaethau ar y lefel honno byddai'r

achieved what she wanted to achieve in conjunction with her colleagues in local government. Instead, she has dictated to them in which schools they should spend this money. So, it is important that we get monitoring procedures in place, because we want to see exactly what impact this is going to have.

**Peter Black:** The Liberal Democrats will also support this motion because, even if we disagree with the way in which the money is being distributed to schools, we are not going to oppose an injection of £13 million into education. That is an important principle. Any headteacher will say that they welcome that, no matter in what form it comes. However, we have reservations about the way that the money is being distributed.

When I first heard about this proposal to introduce the RAISE grant, to distribute money according to deprivation measures, particularly that of free school meals, my first question was on the assumption behind this whole grant being that schools already have adequate finance. Many schools will tell you that that is simply not the case. It is no coincidence that the £13 million that is being put into the education budget is only £3 million short of the £16 million that was held back as a result of the Gershon review—of the 1 per cent saving that has been held back from local government, £16 million would have gone to education. Schools in 21 of the 22 authorities around Wales are feeling the force of that decision and are struggling to make ends meet as a result of the Welsh Assembly Government's withholding that money. The Finance Minister and the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills have said that they had made it clear to local education authorities that this money should not be taken out of school budgets. If that is the case, why did they not withhold £17 million rather than £33 million? If that £16 million had been put forward, I am sure that local education authorities would have been more than happy to have passed it on to schools.

4.00 p.m.

Gweinidog wedi cyflawni'r hyn yr oedd am ei gyflawni ar y cyd â'i chydweithwyr mewn llywodraeth leol. Yn lle hynny, mae wedi mynnu dweud wrthynt ym mha ysgolion y dylent wario'r arian hwn. Felly, mae'n bwysig fod gennym weithdrefnau monitro ar waith, oherwydd yr ydym am weld yn union pa effaith a gaiff hyn.

**Peter Black:** Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn cefnogi'r cynnig hwn, oherwydd hyd yn oed os ydym yn anghytuno â'r ffordd y dosberthir yr arian i ysgolion, nid ydym am wrthwynebu rhoi £13 miliwn ychwanegol i addysg. Mae hynny'n egwyddor bwysig. Bydd unrhyw bennaeth yn dweud ei fod yn croesawu hynny, ym mha ffurf bynnag y daw. Fodd bynnag, yr ydym yn amheus ynglŷn â'r ffordd y dosberthir yr arian.

Pan glywais gyntaf am y cynnig hwn i gyflwyno grant Rhagori, i ddosbarthu arian yn ôl mesurau amddifadedd, yn enwedig yn ôl canran y plant sy'n cael cinio ysgol am ddim, fy nghwestiwn cyntaf oedd am y dybiaeth sy'n sail i'r grant hwn fod ysgolion eisoes yn cael digon o gyllid. Bydd llawer o ysgolion yn dweud wrthynt nad yw hynny'n wir o gwbl. Nid cyd-ddigwyddiad yw bod y swm o £13 miliwn sy'n cael ei roi yn y gyllideb addysg yn £3 miliwn yn unig yn brin o'r £16 miliwn a ataliwyd o ganlyniad i adolygiad Gershon—o'r arbediad o 1 y cant na roddwyd i lywodraeth leol, byddai £16 miliwn wedi mynd i addysg. Mae ysgolion mewn 21 o'r 22 o awdurdodau ledled Cymru yn teimlo effaith y penderfyniad hwnnw ac yn cael anhawster i gael dau ben llinyn ynghyd oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â rhoi'r arian hwnnw. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi dweud iddynt egluro wrth awdurdodau addysg lleol na ddylid cymryd yr arian hwn o gyllidebau ysgolion. Os yw hynny'n wir, pam nad ataliwyd £17 miliwn ganddynt yn hytrach na £33 miliwn? Pe bai'r swm hwnnw o £16 miliwn wedi'i gyflwyno, yr wyf yn siŵr y byddai awdurdodau addysg lleol wedi bod yn fwy na pharod i'w drosglwyddo i ysgolion.

The questions about the way in which this money is being distributed are valid. I think that we all consider free school meals to be a rough-and-ready indicator of deprivation. Carl Sargeant very much believes that, and, for once, I agree with him. We have to take that on board. In discussions in the Committee on School Funding, we have also come to that conclusion. We would hope that the Minister will be looking to review that particular indicator that measures deprivation.

There are other issues around this. The whole grant is being micromanaged by the Minister. Local government was not properly consulted on this. I understand that, in meetings with Ministers, local government made a number of points about how it is unhappy with the way in which the grant was being directed to specific schools without enabling it to have any say on its distribution. It is unhappy that this money, in some instances, in its belief, was going to schools that were likely to be closed in the near future, and it is unhappy that this grant is only being guaranteed for two years, when we have consistently talked, since this Assembly was established, about grants being sustainable over a longer period of time. It is also unhappy about the lack of consultation with it regarding the fact that this grant does not seem to have any objectives and that there is no means of measuring it. The whole RAISE grant is a shambles. It is going to some schools that have high numbers of pupils receiving free school meals, and yet there are other schools in deprived areas that are not receiving that money—Ogmore School in my region is one, and Rhyl High School in north Wales is another. It is going to primary schools but not to the schools that they feed into.

**Janet Ryder:** Do you agree that the Minister is also breaking an agreement that the parties came to on the budget settlement, when a new pot of money was agreed to support small schools that suffer severe financial pressures? The Minister has made a bold statement in the literature that accompanies this grant that that money, instead of helping with administration costs, as was intended, will now be used as schools' proportion of

Mae'r cwestiynau ynghylch y ffordd y caiff yr arian hwn ei ddosbarthu yn ddilys. Credaf fod pawb ohonom yn ystyried mai dangosydd digon amrwd o amddifadedd yw cinio ysgol am ddim. Mae Carl Sargeant yn credu hynny, ac am unwaith yr wyf yn cytuno ag ef. Rhaid inni ystyried hynny. Mewn trafodaethau yn y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion, daethom i'r casgliad hwnnw hefyd. Gobeithio y bydd y Gweinidog am adolygu'r dangosydd penodol hwnnw sy'n mesur amddifadedd.

Cyfyd materion eraill ynglŷn â hyn. Mae'r holl grant yn cael ei feicoreoli gan y Gweinidog. Nid ymgynghorwyd yn llawn â llywodraeth leol ar y mater hwn. Deallaf fod llywodraeth leol, mewn cyfarfodydd gyda Gweinidogion, wedi cyflwyno nifer o bwyntiau ynglŷn â'i hanfodlonrwydd â'r modd yr oedd y grant yn cael ei gyfeirio at ysgolion penodol heb roi cyfle i lywodraeth leol gael lleisio barn am y dosbarthiad. Mae'n anfodlon bod yr arian hwn, mewn rhai achosion, ym marn llywodraeth leol yn mynd i ysgolion a oedd yn debygol o gael eu cau yn y dyfodol agos, ac mae'n anfodlon mai am ddwy flynedd yn unig y caiff y grant hwn ei sicrhau, a ninnau wedi bod yn sôn o hyd, ers sefydlu'r Cynulliad hwn, am sicrhau bod grantiau'n gynaliadwy dros gyfnod hwy. Mae hefyd yn anfodlon am y diffyg ymgynghori o ran y ffaith nad ymddengys bod gan y grant hwn unrhyw amcanion ac nad oes modd ei fesur. Mae'r grant Rhagori yn draed moch. Caiff ei roi i rai ysgolion sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim, ond eto nid yw ysgolion eraill mewn ardaloedd difreintiedig yn cael yr arian hwnnw—mae Ysgol Bro Ogwr yn fy rhanbarth i yn un o'r rhain, ac Ysgol Uwchradd y Rhyl yn y gogledd yn un arall. Caiff ei roi i ysgolion cynradd, ond nid i'r ysgolion y mae'r rheini'n eu bwydo.

**Janet Ryder:** A gytunwch fod y Gweinidog hefyd yn torri cytundeb a wnaed gan y pleidiau ar y setliad cyllid, pan gytunwyd ar gronfa newydd o arian i gynorthwyo ysgolion bach sy'n dioddef pwysau ariannol difrifol? Mae'r Gweinidog wedi gwneud datganiad beiddgar yn y deunydd sy'n dod gyda'r grant hwn y bydd yr arian hwnnw, yn hytrach na helpu gyda chostau gweinyddol, fel y'i bwriadwyd, yn cael ei ddefnyddio bellach fel

the RAISE grant. That further disadvantages small schools and totally breaks the cross-party agreement on the budget.

**Peter Black:** It is certainly true that money for other purposes and from other grants has been taken to go into the RAISE grant. That is a loss for some local councils.

The Minister has said that if this money had been given to all schools, as has happened in England, it would have been a smaller amount of money. I attended a school budget forum meeting in Swansea last week and spoke to headteachers, all of whom feel strongly about the way in which this grant has been handled. I think that most headteachers would have welcomed that small amount of money and it would have been better, perhaps, if that money had been distributed across the whole of Wales in that way.

We are not able to vote against this or table any amendments to this motion because of the way in which it has been brought before us. However, I hope that the Minister will take note of some of the criticisms that are coming from local government and opposition spokespeople on this, and, at the very least, will adjust the deprivation measures and refine them according to the RAISE grant so that the schools that have large numbers of deprived pupils will at least receive some of that money, which they are not currently receiving.

**John Marek:** I echo what Peter Black has said. I wish to talk about the money for disadvantaged schools and the fact that eligibility is based on school meals. I do not think that the Minister did this because she was not thinking carefully; I think that she was thinking carefully. She was ensuring that certain constituencies had more of the money than others. That is a simple matter. I also agree with Carl Sargeant on this. I wonder how many secondary schools—let us keep it to that for the moment—have not received the money in his constituency and how many have. In Karen Sinclair's constituency, it is only Ruabon High School that has received the money; none of the others have. In my constituency of Wrexham, only Rhosnesni

cyfran ysgolion o'r grant Rhagori. Mae hynny'n rhoi ysgolion bach dan anfantais ychwanegol ac mae'n chwalu'n llwyr y cytundeb trawsbleidiol ar y gyllideb.

**Peter Black:** Mae'n sicr yn wir bod arian at ddibenion eraill ac o grantiau eraill wedi'i gymryd i'w roi yn y grant Rhagori. Mae hynny'n golled i rai cynghorau lleol.

Mae'r Gweinidog wedi dweud, pe bai'r arian hwn wedi'i roi i bob ysgol, fel y digwyddodd yn Lloegr, y byddaiswm wedi bod yn llai. Euthum i gyfarfod fforwm ar gyllideb ysgolion yn Abertawe yr wythnos diwethaf. Bûm yn siarad â phenaethiaid, a theimlai pob un ohonynt yn gryf ynghylch y modd yr ymdriniwyd â'r grant hwn. Credaf y byddai'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi croesawu'r swm bach hwnnw o arian, a hwyrach y buasai'n well pe bai'r arian hwnnw wedi ei ddosbarthu drwy Gymru gyfan fel hynny.

Ni allwn bleidleisio yn erbyn hyn na chyflwyno unrhyw welliannau i'r cynnig hwn oherwydd y modd y cafodd ei gyflwyno ger ein bron. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y Gweinidog yn nodi rhai o'r beirniadaethau a wnaed gan lywodraeth leol a llefarwyr y gwrthbleidiau ar hyn. Gobeithio hefyd y bydd o leiaf yn addasu'r mesurau amddifadedd ac yn eu mireinio yn unol â'r grant Rhagori, fel y bydd yr ysgolion sydd â nifer fawr o blant difreintiedig yn cael rhywfaint o'r arian hwnnw nad ydynt yn ei gael ar hyn o bryd.

**John Marek:** Ategaf yr hyn a ddywedodd Peter Black. Hoffwn sôn am yr arian i ysgolion difreintiedig a'r ffaith fod cymhwyster yn seiliedig ar ginio ysgol. Ni chredaf fod y Gweinidog wedi gwneud hyn am nad oedd yn meddwl yn ofalus; credaf ei bod yn meddwl yn ofalus. Yr oedd yn sicrhau bod rhai etholaethau'n cael mwy o'r arian nag eraill. Mae hynny'n fater syml. Cytunaf hefyd â Carl Sargeant ar hyn. Tybed faint o ysgolion uwchradd—canolbwyntiwn ar hynny am y tro—nad ydynt wedi cael yr arian yn ei etholaeth ef, a faint sydd wedi ei gael. Yn etholaeth Karen Sinclair, dim ond Ysgol Uwchradd Rhiwabon sydd wedi cael yr arian; nid oes yr un o'r lleill wedi ei gael. Yn fy etholaeth i yn Wrecsam, dim ond

High School has received it; none of the others have. Most people in Wrexham will tell you that it is other schools that are disadvantaged and deserve the money. Has the Minister simply done this because it is the usual south Wales M4 Cabinet, and it cannot think about anything that is further than 20 miles north of Cefncoedycymer? I would not be surprised. You must answer the following question, Minister: why do you disadvantage north Wales? Perhaps we need to do a little investigation into this. Let us go around the Cabinet table. How many schools in the constituencies of the Cabinet Members will benefit? I wonder. North-east Wales is certainly not benefiting. I do not think that Carl Sargeant is benefiting. I will give way to Karen Sinclair. [*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. I want to hear this intervention.

**Karen Sinclair:** Thank you, John. I am well aware that there were some schools that I thought should benefit that did not. In fact, I am lobbying hard and making representations to Jane Davidson with regard to one school. How many letters have you sent, and how many times have you spoken to the Minister about these schools between the publication of the list and speaking now in the Chamber? I would be very grateful if you would answer that question directly.

**John Marek:** I will answer it by saying that I am making a speech on this subject and that I am asking the Minister to adopt a fair policy across the whole of Wales instead of seeking to advantage certain parts of Wales over others. That is what is happening with this. I do not think that I need to say any more. We all understand what is going on here. Mark?

**Mark Isherwood:** Do you agree with me that following a recent meeting—

**The Presiding Officer:** Order. Is this an intervention? I thought that John Marek had finished.

**Mark Isherwood:** I asked a question to the Minister with responsibility for local

Ysgol Uwchradd Rhosnesni sydd wedi ei gael; dim un o'r lleill. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn Wrecsam yn dweud wrthych mai ysgolion eraill sy'n ddifreintiedig ac sy'n haeddu cael yr arian. A yw'r Gweinidog wedi gwneud hyn oherwydd mai Cabinet arferol yr M4 a'r de sydd yma, ac na all ystyried unrhyw beth ymhellach nag 20 milltir i'r gogledd o Gefncoedycymer? Ni fyddai hynny'n fy synnu. Rhaid ichi ateb y cwestiwn canlynol, Weinidog: pam yr ydych yn rhoi'r gogledd dan anfantais? Efallai fod angen ymchwilio i hyn. Gadewch inni fynd o amgylch bwrdd y Cabinet. Faint o ysgolion yn etholaethau Aelodau'r Cabinet fydd yn elwa? Tybed. Mae'n sicr nad yw'r gogledd-ddwyrain yn elwa. Ni chredaf fod Carl Sargeant yn elwa. Ildiaf i Karen Sinclair. [*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Hoffwn glywed yr ymyriad hwn.

**Karen Sinclair:** Diolch, John. Yr wyf yn ymwybodol iawn bod rhai ysgolion yr oeddwn wedi credu y dylent elwa heb gael arian. Yn wir, yr wyf yn llobio'n galed ac yn cyflwyno sylwadau i Jane Davidson mewn perthynas ag un ysgol. Faint o lythrau a anfonwyd gennych, a sawl gwaith yr ydych wedi siarad â'r Gweinidog am yr ysgolion hyn rhwng adeg cyhoeddi'r rhestr a siarad heddiw yn y Siambr? Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb y cwestiwn hwnnw'n uniongyrchol.

**John Marek:** Atebaf y cwestiwn drwy ddweud fy mod yn cyflwyno araith ar y pwnc hwn ac yn gofyn i'r Gweinidog fabwysiadu polisi teg ledled Cymru, yn hytrach na cheisio sicrhau bod rhai rhannau o Gymru yn elwa mwy nag eraill. Dyna beth sy'n digwydd yn hyn. Ni chredaf fod angen dweud mwy. Mae pob un ohonom yn deall y sefyllfa. Mark?

**Mark Isherwood:** A gytunwch â mi yn dilyn cyfarfod diweddar—

**Y Llywydd:** Trefn. Ai ymyriad yw hwn? Yr oeddwn yn credu bod John Marek wedi gorffen.

**Mark Isherwood:** Gofynnais gwestiwn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol

government on this specific point last week, with your agreement and on behalf of both of us.

**John Marek:** It is the usual Labour policy of trying to make mischief. It knows when it is trying to rig something, and it is trying to rig the distribution of this money. It should come to its senses, and I will listen with interest to what the Minister has to say about the fairness of the distribution of this money based upon school meals. It is certainly not fair in Wrexham or in the constituencies of Karen Sinclair and Carl Sargeant. Something is wrong somewhere.

**Jenny Randerson:** I thank the Minister for her statement, which she has made in her usual helpful and transparent manner. The Welsh Liberal Democrats certainly welcome the additional money for health, and we welcome additional money for education. However, I would briefly like to repeat the concerns raised about the process that has been used. I would like the Minister to consider whether, as Finance Minister, she regards this as an ideal and appropriate way of announcing significant amounts of new money for a particular budget.

There has been no opportunity to question the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills in detail about the way in which this money has been allocated, which is clearly controversial. Years ago, I was told as a school governor that the percentage of children eligible for free school meals was a very blunt instrument and a poor indicator or real need. As an example, schools with high numbers of ethnic minority pupils do not accurately reflect any level of deprivation because there is a trend for ethnic minority pupils not to take free school meals.

We will support this, because you cannot refuse to support it, and I wonder whether this is why the Minister has chosen to do it in this way. The Labour Assembly Government has an uncanny knack of turning a good news story into a bad news story. In this case, it is done by the obduracy of the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills, who

ar y pwynt hwn yr wythnos diwethaf, gyda'ch cytundeb ac ar ein rhan ein dau.

**John Marek:** Polisi arferol Llafur o geisio creu drygioni yw hyn. Mae'n gwybod pan fydd yn ceisio trefnu rhywbeth er lles Llafur ei hun, ac mae'n ceisio gwneud hynny yn y ffordd y mae'n dosbarthu'r arian hwn. Dylai bwylllo, a byddaf yn gwrando'n astud ar yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am degwch y modd y dosberthir yr arian hwn yn seiliedig ar ginio ysgol. Yn sicr, nid yw'n deg yn Wrecsam nac yn etholaethau Karen Sinclair a Carl Sargeant. Mae rhywbeth o'i le rywle.

**Jenny Randerson:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad, yn ei ffordd gymwynasgar ac eglur arferol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn sicr yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer iechyd, a chroesawn arian ychwanegol ar gyfer addysg. Fodd bynnag, hoffwn ailadrodd yn fyr y pryderon a godwyd am y broses a ddefnyddiwyd. Hoffwn i'r Gweinidog ystyried a yw hi, fel y Gweinidog Cyllid, yn ystyried bod hon yn ffordd ddelfrydol a phriodol i gyhoeddi symiau sylweddol o arian newydd ar gyfer cyllideb arbennig.

Ni chafwyd cyfle i holi'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn fanwl am y modd y dyrannwyd yr arian hwn, sy'n amlwg yn bwnc llosg. Flynyddoedd yn ôl, dywedwyd wrthyf fel llywodraethwr ysgol mai ffordd amrwd o nodi amddifadedd oedd canran y plant sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim, a bod hynny'n ddangosydd gwael o angen gwirioneddol. Fel enghraifft, nid yw ysgolion sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig yn adlewyrchu'n gywir unrhyw lefel o amddifadedd am fod tuedd i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig beidio â chymryd cinio ysgol am ddim.

Byddwn yn cefnogi hyn, oherwydd ni allwch wrthod ei gefnogi, a thybed ai dyna pam y mae'r Gweinidog wedi dewis ei wneud fel hyn? Mae gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad ddawn ryfedd o droi newyddion da yn newyddion drwg. Yn yr achos hwn, mae hyn yn digwydd oherwydd ystyfnigrwydd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a

has twisted and turned in insisting that she would not bring to Plenary these proposals for agreement.

**Janet Ryder:** Do you agree that we need to ask the Finance Minister, who is also the Minister with responsibility for local government and public services, whether, in her opinion, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills has broken the agreed protocol with local government over the issuing of new money to schools? If a special grant is issued to local government, the protocol followed is that it will be notified if that grant is to come to an end, or it will be given for the full three years for which it is issued, and it will then roll into the RSG.

4.10 p.m.

A sum of £3 million was issued last year to schools that were underachieving. Without any warning at all, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills has rolled that money into this new agreement. It has meant that, in some cases, local authorities have had to tell schools, 'I am sorry, the Minister with responsibility for education has taken away the money that we were giving you to raise standards'. Do you agree that the Minister with responsibility for local government and public services needs to look at whether her Cabinet colleague has broken that protocol with local government?

**Jenny Randerson:** I agree with you, Janet, but I think that one of the most significant things is that Welsh local government agrees with you. Perhaps the concern of some schools that have lost money is one of the reasons why the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills was so keen to avoid scrutiny.

We have to look at our processes. With our current limited powers, our main task at present is to allocate money and to make sure that money is spent efficiently. We have been able to ask questions here today, but Jane Davidson will not be there to answer them. The task falls to the Finance Minister, who, I believe, should not have to shoulder that responsibility. It is not adequate for a

Sgiliau, sydd wedi gwneud pob ymdrech i fynnu na fyddai'n cyflwyno'r cynigion hyn mewn Cyfarfod Llawn i gytuno arnynt.

**Janet Ryder:** A gytunwch fod angen inni holi'r Gweinidog Cyllid, sydd hefyd yn gyfrifol am lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, a yw'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn ei barn hi, wedi torri'r protocol y cytunwyd arno gyda llywodraeth leol dros ddosbarthu arian newydd i ysgolion? Os caiff grant arbennig ei roi i lywodraeth leol, y protocol a ddilynir yw y bydd yn cael gwybod os bydd y grant hwnnw'n dod i ben, neu y bydd yn cael ei roi am y tair blynedd lawn a fwriadwyd ac yna'n cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.

Dosbarthwyd swm o £3 miliwn y llynedd i ysgolion a oedd yn tangyflawni. Heb unrhyw rybudd o gwbl, mae'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cynnwys yr arian hwnnw yn y cytundeb newydd hwn. Mae'n golygu, mewn rhai achosion, fod awdurdodau lleol wedi gorfod dweud wrth ysgolion, 'Mae'n ddrwg gennym, mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol am addysg wedi atal yr arian yr oeddem yn ei roi ichi i godi safonau'. A gytunwch fod angen i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus ystyried a yw ei chyd-Weinidog yn y Cabinet wedi torri'r protocol hwnnw gyda llywodraeth leol?

**Jenny Randerson:** Cytunaf â chi, Janet, ond y peth pwysig, yn fy marn i, yw bod llywodraeth leol Cymru yn cytuno â chi. Efallai mai'r pryder a fynegwyd gan rai ysgolion sydd wedi colli arian yw un o'r rhesymau pam mae'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mor awyddus i osgoi prosesau craffu.

Rhaid inni edrych ar ein prosesau. Gyda'n pwerau cyfyngedig presennol, ein prif dasg ar hyn o bryd yw dyrannu arian a sicrhau y caiff yr arian hwnnw ei wario'n effeithlon. Yr ydym wedi gallu gofyn cwestiynau yma heddiw, ond ni fydd Jane Davidson yno i'w hateb. Y Gweinidog Cyllid fydd yn gwneud hynny, ac ni chredaf y dylai orfod cymryd y cyfrifoldeb hwnnw. Nid yw'n ddigonol i

Minister to avoid scrutiny in this way.

**The Finance Minister (Sue Essex):** A large number of points were raised, and I will try to link some of them together. First, I thank Nick for his considered contribution. I will do my best to answer the points that he made. On the money going into the social justice budget, it would have been nice if someone could have said, 'What good news this money is', because this money is going right to the front line to support those youngsters most in need, to follow up on schemes that are working extremely well in schools and to intensify and extend those schemes. That is the money that went through the social justice budget.

**Leanne Wood:** Will you take an intervention?

**Sue Essex:** No, I have a lot of points to respond to, Leanne, and I will not be able to get through them all.

In terms of the points about the police, the money coming in and going out relates to the complications of the police funding system that we have. As you know, Edwina Hart has made representations about the cost of the merger, which I have endorsed, but we have also made the point that we feel that the chance should be seized to streamline the funding system of police authorities in Wales. It is an extremely complex way of funding, with money coming in and going out again, but that is what that money is about.

In terms of counting the numbers receiving free school meals, several Members have mentioned, over the past couple of weeks, instances in their own constituencies that they feel need to be looked at again. If someone wishes to make representations that the figures are not right, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills has confirmed that they should be looked at, just to make sure that people feel that that is fair.

On Janet Ryder's contribution, which picked up some of the things that Peter Black and Jenny Randerson said, this is new money.

Weinidog osgoi prosesau craffu fel hyn.

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Codwyd nifer o bwyntiau, a cheisiaf gysylltu rhai ohonynt. I ddechrau, hoffwn ddiolch i Nick am ei gyfraniad ystyriol. Gwnaf fy ngorau i ateb y pwyntiau a wnaeth. O ran yr arian sy'n mynd i'r gyllideb cyfiawnder cymdeithasol, byddai wedi bod yn braf pe bai rhywun wedi dweud, 'Mae'r arian hwn yn newyddion da iawn', oherwydd mae'r arian hwn yn mynd yn syth i'r rheng flaen i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny sydd ag arnynt ei angen fwyaf, i ddilyn cynlluniau sy'n gweithio'n arbennig o dda mewn ysgolion, ac i ddwysáu ac ehangu'r cynlluniau hynny. Dyna'r arian a aeth drwy'r gyllideb cyfiawnder cymdeithasol.

**Leanne Wood:** A dderbyniwch ymyriad?

**Sue Essex:** Na wna, mae gennyf lawer o bwyntiau i ymateb iddynt, Leanne, ac ni fyddaf yn gallu mynd drwyddynt i gyd.

O ran y pwyntiau am yr heddlu, mae'r arian sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan yn gysylltiedig â chymhlethdodau system ariannu'r heddlu. Fel y gwyddoch, gwnaeth Edwina Hart rai sylwadau am gostau uno, ac yr wyf wedi'u cefnogi. Ond yr ydym hefyd wedi nodi ein bod yn credu y dylid bachu ar y cyfle i symleiddio system ariannu awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Mae'n ffordd gymhleth iawn o ariannu, gydag arian yn dod i mewn ac yn mynd allan eto, ond dyna yw pwrpas yr arian hwnnw.

O ran cyfrif y niferoedd sy'n cael cinio ysgol am ddim, mae nifer o Aelodau wedi sôn, yn ystod yr ychydig o wythnosau diwethaf, am achosion yn eu hetholaethau eu hunain y maent yn credu bod angen edrych arnynt eto. Os bydd rhywun am wneud sylwadau nad yw'r ffigurau'n gywir, mae'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cadarnhau y dylid edrych arnynt, dim ond er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo bod hynny'n deg.

O ran cyfraniad Janet Ryder, a gyfeiriodd at rai o'r pethau a grybwyllodd Peter Black a Jenny Randerson, arian newydd yw hwn. Yn



Interestingly, Jane and I have had considerable discussions about how we achieve for the underachievers. We know that, in education terms, we have made huge strides in Wales. We are not getting enough success from those youngsters who are trapped in an underachievement trap. When the question of allocating the money arose and when the transference came across the block—and it was good news from Gordon Brown, yet again—I was happy to say that the bulk of the allocation should make a start. I want to make sure that we make a start at trying to address the underachievement issue because it is a blot on a civilised society. I think that we all feel strongly about this.

To pick up on Jenny's point about the process, I would have preferred not to have used this process, but it was just one of those timing issues. The budget announcement from Gordon Brown came late in March, towards the end of the second session. There was a lot of pressure on us to make speedy decisions, and as you know, there were a lot of representations on the education side. We looked at the Standing Orders; we could not go through the process of putting that budget through in that financial year and follow Standing Orders. That is reality of it. Therefore, I am doing this now in a MEG-to-MEG motion.

You must accept that, when we get this money, there are occasions when a Government is faced with pressure to make quick decisions. I hope that, by coming forwards today, you will take my word that that was the approach that we felt that we had to make. As I said, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills has gone through some of the education points in detail in about an hour's session in the Education, Lifelong Learning and Skills Committee.

I do not believe that there is any point in my going into huge detail. Many questions have been raised; I will pick up on some of the main themes. Free school meals were brought forward as an indicator—and it is based on eligibility, not on pure take-up—because of

ddiddorol ddigon, mae Jane a minnau wedi cael trafodaethau sylweddol am y ffordd yr ydym yn cyflawni ar gyfer y rheini sy'n tangyflawni. Gwyddom, o ran addysg, ein bod wedi cymryd camau breision yng Nghymru. Nid ydym yn gweld digon o lwyddiant gan y bobl ifanc hynny sydd wedi'u dal mewn cylch o dangyflawni. Pan gododd y cwestiwn o ddyrannu'r arian, a phan gafodd yr arian ychwanegol ei drosglwyddo i'r bloc—a newyddion da a gafwyd gan Gordon Brown, unwaith eto—yr oeddwn yn falch dweud y byddai'r rhan fwyaf o'r dyraniad yn ddechrau da. Yr wyf am sicrhau ein bod yn dechrau'r gwaith o geisio mynd i'r afael â phroblem tangyflawni, oherwydd mae'n destun cywilydd i gymdeithas waraidd. Credaf ein bod bob un yn teimlo'n gryf am hyn.

I ddychwelyd at bwynt Jenny am y broses, byddai wedi bod yn well gennyf beidio â defnyddio'r broses hon, ond yr amseriad oedd y broblem. Daeth cyhoeddiad y gyllideb gan Gordon Brown ddiwedd mis Mawrth, tuag diwedd yr ail sesiwn. Yr oedd llawer o bwysau arnom i wneud penderfyniadau'n gyflym, ac fel y gwyddoch, cafwyd nifer o sylwadau gan yr ochr addysg. Edrychwyd ar y Rheolau Sefydlog; ni allem fynd drwy'r broses o gyflwyno'r gyllideb honno yn y flwyddyn ariannol honno a dilyn y Rheolau Sefydlog. Dyna'r gwirionedd. Felly, yr wyf yn gwneud hyn yn awr mewn cynnig i drosglwyddo rhwng prif grwpiau gwariant.

Rhaid ichi dderbyn, pan gawn yr arian hwn, fod yna adegau pan fydd Llywodraeth yn wynebu pwysau i wneud penderfyniadau cyflym. Fy ngobaith yw y byddwch, gan imi ddod ger eich bron heddiw, yn cymryd fy ngair mai dyna'r dull yr oeddem yn teimlo ei bod yn rhai inni ei ddefnyddio. Fel y dywedais, mae'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi mynd drwy rai o'r pwyntiau ynglŷn ag addysg yn fanwl mewn sesiwn o tuag awr yn y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Ni chredaf fod diben imi fynd drwy unrhyw bwynt yn fanwl iawn. Mae nifer o gwestiynau wedi eu codi; a thrafodaf rai o'r prif themâu. Cyflwynwyd cinio ysgol am ddim fel dangosydd—ac mae'n seiliedig ar gymhwysedd, nid ar niferoedd yn unig—

the work of Estyn and the Joseph Rowntree Foundation, which showed that it is a good proxy for disadvantaged children. This money is about children, Peter. It may be going to schools, because that is where free school meals, and other underachievement, is easily managed and calculated. However, we want to follow this process, and see how we can follow it, and how we can support the children who are most in need and are underachieving.

**Peter Black:** If you accept that the money is going on a specific activity, in some instances, it will go to schools that are struggling with their core funding. They will have to have greater class sizes, and yet we are using this money, so those children will be gaining on the one hand and losing out on the other.

**Sue Essex:** I do not know exactly where that argument is going; I can face your efficiency one. If you would like to write to Jane and me, we will look at that again. However, one argument that was mentioned was, 'Oh, well, the school might close'. This money is primarily to support those children in terms of learning. It is not necessarily to go into the fabric of the building; it is about the help and support that individual children need. We must—and I say this as Finance Minister—look at ways and methods in which we can target those resources to the children who are most in need. We had to make a quick decision, and we are all content with that. I have lost count of the formulae that have come up with which someone does not have some gripe or other. My challenge to everyone is to come up with something better; I am prepared to listen.

**Karen Sinclair:** As John Marek declined to answer my simple question to him—and you will know that I questioned figures and statistics in the Wrexham area—will you clarify whether you have had any representation from John Marek, other than the hot air that he spat out in the Chamber today, whether by e-mail, letter or spoken word about the Wrexham area?

**Sue Essex:** I have had many representations, but I do not remember any representation

oherwydd gwaith Estyn a Sefydliad Joseph Rowntree, a ddangosodd ei fod yn gyfrwng da i allu nodi plant difreintiedig. Mae'r arian hwn yn ymwneud â phlant, Peter. Efallai mai i ysgolion y mae'n mynd, am mai dyna ble y caiff prydau ysgol am ddim, ynghyd â thangyflawniadau eraill, eu rheoli a'u cyfrifo'n rhwydd. Fodd bynnag, yr ydym am ddilyn y broses hon, a gweld sut y gallwn ei dilyn, a sut y gallwn gynorthwyo'r plant sydd fwyaf mewn angen ac sy'n tangyflawni.

**Peter Black:** Os ydych yn derbyn y caiff yr arian ei wario ar weithgarwch penodol, mewn rhai achosion bydd yn mynd i ysgolion sy'n cael trafferthion gyda'u harian craidd. Bydd angen iddynt gael dosbarthiadau mwy o faint, ac eto yr ydym yn defnyddio'r arian hwn, felly bydd y plant hynny ar eu hennill ar y naill law ac ar eu colled ar y llaw arall.

**Sue Essex:** Ni wn yn union i ba gyfeiriad y mae'r ddadl honno yn mynd; gallaf wynebu eich dadl ar effeithlonrwydd. Os hoffech ysgrifennu at Jane a minnau, byddwn yn ystyried hynny eto. Fodd bynnag, un ddadl a godwyd oedd, 'O, wel, efallai y bydd yr ysgol yn cau'. Prif ddiben yr arian hwn yw cynorthwyo'r plant hynny o ran dysgu; nid yw o anghenraid ar gyfer adeiladwaith ysgolion. Mae'n ymwneud â helpu a chynorthwyo'r plentyn unigol sydd mewn angen. Rhaid inni edrych—a dywedaf hyn fel y Gweinidog Cyllid—ar y ffordd y gallwn dargedu'r adnoddau hynny i'r plant sydd fwyaf mewn angen. Yr oedd yn rhaid inni wneud penderfyniad cyflym, ac yr ydym i gyd yn fodlon ar hynny. Ni allaf gofio faint o fformiwlâu sydd wedi eu hawgrymu pan nad oedd rhywun yn anfodlon ar ryw agwedd arnynt. Fy her i bawb yw awgrymu rhywbeth gwell; yr wyf yn fodlon gwranddo.

**Karen Sinclair:** Gan fod John Marek wedi gwrthod ateb fy nghwestiwn syml iddo—a gwyddoch fy mod wedi amau ffigurau ac ystadegau yn ardal Wrecsam—a wnewch chi egluro a ydych wedi cael unrhyw sylwadau gan John Marek, ac eithrio'r malu awyr yn y Siambr heddiw, naill ai drwy e-bost, llythyr neu ar lafar am ardal Wrecsam?

**Sue Essex:** Cefais nifer o sylwadau, ond ni allaf fi, na'm cyd-Weinidog Jane Davidson,

from John Marek, and neither does my colleague, Jane Davidson. gofio unrhyw sylwadau gan John Marek.

I will wind up now, as there are other pressures on our time. This extra money is good news. I do not think that anyone here has argued against the distribution of that extra funding that we had from Gordon Brown. Therefore, we have made the right decisions. There may be arguments around the formula, but there always are. As I said, this is the beginning of a major effort to tackle underachievement. I am sure that those discussions about distributing money with the local government association, and with all sorts of organisations, will carry on apace. In the meantime, it is important that that money gets to the front line. That is why the decision was made, across the piece, in education, dentistry, and the social justice field. This money is needed. I feel strongly that we made that decision in good faith to ensure that money was going to the front line, and that will indeed happen if everyone agrees to this motion.

Dof i ben yn awr, gan fod galwadau eraill ar ein hamser. Mae'r arian ychwanegol hwn yn newyddion da. Ni chredaf fod neb yma wedi dadlau yn erbyn dosbarthu'r arian ychwanegol hwnnw a gawsom gan Gordon Brown. Felly, yr ydym wedi gwneud y penderfyniad cywir. Efallai y bydd dadleuon ynglŷn â'r fformiwla, ond mae hynny'n digwydd bob tro. Fel y dywedais, dyma ddechrau ar ymdrech fawr i fynd i'r afael â thangyflawni. Yr wyf yn siŵr y bydd y trafodaethau hynny am ddsbarthu arian gyda'r gymdeithas llywodraeth leol, a chyda pob math o sefydliadau, yn parhau. Yn y cyfamser, mae'n bwysig fod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen. Dyna pam y gwnaethpwyd y penderfyniad, yn gyffredinol, mewn addysg, deintyddiaeth a maes cyfiawnder cymdeithasol. Mae angen yr arian hwn. Teimlaf yn gryf inni wneud y penderfyniad hwnnw yn ffyddiog i sicrhau y byddai'r arian yn cyrraedd y rheng flaen, a bydd hynny'n sicr o ddigwydd os bydd pawb yn cytuno i'r cynnig hwn.

*Cynnig (NDM3040): O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3040): For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise

Isherwood, Mark  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Y Diwydiant Gweithgynhyrchu The Manufacturing Industry**

Motion (NDM3041): to propose that

Cynnig (NDM3041): cynnig bod

*the National Assembly for Wales:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. notes the increasing strength of competition within the manufacturing sector globally;*

*1. yn nodi cryfder cynyddol y gystadleuaeth yn y sector gweithgynhyrchu yn fyd-eang;*

*2. recognises the continuing need for the manufacturing sector in Wales to position itself to take advantage of the global situation;*

*2. yn cydnabod yr angen parhaus i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru roi ei hun mewn sefyllfa i fanteisio ar y sefyllfa fyd-eang;*

*3. endorses the need for continued public sector support for the sector in Wales.*

*3. yn cadarnhau'r angen i roi cefnogaeth barhaus gan y sector cyhoeddus i'r sector yng Nghymru.*

Amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. In point 2, after 'global situation', insert:

Gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl 'sefyllfa fyd-eang':

*and, in the light of the limited availability of footloose international companies in the manufacturing sector, recognises the growing importance of indigenous small and medium-sized enterprises and urges the*

*ac, yng ngoleuni'r nifer gyfyngedig o gwmpniau rhyngwladol troedrydd yn y sector gweithgynhyrchu, yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol busnesau bach a chanolig eu maint cynhenid ac yn annog y Llywodraeth i*

- Government to take proactive steps to help existing manufacturing SMEs in Wales to expand and new ones to be established;* *gymryd camau rhagweithiol i helpu'r BBaCh yn y maes gweithgynhyrchu yng Nghymru i ehangu ac i sefydlu rhai newydd;*
- Amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. In point 3, after 'Wales', insert: *Gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 3, cynnwys ar ôl 'Cymru':*
- and therefore recognises the need for a more focused and strategic approach to the use of EU funding.* *ac felly'n cydnabod yr angen am ddull gweithredu mwy strategol a phenodol at y defnydd o gyllid yr UE.*
- Amendment 3 in the name of Kirsty Williams. Add as a new point at the end of the motion: *Gwelliant 3 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
- target investment at growth industries and industries of the future.* *yn targedu buddsoddiad at ddiwydiannau twf a diwydiannau'r dyfodol.*
- Amendment 4 in the name of Kirsty Williams. Add as a new point at the end of the motion: *Gwelliant 4 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
- recognises that Wales's manufacturing position would be strengthened by membership of the euro.* *yn cydnabod y byddai safle Cymru o ran gweithgynhyrchu'n cael ei gryfhau drwy aelodaeth o'r ewro.*
- Amendment 5 in the name of Lisa Francis. Add as a new point at the end of the motion: *Gwelliant 5 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
- regrets the drop in manufacturing output in Wales while the sector in the rest of the UK is growing, and expresses concern at falls in the index of production, construction, manufacturing and the value of exports, as well as the increase in unemployment over the last 12 months, and calls on the Welsh Assembly Government to recognise its failures and revise its strategies accordingly.* *yn gresynu at y gostyngiad yn y cynnyrch gweithgynhyrchu yng Nghymru tra bo'r sector yng ngweddill y DU yn tyfu, ac yn mynegi pryder am ostyngiadau yn y mynegai cynhyrchu, adeiladu, gweithgynhyrchu ac yng ngwerth allforion, a hefyd y cynnydd mewn diweithdra dros y 12 mis diwethaf, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod ei methiannau ac adolygu ei strategaethau yn unol â hynny.*
- Amendment 6 in the name of Lisa Francis. Add as a new point at the end of the motion: *Gwelliant 6 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
- calls upon the Welsh Assembly Government to undertake appropriate and regular surveys of employers in the manufacturing industry and to take action accordingly to ensure the upskilling of employees within the sector.* *yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal arolygon priodol a rheolaidd o gyflogwyr yn y diwydiant gweithgynhyrchu a gweithredu yn unol â hynny i sicrhau bod sgiliau'r gweithwyr yn y sector yn cael eu gloywi.*
- Amendment 7 in the name of Jocelyn Davies. Add as a new point at the end of the motion: *Gwelliant 7 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
- calls on the Welsh Assembly Government, in* *yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru,*

*view of its commitment to sustainability, to introduce new policies to help the manufacturing sector in Wales to reduce its energy consumption and maximize its recycling capacity in order to lessen the carbon footprint emanating from this sector, without undermining its growth potential.*

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 7 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 3 a 4 yn enw Kirsty Williams, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Lisa Francis.

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** I propose that:

*the National Assembly for Wales:*

*1. notes the increasing strength of competition within the manufacturing sector globally;*

*2. recognises the continuing need for the manufacturing sector in Wales to position itself to take advantage of the global situation;*

*3. endorses the need for continued public sector support for the sector in Wales. (NDM3041)*

4.20 p.m.

Manufacturing is a core part of the Welsh economy, providing around 14 per cent of all jobs in Wales and, at over 19 per cent, making the greatest contribution of any sector to Wales gross value added. However, manufacturing, particularly the automotive sector with its problem of overcapacity, continues to be subject to immense ongoing competitive pressure. Monday's announcement by Continental AG, this morning's news about the Vauxhall plant at Ellesmere Port, and uncertainty over the Welsh plants of Visteon UK Ltd and Krupp Camford Pressings Ltd underline the continuing structural change within the sector. Yet parts of the manufacturing sector continue to thrive, such as Airbus in Broughton in Flintshire, and that is testimony to the innovation and flexibility of the Welsh

*ying ngoleuni ei hymrwymiad i gynaliadwyedd, i gyflwyno polisiau newydd i helpu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru i ddefnyddio llai o ynni ac ailgylchu hyd eithaf eu gallu er mwyn lleihau'r ôl-troed carbon sy'n deillio o'r sector hwn, heb danseilio ei botensial ar gyfer twf.*

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 7 in the name of Jocelyn Davies, amendments 3 and 4 in the name of Kirsty Williams, and amendments 5 and 6 in the name of Lisa Francis.

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi cryfder cynyddol y gystadleuaeth yn y sector gweithgynhyrchu yn fyd-eang;*

*2. yn cydnabod yr angen parhaus i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru roi ei hun mewn sefyllfa i fanteisio ar y sefyllfa fyd-eang;*

*3. yn cadarnhau'r angen i roi cefnogaeth barhaus gan y sector cyhoeddus i'r sector yng Nghymru. (NDM3041)*

Mae gweithgynhyrchu yn rhan ganolog o economi Cymru, yn darparu tua 14 y cant o holl swyddi Cymru ac yn cyfrannu dros 19 y cant, sef y cyfraniad mwyaf gan unrhyw sector yng Nghymru at werth ychwanegol crynswth. Fodd bynnag, mae gweithgynhyrchu, yn arbennig y sector modurol gyda'i broblem o orgynhyrchu, yn parhau i wynebu pwysau cystadleuol mawr. Mae cyhoeddiad Continental AG ddydd Llun, y newyddion y bore yma am waith Vauxhall yn Ellesmere Port, ac ansicrwydd am weithfeydd Visteon UK Ltd a Krupp Camford Pressings Ltd yng Nghymru yn tanlinellu'r newid strwythurol parhaus yn y sector. Ond mae rhannau o'r sector gweithgynhyrchu'n dal i ffynnu, megis Airbus ym Mrychdyn yn sir y Fflint, ac mae hynny'n dyst i arloesedd a hyblygrwydd y

workforce.

Manufacturing in Wales has been a major priority for this Government and the UK Government for many years and, as well as sustaining our traditional base, we are supporting moves towards higher value-added activities. Last year, for example, financial aid under the regional selective assistance and Assembly investment grant schemes totalled over £55 million, assisting 220 individual manufacturing projects, with the prospect of creating over 4,000 new jobs and safeguarding a further 2,700. On the training front, we have provided support for modern apprentices in engineering and manufacturing to win over 3,000 national vocational qualification awards. Increasingly, we have helped the sector to help itself; for instance, by supporting sectoral fora for key manufacturing sectors, such as the automotive, aerospace and electronics sectors. These fora are now well established and have proved their worth in helping those particular sectors to respond to the increasing competitive challenge that they face.

Last year, in the wake of the MG Rover crisis, the automotive taskforce was reconstituted and led by the Welsh Automotive Forum, supported by the Assembly Government. It played a key role in assisting companies to secure the support available to the supply chain. Accelerate Wales, another Assembly Government-funded programme helps automotive companies to improve performance as well as diversify their customer base, and that has been extremely successful. As a result, last year's crisis following MG Rover's demise proved to be far smaller than anticipated, with only three companies with more than 15 per cent of their turnover remaining with MG Rover. That is a significant reduction from the position five years earlier, and that process continues.

In addition, the impact of these structural changes on the supply chain in Wales is monitored, managed and therefore minimised. Welsh suppliers now have a much better spread of risk in their customer

gweithlu yng Nghymru.

Mae gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi bod yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon a Llywodraeth y DU ers blynyddoedd lawer, ac yn ogystal â chynnal ein sail draddodiadol yr ydym yn cefnogi symudiadau tuag at weithgareddau sydd â gwerth uwch. Y llynedd, er enghraifft, rhoddwyd dros £55 miliwn o gymorth ariannol o dan y cymorth rhanbarthol dewisol a chynlluniau grant buddsoddi'r Cynulliad, gan gynorthwyo 220 o brosiectau gweithgynhyrchu unigol, gyda'r posibilrwydd o greu dros 4,000 o swyddi newydd a diogelu 2,700 o swyddi eraill. O ran hyfforddiant, yr ydym wedi rhoi cymorth i brentisiaethau modern y maes peirianeg a gweithgynhyrchu i ennill dros 3,000 o gymwysterau galwedigaethol cenedlaethol. Yr ydym yn gynyddol wedi helpu'r sector i helpu ei hun; er enghraifft, drwy gefnogi fforymau sectoraidd ar gyfer sectorau gweithgynhyrchu allweddol, megis y sectorau modurol, awyrofod ac electroneg. Mae'r fforymau hyn bellach wedi hen sefydlu ac wedi profi eu gwerth i helpu'r sectorau hynny i ymateb i'r her gystadleuol gynyddol sy'n eu hwynebu.

Y llynedd, yn sgîl argyfwng MG Rover, ailgynllunwyd y tasglu modurol o dan arweiniad Fforwm Modurol Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr oedd iddo ran allweddol wrth gynorthwyo cwmnïau i sicrhau'r cymorth sydd ar gael i'r gadwyn gyflenwi. Mae Sbardun Cymru, rhaglen arall a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn helpu cwmnïau modurol i wella perfformiad yn ogystal ag amrywio'u cwsmeriaid, ac mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, yr oedd yr argyfwng y llynedd yn dilyn tranc MG Rover yn llai nag a ddisgwyliwyd, a thri chwmni'n unig gyda thros 15 y cant o'u trosiant a oedd yn dal gydag MG Rover. Mae hynny'n ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa bum mlynedd yn gynharach, ac mae'r broses honno'n parhau.

Yn ogystal, caiff effaith y newidiadau strwythurol hyn ar y gadwyn gyflenwi yng Nghymru ei monitro, ei rheoli ac felly ei lleihau i'r eithaf. Mae cyflenwyr yng Nghymru bellach yn agored i risg fwy

base, partly as a result of the interventions that we as a Government have made. Through our co-funding with the Department of Trade and Industry and the Welsh manufacturing advisory service, MAS Cymru, we continue to promote innovation across the sector. This highly valued service is proving invaluable in helping Welsh small and medium-sized enterprises to improve their competitive performance.

Despite these improvements, the growth of China and India involves sustained competitive pressure, and multinational companies are making new manufacturing investments in countries that have recently joined the European Union, as we saw in Monday's announcement by Continental Teves Ltd in Ebbw Vale. These changes reflect the new global order and, as such, are not within our control. However, in recent years, the Welsh economy has performed extremely well: gross value added per head, gross disposable household income per head, and average weekly earnings in Wales have all grown faster than the UK average since 2001. Only the east of England in the UK has seen a bigger increase than Wales over this period. Unemployment still remains, as it has done over most of the last three years, below the UK average.

gwasgaredig o dipyn oherwydd eu sylfaen o gwsmeriaid, yn rhannol o ganlyniad i'r ymyriadau gennym ni fel Llywodraeth. Drwy ein gwaith o gyd-ariannu gyda'r Adran Masnach a Diwydiant a gwasanaeth cynghori gweithgynhyrchu Cymru, MAS Cymru, yr ydym yn parhau i hybu arloesi ar draws y sector. Caiff y gwasanaeth hwn ei werthfawrogi'n fawr ac mae'n gymorth gwerthfawr i fusnesau bach a chanolig wella'u perfformiad cystadleuol.

Er gwaetha'r gwelliannau hyn, mae twf China ac India yn rhoi pwysau cystadleuol parhaus, ac mae cwmnïau amlwladol yn gwneud buddsoddiadau gweithgynhyrchu newydd mewn gwledydd sydd wedi ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn ddiweddar, fel y gwelsom yn y cyhoeddiad ddydd Llun gan Continental Teves Ltd yng Nglynebwy. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchiad o'r drefn fyd-eang newydd, ac fel y cyfryw ni allwn eu rheoli. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae economi Cymru wedi perfformio'n hynod dda: mae gwerth ychwanegol crynswth y pen, incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen ac enillion wythnosol cyfartalog Cymru wedi tyfu'n gyflymach na'r cyfartaledd yn y DU er 2001. Dim ond dwyrain Lloegr yn y DU sydd wedi gweld mwy o gynnydd na Chymru dros y cyfnod hwn. Mae diweithdra'n parhau, fel y mae wedi parhau am y rhan fwyaf o'r tair blynedd diwethaf, yn is na'r cyfartaledd yn y DU.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.24 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.24 p.m.*

Manufacturing continues to play a vital role in the successful performance of the Welsh economy, and we are determined to support the sector in the changes that it needs to make. That involves dialogue with business and the private sector, and that is why, in 2004, I set up the manufacturing task and finish group, chaired by Colin Johnson, the former plant manager of the Ford engine plant at Bridgend, to look at what more could be done to assist the sector, and how we could fine-tune and improve our support. It will come as no surprise that the group identified the training and development of the Welsh workforce as one key issue, reflecting the vital role played by knowledge in today's

Mae gweithgynhyrchu yn parhau yn rhan hanfodol o berfformiad llwyddiannus economi Cymru, ac yr ydym yn benderfynol o gynorthwyo'r sector yn y newidiadau y mae angen iddo'u gwneud. Mae hynny'n cynnwys cael trafodaethau gyda busnesau a'r sector preifat, a dyna pam y sefydlais y grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgynhyrchu yn 2004, gan gadeiryddiaeth Colin Johnson, cyn-reolwr gwaith peiriannau Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i weld beth y gellid ei wneud yn ychwanegol i gynorthwyo'r sector, a sut y gallem fireinio a gwella ein cymorth. Ni fydd neb yn synnu bod y grŵp wedi nodi mai un mater allweddol yw hyfforddi a datblygu gweithlu Cymru, i adlewyrchu rôl



products and services.

My ministerial colleague, Jane Davidson, and I have responded positively through the skills and employment action plan and the increasing emphasis on work-based learning. The task and finish group said that it wanted a more integrated and joined-up approach between business support and training support. I believe that we have made considerable improvements in that respect, and even more will flow from Jane Davidson's and my new merged departments. I have been able to report good progress made against other recommendations, including investment in infrastructure and support for other investments, as well as increasing the focus on regulation and reducing regulation.

**John Griffiths:** Do you agree that the steel industry has a strong role to play in the economy of Wales? In my constituency of Newport East, we are seeing strong investment and recruitment in the steel industry and, of course, it is very highly skilled and high-tech work. Do you agree that it has a strong role to play in the future of the economy of Wales?

**Andrew Davies:** Yes, indeed, and I think that the industry would attest to the fact that, as a Government, we have supported it even given the constraints placed on us by European Union state aid issues. We work closely with the industry. Corus is the predominant employer, but we have also worked closely with Celsa, Alpha Steel and others. The steel industry has certainly transformed its operations. Many of the operators are now some of the most efficient in the whole of the European Union. However, just as in other manufacturing sectors, they face huge global competitive pressures, and, wherever we can, we will help them to address and overcome those pressures.

Following my request, the manufacturing task and finish group continued to meet throughout 2005, and has recommended the creation of a new manufacturing forum, involving industrialists, members of the trade

hanfodol gwybodaeth mewn cynhyrchu a gwasanaethu heddiw.

Mae fy nghyd-Weinidog Jane Davidson a minnau wedi ymateb yn gadarnhaol drwy'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth, a'r pwyslais cynyddol ar ddysgu'n seiliedig ar waith. Dywedodd y grŵp gorchwyl a gorffen ei fod am gael dull mwy integredig a chydgyssylltiedig rhwng cymorth i fusnesau a chymorth hyfforddi. Credaf inni wneud gwelliannau sylweddol yn y maes hwnnw, a bydd hyd yn oed mwy yn llifo o adran Jane Davidson a'm hadran innau sydd newydd uno. Yr wyf wedi gallu adrodd am gynnydd da yn erbyn argymhellion eraill, gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith a chymorth i fuddsoddiadau eraill, yn ogystal â chanolbwyntio mwy ar reoliadau a lleihau rheoleiddio.

**John Griffiths:** A gytunwch fod i'r diwydiant dur ran gref yn economi Cymru? Yn fy etholaeth i yn Nwyrain Casnewydd yr ydym yn gweld buddsoddi a recriwtio mawr yn y diwydiant dur, ac wrth gwrs, mae'n waith sy'n galw am sgiliau da iawn a sgiliau uwchdechnoleg. A gytunwch fod iddo ran gref yn nyfodol economi Cymru?

**Andrew Davies:** Oes, yn bendant, a chredaf y byddai'r diwydiant yn tystio i'r ffaith ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi ei gefnogi hyd yn oed o gofio'r cyfyngiadau a roddwyd arnom o ran cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant. Corus yw'r prif gyflogwr, ond yr ydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Celsa, Alpha Steel ac eraill. Mae'r diwydiant dur yn sicr wedi trawsnewid ei ffyrdd o weithredu. Mae nifer o'r gweithredwyr bellach gyda'r mwyaf effeithiol yn yr Undeb Ewropeaidd gyfan. Fodd bynnag, fel y sectorau gweithgynhyrchu eraill, maent yn wynebu pwysau cystadleuol byd-eang a byddwn yn eu cynorthwyo, ble bynnag y gallwn, i wynebu'r pwysau hynny a'u gorchfygu.

Ar fy nghais i, parhaodd y grŵp gorchwyl a gorffen i gwrdd drwy gydol 2005 ac mae wedi argymhell llunio fforwm gweithgynhyrchu newydd, sy'n cynnwys diwydianwyr, aelodau undebau llafur a

unions and business support organisations, such as the Confederation of British Industry and the Engineers Employers' Federation, along with representatives of the relevant sector skills councils. This will concentrate upon issues of generic concern to the sector, including the image of manufacturing, recruitment, skills, and the important area of improving public sector procurement. It is important for this new forum to work closely with the UK manufacturing forum, and exploratory discussions have been held with the DTI to establish how best to effect links. The existing sectoral fora will, of course, continue their work, supported by the Assembly Government, and will develop new strategies concerning design, logistics and fulfilment, technical support and associated business support services.

sefydliadau cymorth busnes, megis Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianwyr, ynghyd â chynrychiolwyr o'r cynghorau sgiliau sector perthnasol. Bydd hwn yn canolbwyntio ar faterion sydd o bwys cyffredinol i'r sector, gan gynnwys delwedd gweithgynhyrchu, recriwtio, sgiliau a'r maes pwysig o wella caffael yn y sector cyhoeddus. Mae'n bwysig i'r fforwm newydd hwn gydweithio'n agos â fforwm gweithgynhyrchu'r DU, ac mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r Adran Masnach a Diwydiant i sefydlu sut orau i greu cysylltiadau. Bydd y fforymau sectoraidd presennol yn parhau eu gwaith, wrth gwrs, gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, a byddant yn datblygu strategaethau newydd yn ymwneud â dylunio, logisteg a chyflawni, cymorth technegol a gwasanaethau cymorth busnes cysylltiedig.

There are signs of a fragile recovery in the global manufacturing sector. For example, the CBI's March monthly trends survey indicated this. While it is a fragile recovery, with our support, I believe that manufacturing in Wales will continue to develop a strong competitive advantage, and position itself to take advantage of this global upturn.

Mae yna arwyddion gwelliant bregus yn y sector gweithgynhyrchu byd-eang. Er enghraifft, dangoswyd hyn yn arolwg tueddiadau misol y CBI ym mis Mawrth. Er mai gwella bregus ydyw, credaf y bydd gweithgynhyrchu yng Nghymru, gyda'n cefnogaeth ni, yn parhau i ddatblygu mantais gystadleuol gref, ac yn gosod ei hun mewn sefyllfa i fanteisio ar y gwelliant byd-eang hwn.

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: Ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl 'sefyllfa fyd-eang':

**Alun Ffred Jones:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: In point 2, after 'global situation', insert:

*ac, yng ngoleuni'r nifer gyfyngedig o gwmnïau rhyngwladol troedrydd yn y sector gweithgynhyrchu, yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol busnesau bach a chanolig eu maint cynhenid ac yn annog y Llywodraeth i gymryd camau rhagweithiol i helpu'r BBaCh yn y maes gweithgynhyrchu yng Nghymru i ehangu ac i sefydlu rhai newydd;*

*and, in the light of the limited availability of footloose international companies in the manufacturing sector, recognises the growing importance of indigenous small and medium-sized enterprises and urges the Government to take proactive steps to help existing manufacturing SMEs in Wales to expand and new ones to be established;*

Gwelliant 2: Ym mhwynt 3, cynnwys ar ôl 'Cymru':

Amendment 2: In point 3, after 'Wales', insert:

*ac felly'n cydnabod yr angen am ddull gweithredu mwy strategol a phenodol at y defnydd o gyllid yr UE.*

*and therefore recognises the need for a more focused and strategic approach to the use of EU funding.*

Gwelliant 7: Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Amendment 7: Add as a new point at the end of the motion:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, yng ngoleuni ei hymrwymiad i gynaliadwyedd, i gyflwyno polisiau newydd i helpu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru i ddefnyddio llai o ynni ac ailgylchu hyd eithaf eu gallu er mwyn lleihau'r ôl-troed carbon sy'n deillio o'r sector hwn, heb danseilio ei botensial ar gyfer twf.*

*calls on the Welsh Assembly Government, in view of its commitment to sustainability, to introduce new policies to help the manufacturing sector in Wales to reduce its energy consumption and maximize its recycling capacity in order to lessen the carbon footprint emanating from this sector, without undermining its growth potential.*

Krupp Camford Pressings in Llanelli and Continental Teves Ltd yesterday; Vauxhall in Ellesmere Port today. No-one can be in any doubt that manufacturing businesses in the UK as a whole—and in Wales, of course—are fighting for their lives. In Wales, we have seen clothing manufacturers close virtually all of their plants in our towns. In the food processing industry—the supposed jewel in the crown—we are seeing plant after plant disappear. Some 70,000 jobs have gone in the manufacturing industry since Labour came to power, according to ONS figures.

Krupp Camford Pressings yn Llanelli a Continental Teves Ltd ddoe; Vauxhall yn Ellesmere Port heddiw. Ni all neb amau nad yw busnesau gweithgynhyrchu yn y DU gyfan—ac yng Nghymru, wrth gwrs—yn brwydro am eu heinioes. Yng Nghymru, yr ydym wedi gweld gweithgynhyrchwyr dillad yn cau fwy neu lai bob un o'u gweithfeydd yn ein trefi. Yn y diwydiant prosesu bwyd—ein trysor yn ôl pob sôn—fe welwn y naill waith ar ôl y llall yn diflannu. Mae tua 70,000 o swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu wedi eu colli ers i Lafur ddod i rym, yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Of course, there are global factors at work, as Andrew Davies pointed out, which mean that, on a practical level, no party in government can stop a company from closing or from going elsewhere in a free market. However, we are in the ninth year of a Labour Government, and we must ask whether the Labour administration in the Assembly is doing more than trying to manage the decline. It talks up the knowledge-based economy, but that is no comfort for a worker losing a well paid or a reasonably well paid job away from the M4 corridor or on Deeside.

Wrth gwrs, mae ffactorau byd-eang ar waith, fel y soniodd Andrew Davies, sy'n golygu na all yr un blaid lywodraethol, yn ymarferol, rwystro cwmni rhag cau na symud i rywle arall mewn marchnad rydd. Fodd bynnag, dyma nawfed flwyddyn Llywodraeth Lafur, a rhaid inni ofyn a yw'r weinyddiaeth Lafur yn y Cynulliad yn gwneud mwy na cheisio rheoli'r dirywiad. Mae'n canmol yr economi wybodaeth, ond nid yw hynny o ddim cysur i weithiwr sy'n gadael swydd sy'n talu'n dda neu'n gymharol dda mewn ardal ymhell o draffordd yr M4 neu Lannau Dyfrdwy.

Un peth y mae'n rhaid ei wneud yw creu a datblygu cwmnïau cynhenid. Wrth gwrs bod croeso i gwmnïau rhyngwladol llwyddiannus fel Euro/DPC Cyf yn fy etholaeth i, a ddaeth yno, gyda llaw, drwy ymdrechion fy rhagflaenydd, Dafydd Wigley, ac sydd, yn ddi-ddorol, wedi cael ei brynu yn ddiweddar gan gwmni arall o'r Almaen. Dylai'r pwyslais, ers degawdau, fod wedi bod ar ddatblygu cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yma yn naear Cymru—cwmnïau na fyddant yn diflannu dros y dŵr ar yr awel groes gyntaf.

One thing that has to be done is establish and develop indigenous companies. Of course successful global companies are welcome, such as Euro/DPC Ltd in my constituency, which, incidentally, invested there thanks to the efforts of my predecessor, Dafydd Wigley, and which, interestingly, was recently purchased by another German company. For decades, the emphasis should have been on developing companies with their roots in Wales—companies that will not disappear overseas at the first hint of an ill wind.

4.30 p.m.

Yr ydym yn croesawu ymdrech y Llywodraeth wrth greu'r rhaglen KB4B, un o'r syniadau a gymerwyd o fanifesto'r Blaid. Mae stori Continental Teves yn wers i ni. Yr oedd y gwaith yng Nglynebwy, yn ôl bob sôn, yn broffidiol—y mwyaf proffidiol yn y grŵp—ond y gwaith hwnnw sy'n cau, nid y gwaith yn yr Almaen. Dyna sydd yn dangos gwerth cwmnïau cynhenid. Mae'r Almaen yn dal i lwyddo i gynyddu ei sector gweithgynhyrchu er waethaf yr amgylchiadau economaidd byd-eang, yn groes i'n profiad ni.

Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau twf y tu allan i gorneli dwyreiniol y wlad. Mae'r strategaeth wledig, os oes yna un—nid wyf i wedi ei gweld—yn dadfeilio o flaen ein llygaid. Mae grym prynu'r archfarchnadoedd yn lladd ein diwydiannau prosesu bwyd a nid oes neb yn gwneud dim. Heb y rhain, pa ddyfodol fydd i'n ffermwyr ac i ran bwysig o'r economi wledig? Mae pryder gwirioneddol hefyd am y cronfeydd cydgyfeirio. Mae'n holl bwysig gofalu nad arian y cynllun datblygu gwledig yn unig sydd ar gael y tu allan i'r ardaloedd trefol. Dywedwn eto—ac mae Plaid Cymru wedi galw am hyn yn gyson—y dylai fod targedau rhanbarthol er mwyn ceisio mesur llwyddiant yr arian Ewropeaidd pan fydd yr ail raglen yn dechrau.

Wrth bwysleisio'r angen am swyddi o ansawdd, mae'n rhaid iddynt fod yn rhai cynaliadwy ac fe ddylid mesur pob prosiect yn erbyn ei effaith ar yr amgylchedd a'n hól troed amgylcheddol. Nid oes llawer o bwynt i siarad am hynny, os nad ydym yn ei weithredu mewn gwirionedd.

I welcome the steps taken by the Assembly Government and trade unions in Wales to create this high-skills job market, but ask, for the sake of my constituents and those in similarly affected regions, that the change comes faster still.

**Mark Isherwood:** Investment is attracted by flexibility, workplace skills, infrastructure and competitive levels of taxation and

maes. Y maes cyntaf yw gwerthu'n well i farchnadoedd yn Asia, lle yr ydym yn llusgo y tu ôl i'n partneriaid Ewropeaidd o ran manteisio ar y farchnad yn Tsieina, er enghraifft. Yr ail yw gwerthu'n well o ran caffael cyhoeddus; gadewch inni edrych ar yr enghraifft yn Ffrainc, lle y mae contractau gwaith cyhoeddus yn gysylltiedig â chael pobl leol economaidd anweithgar yn ôl i'r gwaith. Y trydydd yw gwerthu gweithgynhyrchu'n well fel diwydiant sydd â dyfodol. Nid sector brwnt sy'n darfod mohono. Mae'r cwmnïau hynny sy'n ehangu yn Nhor-faen yn pwysleisio'r pwynt hwn, a'r broses gynhyrchu yn dibynnu ar y dechnoleg gyfrifiadurol ddiweddaraf.

Yn sail i hyn oll mae'r agenda sgiliau. Fel y dywedodd Alan Johnson yn ddiweddar, mae India a Tsieina yn cynhyrchu 4 miliwn o raddedigion y flwyddyn, a nifer fach o'r rheini sy'n graddio mewn hanes canoloesol. Os ydym am gystadlu â'r farchnad sgiliau uchel, gwerth ychwanegol, yna mae'r rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n anelu at roi'r dechrau gorau i blant rhwng eu geni a'u pen-blwydd yn 3 oed mewn cymunedau difreintiedig, mor bwysig â mentrau datblygu economaidd fel 'Cymru: Economi yn Ffynnu'. Mae mwy o gysylltiadau a chysylltiadau gwell â busnesau drwy ysgolion yr un mor bwysig, gan fod cwmnïau'n dweud o hyd nad yw'r rheini sy'n gadael yr ysgol a'r brifysgol yn barod ar gyfer swyddi.

Mae dyfodol gan weithgynhyrchu yng Nghymru, ond nid yw hynny'r un fath â brwydro i gadw'r sefyllfa bresennol. Ni allwn gynnig y dewis i'n plant mwyach o fynd ar drywydd rhagoriaeth academiaidd neu gael swydd neu brentisiaeth weithgynhyrchu dda. Rhaid inni greu system lle y mae'r uchelgeisiau hyn yn cydfodoli.

Croesawaf y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac undebau llafur yng Nghymru i greu'r farchnad hon ar gyfer swyddi sgiliau uchel, ond gofynnaf, er lles fy etholwyr a'r rheini mewn rhanbarthau yr effeithir arnynt yn yr un modd, amn i'r newid ddod yn gyflymach fyth.

**Mark Isherwood:** Mae buddsoddi'n cael ei ddenu gan hyblygrwydd, sgiliau'r gweithle, seilwaith a lefelau cystadleuol o drethu a



regulation. However, since devolution, manufacturing has fallen from a position where it accounted for over 25 per cent of the Welsh economy to just 19 per cent this year. Over the last year alone, manufacturing jobs in Wales fell by 7,000, and Welsh unemployment rose back up to 5 per cent. Meanwhile, in one in five Welsh working-age households, no-one has a job.

We must be concerned by the growing dependence of the Welsh economy on public-sector spending rather than wealth generation. Public spending in Wales will be £13.6 billion by 2008, but Wales pays only £4.7 billion a year in tax. Treasury data shows that the proportion of economic activity in Wales generated by the public sector has risen from 47 per cent in 1998 to 55 per cent in 2004. In England, the figure is only 37 per cent and in Scotland, 48 per cent.

A Cardiff Business School professor told me that he finds it amazing that just about everyone he bumps into at conferences here works in the public sector. He went on to say that it is very kind of British taxpayers to spend all this money in our country.

As the general secretary of the Transport and General Workers' Union said today in response to job losses at Vauxhall in Ellesmere Port, where many Welsh residents work, 'manufacturing is being massacred'.

Gordon Brown inherited the best job-creation record in Europe and inward investment second only to the United States internationally. However, Labour's new burdens on business are eroding the competitiveness on which our future prosperity will depend.

**Jeff Cuthbert:** Mark, I am grateful to you for giving way. I have listened to you very carefully, as I did to Alun before you. Neither of you has yet—and this is reflected in your amendments—suggested what policies you would like to see implemented. When will you do that? Are we to assume that there will

rheoleiddio. Fodd bynnag, ers datganoli mae gweithgynhyrchu wedi gostwng o sefyllfa lle yr oedd yn cyfrif am fwy na 25 y cant o economi Cymru i ddim ond 19 y cant eleni. Yn ystod y llynedd yn unig, bu gostyngiad o 7,000 yn nifer y swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru, a chododd diweithdra yng Nghymru yn ôl i 5 y cant. Yn y cyfamser, mewn un teulu o bob pump o oedran gweithio yng Nghymru, nid oes gan neb swydd.

Rhaid inni bryderu ynghylch dibyniaeth gynyddol economi Cymru ar wariant y sector cyhoeddus, yn hytrach nag ar greu cyfoeth. Bydd gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn £13.6 biliwn erbyn 2008, ond dim ond £4.7 biliwn o drethi y flwyddyn y mae Cymru'n ei dalu. Dengys data'r Trysorlys fod cyfran y gweithgarwch economaidd yng Nghymru sy'n cael ei greu gan y sector cyhoeddus wedi codi o 47 y cant yn 1998 i 55 y cant yn 2004. Yn Lloegr dim ond 37 y cant yw'r ffigur, ac yn yr Alban 48 y cant.

Dywedodd athro yn Ysgol Fusnes Caerdydd wrthyf ei fod yn syfrdanu bod bron pawb y mae'n dod ar eu traws mewn cynadleddau yma yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Aeth yn ei flaen i ddweud bod trethdalwyr ym Mhrydain yn garedig iawn i wario'r holl arian hwn yn ein gwlad.

Fel y dywedodd ysgrifennydd cyffredinol Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol heddiw wrth ymateb i'r swyddi a gollwyd yn Vauxhall yn Ellesmere Port, lle y mae nifer o drigolion o Gymru yn gweithio, 'mae'r diwydiant gweithgynhyrchu yn cael ei ladd'.

Etifeddodd Gordon Brown y record orau yn Ewrop o greu swyddi a'r record orau yn rhyngwladol o fewnfuddsoddi, ar wahân i'r Unol Daleithiau. Fodd bynnag, mae pwysau newydd y blaid Lafur ar fusnesau yn erydu'r natur gystadleuol y bydd ein ffyniant yn y dyfodol yn dibynnu arni.

**Jeff Cuthbert:** Mark, yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Yr wyf wedi gwrandao arnoch yn astud, fel y gwrandewais ar Alun cyn hynny. Nid oes neb ohonoch hyd yma—ac adlewyrchir hyn yn eich gwelliannau—wedi awgrymu pa bolisiau yr hoffech weld eu gweithredu. Pryd fyddwch yn gwneud

be a repeat of the policies of the former Conservative Government, which led to hundreds of thousands of jobs being lost in the manufacturing industry, and 130,000 people being made unemployed in Wales?

hynny? A ddylem dybio yr ailadroddir polisiau'r hen Lywodraeth Geidwadol, a arweiniodd at golli cannoedd ar filoedd o swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu, a 130,000 o bobl yn cael eu diswyddo yng Nghymru?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Before you reply to that, Mark, I invite the Business Minister to propose an extension for one hour.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Cyn ichi ateb hynny, Mark, gwahoddaf y Trefnydd i gynneg estyniad o awr.

### **Cynnig Trefniadol Procedural Motion**

**The Business Minister (Jane Hutt):** I propose that

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigaf fod

*the National Assembly for Wales, under Standing Order No. 6.21(iii), extends Plenary until 6.30 p.m..*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21(iii), yn estyn Cyfarfod Llawn heddiw tan 6.30 p.m..*

*Cynnig trefniadol: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 4.  
Procedural motion: For 29, Abstain 0, Against 4.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jones, Ann  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Pugh, Alun  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda

Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Lewis, Huw  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

## **Y Diwydiant Gweithgynhyrchu: Parhad** **The Manufacturing Industry: Continued**

**Mark Isherwood:** I am glad, Jeff, that you spoke in the present tense, and asked what we will do. When we are in Government, we will follow truth with the economy rather than economy with the truth.

**Mark Isherwood:** Yr wyf yn falch, Jeff, ichi siarad yn yr amser presennol, a gofyn beth fyddwn yn ei wneud. Pan fyddwn yn y Llywodraeth, byddwn yn rhoi'r gwirionedd cyn yr economi, yn hytrach na'r economi cyn y gwirionedd.

5.00 p.m.

I will start by recognising that, according to Cardiff Business School in the 1980s and early 1990s, Wales was one of the top recipients of inward investment in the whole of Europe. However, since 1997, the UK has fallen from fourth to thirteenth position in the global competitiveness league and, within the UK, Wales has fallen from first to ninth position in terms of inward investment. In fact, Gordon Brown got his tax, spend, borrowing and growth forecasts all wrong. The reality is that Wales is living on the never-never.

Dechreuaf drwy gydnabod bod Cymru, yn ôl Ysgol Fusnes Caerdydd yn yr 1980au a dechrau'r 1990au, yn un o'r gwledydd a welodd y mewnfuddsoddi mwyaf yn Ewrop gyfan. Fodd bynnag, er 1997 mae'r DU wedi gostwng o'r pedwerydd safle i'r trydydd safle ar ddeg yng nghynghrair cystadleurwydd y byd, ac yn y DU mae Cymru wedi gostwng o'r safle cyntaf i'r nawfed safle o ran mewnfuddsoddi. Yn wir, yr oedd rhagamcanion Gordon Brown yn anghywir o ran treth, gwariant, benthyca a thwf. Y realiti yw bod Cymru'n byw ar goel.

The Brown legacy, after nine years as Chancellor of the Exchequer, is a UK growth rate that is now nineteenth out of 25 in the European Union. The UK is now seventy-third out of 117 in the league table of Government deficits. The growth in output per UK worker has fallen to a 15-year low. French workers are now 93 per cent more productive than UK workers. This gap in productivity growth will mean that we cannot sustain our living standards compared to the wider world.

Yr hyn y mae Brown wedi'i gyflawni, ar ôl naw mlynedd fel Canghellor y Trysorlys, yw cyfradd dwf yn y DU sydd bellach yn y pedwerydd safle ar bymtheg allan o 25 yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r DU bellach yn y trydydd safle ar ddeg a thrigain o'r 117 yn nhabl y cynghrair o ran diffygion y Llywodraeth. Mae'r twf mewn cynhyrchiant fesul gweithiwr yn y DU wedi gostwng i lefel na welwyd er 15 mlynedd. Erbyn hyn mae gweithwyr o Ffrainc 93 y cant yn fwy cynhyrchiol na gweithwyr yn y DU. Bydd y bwch hwn mewn twf cynhyrchiant yn golygu na allwn gynnal ein safonau byw o'n cymharu â'r byd ehangach.

Largely due to the burden of regulation, business investment is now at its lowest level on record. Research and development spending is now down to 1.9 per cent of gross domestic product, lower than the United States, France and Germany. The UK trade deficit is now at its highest level since records started in the seventeenth century. Business taxes have risen as our international competitors have cut corporate taxes.

Yn bennaf o ganlyniad i faich rheoleiddio, mae buddsoddi gan fusnesau ar ei lefel isaf erioed. Mae gwario ar waith ymchwil a datblygu bellach wedi gostwng i 1.9 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth, sy'n is na'r Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Almaen. Mae diffyg masnach y DU bellach ar ei lefel uchaf ers i'r cofnodion ddechrau yn yr ail ganrif ar bymtheg. Mae trethi busnes wedi codi wrth i'n cystadleuwyr rhyngwladol ostwng trethi corfforaeth.

As former Chancellor of the Exchequer, Ken Clarke, has stated, Gordon Brown's policies are remorselessly eroding our international competitiveness, and his claimed economic success is an illusion. The Organisation for Economic Co-operation and Development has stated that low UK skill levels are impediments to economic capacity. Worse still, Wales now has poorer basic skills than almost anywhere else in the United Kingdom. Growing numbers of young people are not in training, education or work. Reference has been made to Airbus in Broughton, where 80 per cent of the applicants for the apprenticeship scheme fail their basic skills tests. At the annual CBI seminar at the Assembly last year, it was emphasised that the costs imposed on business had risen rapidly in recent years and that profits had peaked at a lower level than during the last two economic cycles.

In Wales, the inscrutable Andrew Davies has had to scrap Rhodri's target for Welsh prosperity after this fell to the lowest level among all UK nations or regions. His legacy is best summed up by the North Wales Economic Forum, which stated that the success of Ireland is due to the economy being a strong priority, and that it appears that Wales has been stricter and more bureaucratic than other European nations.

At a time of European enlargement, localisation and new paradigm economics, this legacy of cack-handed business incompetence and failure is why Welsh and UK manufacturing is declining. This Labour Welsh Assembly Government has degraded the health service, dumbed down education, and driven out investment.

**Carl Sargeant:** I am never surprised by the negativity driven by the opposition Members in Wales. If inward investor were to listen to Mark Isherwood, they would never come to Wales, because all that the opposition does is talk it down. It is a disgrace.

Manufacturing has long been a key to Flintshire's economy, and more than a third

Fel y mae cyn Ganghellor y Trysorlys, Ken Clarke, wedi ei ddweud, mae polisiau Gordon Brown yn erydu ein cystadleurwydd rhyngwladol yn ddidrugaredd, a chamargraff yw ei lwyddiant economaidd honedig. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygu Economaidd wedi dweud bod lefelau sgiliau isel yn y DU yn rhwystro gallu economaidd. Gwaeth na hynny, mae gan Gymru sgiliau sylfaenol gwaeth yn awr na bron unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc nad ydynt mewn hyfforddiant, addysg na gwaith. Cyfeiriwyd at Airbus ym Mrychdyn, lle y mae 80 y cant o'r ymgeiswyr am y cynllun prentisiaeth yn methu eu profion sgiliau sylfaenol. Yn y seminar CBI blynyddol yn y Cynulliad y llynedd, pwysleisiwyd bod y costau ar fusnesau wedi codi'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod yr uchafbwynt elw yn is nag yn ystod y ddau gylch economaidd diwethaf.

Yng Nghymru, mae difynegiant Andrew Davies wedi rhoi'r gorau i darged Rhodri ar gyfer ffyniant yng Nghymru ar ôl i hynny ostwng i'r lefel isaf o holl wledydd neu ranbarthau'r DU. Crynhoir ei etifeddiaeth orau gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, a ddywedodd fod llwyddiant Iwerddon yn tarddu o wneud yr economi'n flaenoriaeth gadarn, a'i bod yn ymddangos bod Cymru wedi bod yn llymach ac yn fwy biwrocraidd na gwledydd eraill yn Ewrop.

Ar adeg o ehangu yn Ewrop, lleoleiddio ac economeg batrymol newydd, yr anghymwystra a'r methiant busnes trwsgl hyn yw'r rheswm pam mae gweithgynhyrchu yng Nghymru a'r DU yn dirywio. Mae'r Llywodraeth Lafur hon yn y Cynulliad wedi diraddio'r gwasanaeth iechyd, gostwng safonau addysg ac erlid buddsoddi.

**Carl Sargeant:** Ni fyddaf byth yn synnu at yr agweddau negyddol sy'n cael eu harddel gan Aelodau'r gwrthbleidiau yng Nghymru. Pe bai mewnfuddsoddwr yn gwrandao ar Mark Isherwood, ni fyddai byth yn dod i Gymru, oherwydd y cyfan a wna'r gwrthbleidiau yw ei diraddio. Mae'n warthus.

Mae gweithgynhyrchu wedi bod yn allweddol i economi sir y Fflint ers amser

of the workers in the county are employed in this sector. Between 1997 and the beginning of this year, we have helped around 5,900 extra people in Flintshire into work, 900 of which have entered the county's manufacturing industry. This impressive level of job creation has also coincided with the introduction of the national minimum wage, new family-friendly laws and the rebuilding of our public services.

The industry is not without its challenges, and we recognise that. In Wales, we are well-placed to meet those challenges. The motion is right to note the increasing strength of competition with the global manufacturing sector globally. We cannot compete with the low-wage economies on the basis of cost, nor should we want to do so when the real price is often workers working in poverty and in terrible conditions, and child labour. One of the key messages that we have to remember in Wales is that what we have to deliver for our manufacturing industry is not the power of the elbow, but the power of the mind.

As was kindly mentioned by Alun, Airbus UK at Broughton, in my constituency, is internationally renowned for its manufacturing centre of excellence, and it is one of the exemplar companies in the world. It is a highly innovative company, working across new boundaries to set new competitive global aerospace industry initiatives. I recently congratulated Airbus on a record year, and I was delighted to hear the Minister announcing £5.2 million of regional selective assistance to enable the skills of the workforce, not the company, to be enhanced. That is about investing in the people, not the product. We should be commended for that.

This is not just about Airbus. We have delivered over £52 million of regional selective assistance and Assembly investment grant, in delivering to 271 individual manufacturers across Wales, and that has safeguarded over 2,000 jobs.

maith, a chaiff dros draean o'r gweithwyr yn y sir eu cyflogi yn y sector hwn. Rhwng 1997 a dechrau'r flwyddyn hon, yr ydym wedi helpu tua 5,900 o bobl ychwanegol yn y sir y Fflint i gael gwaith, ac y mae 900 ohonynt wedi ymuno â diwydiant gweithgynhyrchu'r sir. Mae'r nifer nodedig hwn o swyddi a sydd wedi eu creu hefyd wedi cyd-fynd â chyflwyno'r isafswm cyflog cenedlaethol, cyfreithiau newydd sy'n ystyriol o deuluoedd, ac ailadeiladu ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r diwydiant yn wynebu heriau o hyd, a chydabyddwn hynny. Yng Nghymru, yr ydym mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hynny. Mae'r cynnig yn iawn i sylwi ar gryfder cynyddol y gystadleuaeth yn y sector gweithgynhyrchu ar hyd a lled y byd. Ni allwn gystadlu â'r economïau cyflog isel ar sail cost, ac ni ddylem fod am wneud hynny o goffio mai'r pris gwirioneddol yw gweithwyr sy'n aml yn gorfod gweithio mewn tlodi ac o dan amodau arswydus, a llafur plant. Un o'r negeseuon allweddol y mae'n rhaid inni eu cofio yng Nghymru yw nad nerth bôn braich y mae'n rhaid inni ei ddarparu ar gyfer ein diwydiant gweithgynhyrchu, ond grym y meddwl.

Fel y crybwyllwyd yn garedig gan Alun, mae Airbus UK ym Mrychdyn, yn fy etholaeth i, yn adnabyddus yn rhyngwladol am ei ganolfan rhagoriaeth gweithgynhyrchu, ac mae'n un o'r cwmnïau sy'n esiampl i eraill yn y byd. Mae'n gwmni arloesol iawn sy'n gweithio ar draws ffiniau newydd i bennu mentrau cystadleuol newydd ar gyfer y diwydiant awyrofod ar draws y byd. Cefais gyfle i longyfarch Airbus yn ddiweddar ar flwyddyn lwyddiannus iawn, ac yr oeddwn yn falch clywed y Gweinidog yn cyhoeddi £5.2 miliwn o gymorth rhanbarthol dewisol i sicrhau y gellir gwella sgiliau'r gweithlu, nid y cwmni. Mae hynny'n ymwneud â buddsoddi yn y bobl, nid y cynnyrch. Dylid ein cymeradwyo am hynny.

Nid ag Airbus yn unig y mae hyn yn ymwneud. Yr ydym wedi darparu dros £52 miliwn o gymorth rhanbarthol dewisol a grantiau buddsoddi'r Cynulliad i ddarparu ar gyfer 271 o weithgynhyrchwyr unigol ledled Cymru, ac mae hynny wedi diogelu dros 2,000 o swyddi.

Another huge manufacturing success story in Alyn and Deeside, and in Flintshire, is Corus Living Solutions, which Sandy Mewies and I visit regularly. It has been awarded a £92 million contract by the defence agency, to supply the most advanced type of modular building in the UK. Again, it is a huge vote of confidence in the skill of the workforce, and it bodes well for the future of the company in Flintshire.

I must mention my regional Conservative colleague. Only the other week, he claimed in the Chamber that Tory investment was responsible for making Deeside one of the most successful economies in Wales. Does he call serving 13,000 redundancy notices in a day investment? I do not. They devastated the industry in Wales, including the mining industry, and I will take no lecture from the Conservatives—today, or in the future—on their track record.

**Mark Isherwood:** I know very well about that because I was working for the building society, which included the John Summers Building Society, which took the cheques off the redundant workers as they came through. It was devastating and heartbreaking, and it will take generations to be forgotten, so I will never belittle that. However, Peter Walker and other Secretaries of State for Wales worked, on principle, very hard over the 1980s and early 1990s to bring in a swath of new factories to Deeside industrial park, and that has enabled Flintshire to have among the lowest unemployment rates in Wales, and, in the Welsh context, above-average incomes. That is to the credit of the last decade, so stop running it down.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You have made one speech, Mark.

**Carl Sargeant:** You cannot kid a kidder, Mark—I have never heard so much drivel in all my life. The fact is that a Tory Government made all these cuts, and you

Enghraifft arall o lwyddiant gweithgynhyrchu enfawr yn Alun a Glannau Dyfrdwy, ac yn Sir y Fflint, yw Corus Living Solutions. Bydd Sandy Mewies a minnau'n ymweld â'r lle yn rheolaidd. Dyfarnwyd contract gwerth £92 miliwn iddo gan yr asiantaeth amddiffyn, i ddarparu'r math o adeilad modiwlwr mwyaf datblygedig yn y DU. Unwaith eto, mae'n dangos bod hyder mawr yn sgiliau'r gweithlu, ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer dyfodol y cwmni yn sir y Fflint.

Rhaid imi sôn am fy nghyd-Aelod Ceidwadol rhanbarthol. Wythnos diwethaf yn unig yr honnodd yn y Siambr fod buddsoddiad y Torïaid yn gyfrifol am wneud Glannau Dyfrdwy yn un o'r economïau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Yn ei farn ef, ai buddsoddiad yw cyflwyno 13,000 o rybuddion diswyddo mewn diwrnod? Nid dyna fy marn i. Dinistriwyd y diwydiant ganddynt yng Nghymru, gan gynnwys y diwydiant mwyngloddio, ac ni dderbyniaf unrhyw bregeth gan y Ceidwadwyr—heddiw, nac yn y dyfodol—am yr hyn a wnaethant.

**Mark Isherwood:** Gwn yn dda iawn am hynny, oherwydd yr oeddwn yn gweithio i'r gymdeithas adeiladu, a oedd yn cynnwys Cymdeithas Adeiladu John Summers, a gymerodd y sieciau oddi ar y gweithwyr a ddiswyddwyd wrth iddynt gyrraedd. Yr oedd yn drychinebus ac yn dorcalonnes, ac fe gymer genedlaethau i allu ei anghofio. Felly, ni fyddaf byth yn bychanu hynny. Fodd bynnag, bu Peter Walker ac Ysgrifenyddion Gwladol Cymru eraill yn gweithio'n galed iawn, o ran egwyddor, yn ystod yr 1980au a dechrau'r 1990au i ddod â llu o ffatrïoedd newydd i barc diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Mae hynny wedi sicrhau bod gan Sir y Fflint gyfraddau diweithdra sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac yng nghydestun Cymru, incymau sy'n uwch na'r cyfartaledd. Mae hynny'n glod i'r degawd diwethaf, felly, rhowch y gorau i'w feirniadu.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Yr ydych wedi gwneud un araith, Mark.

**Carl Sargeant:** Ni allwch dwyllo twyllwr, Mark—ni chlywais gymaint o nonsens erioed yn fy myw. Y gwir amdani yw mai Llywodraeth Doriäidd a wnaeth yr holl

should not forget that. I am glad that you remember taking the redundancy cheques off all those people in Flintshire, because they certainly will not forget; they will remember that it was a Tory Government that did that to them.

This Labour Government has, and will continue, to support manufacturing in Wales, and I am proud to be part of that. We have several high-manufacturing, aerospace and high-technology companies in Flintshire.

**Alun Cairns** *rose—*

**Carl Sargeant:** I am coming to an end now, Alun.

We have 'Wales: A Vibrant Economy'. The Welsh Assembly Government has established a manufacturing forum in Wales to ensure that the public sector remains relevant and effective for the future. We should congratulate the Minister on the delivery of jobs and manufacturing in Wales. This is a very successful policy from Labour.

**Eleanor Burnham:** As someone whose former husband was managing director of several manufacturing companies, I am fully aware of how the industry has contracted over the last 30 years. We heard the sad news of Ellesmere Port earlier. Looking back at the manufacturing task and finish group's 2004 report, which highlighted an array of issues and concerns, it makes you wonder what is happening. At the top of the list of priorities then was the fact that the Government should put in training support. I will focus my contribution on training.

That report stressed that identifying, promoting and meeting the current and future skill needs of manufacturing managers is a key requirement. Worryingly, it also noted that several manufacturers within the group reported that workforce deficiencies in basic skills are holding back, or have the capacity to hold back, broader improvements and

doriadau hyn, ac ni ddylech anghofio hynny. Yr wyf yn falch eich bod yn cofio cymryd y sieciau diswyddo oddi ar yr holl bobl hynny yn sir y Fflint, oherwydd yn sicr ni fyddant hwy byth yn anghofio hynny; byddant yn cofio mai Llywodraeth Dori'aidd a wnaeth hynny iddynt.

Mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi cefnogi gweithgynhyrchu yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny, ac yr wyf yn falch o fod yn rhan o hynny. Mae gennym nifer o gwmnïau uwch-weithgynhyrchu, awyrfod ac uwch-dechnoleg yn sir y Fflint.

**Alun Cairns** *a gododd—*

**Carl Sargeant:** Yr wyf yn dod tua'r diwedd yn awr, Alun.

Mae gennym 'Cymru: Economi yn Ffynnu'. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu fforwm gweithgynhyrchu yng Nghymru i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol ar gyfer y dyfodol. Dylem longyfarch y Gweinidog ar ddarparu swyddi a gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae hwn yn bolisi llwyddiannus iawn gan Lafur.

**Eleanor Burnham:** Gan fod fy nghyn-wr yn arfer bod yn gyfarwyddwr rheoli ar nifer o gwmnïau gweithgynhyrchu, yr wyf yn ymwybodol iawn o'r modd y mae'r diwydiant wedi crebachu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Clywsom y newyddion trist ynglŷn ag Ellesmere Port yn gynharach. Gan edrych yn ôl ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgynhyrchu a gyhoeddwyd yn 2004, a oedd yn tynnu sylw at amrywiaeth o faterion a phryderon, mae'n gwneud i chi feddwl beth sy'n digwydd. Ar frig y rhestr o flaenoriaethau bryd hynny yr oedd y ffaith y dylai'r Llywodraeth gyflwyno cymorth hyfforddi. Bydd fy nghyfraniad i'n canolbwyntio ar hyfforddiant.

Pwysleisiodd yr adroddiad hwnnw fod nodi, hyrwyddo a diwallu anghenion sgiliau rheolwyr gweithgynhyrchu yn awr ac yn y dyfodol yn ofyniad craidd. Mater sy'n peri pryder hefyd yw ei fod yn dweud bod nifer o weithgynhyrchwyr yn y grŵp wedi sôn bod diffygion yn sgiliau sylfaenol y gweithlu yn atal gwelliannau a mentrau ehangach, neu y

initiatives. Therefore, Minister—and Minister for Education, Lifelong Learning and Skills—what are you doing? Has there been an improvement in basic skills? When I think back to some of the 14 to 16-year-old underachievers who I used to take around to companies, it worried me greatly that they could not even aspire to the wonderful companies that we were visiting.

What progress do you, Minister—and the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills, again—have to report on your efforts to identify and address the basic skills deficiency through partnership between employers, employees and your Labour Assembly Government? This report also recommended that the Labour Assembly Government should accelerate the process of change and the support being developed through its Welsh procurement initiative, which was alluded to previously. I believe that this recommendation's intent was to ensure that manufacturing businesses in Wales are able to make the most of the wealth of opportunities provided by the £4 billion spent by the public sector in Wales every year on goods, services and construction.

5.10 p.m.

Worryingly, the manufacturing sector in Wales has a limited research and development base. As has been mentioned, innovation is vital in a globally competitive world, where Wales, along with many other developed nations, struggles to compete with low-wage, low-production-cost countries. I urge you and the Labour Assembly Government to take this far more seriously to ensure greater collaboration between academia and business, and to ensure more Government support, particularly for research and development. The task and finish group also recommended an urgent need for greater clarity of the public support available to manufacturers to assist with their training needs so that they are enabled to plan development activities with confidence. Will you reassure us that this vital issue is being addressed and provide an update on that? Will you confirm how you are raising awareness? Awareness of the excitement that

gallent eu hatal. Felly, Weinidog—a'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau—beth yr ydych chi'n ei wneud? A fu gwelliant mewn sgiliau sylfaenol? Pan feddyliaf am rai o'r tangyflawnwyr 14 i 16 oed yr oeddwn yn arfer mynd â hwy o gwmpas cwmnïau, yr oedd yn fy mhoeni'n fawr na allent hyd yn oed obeithio gweithio i'r cwmnïau gwych yr oeddem yn ymweld â hwy.

Pa gynnydd y gallwch chi, Weinidog—a'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, eto—sôn amdano o ran eich ymdrechion i nodi'r diffyg sgiliau sylfaenol a mynd i'r afael â hynny drwy bartneriaeth rhwng cyflogwyr, cyflogeion a Llywodraeth Lafur y Cynulliad? Argymhellodd yr adroddiad hwn hefyd y dylai Llywodraeth Lafur y Cynulliad gyflymu'r broses o newid a'r cymorth sy'n cael ei ddatblygu drwy fenter gaffael Cymru y cyfeiriwyd ati'n gynharach. Credaf mai bwriad yr argymhelliad hwn oedd sicrhau y gall busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfoeth cyfleoedd a ddarperir gan y £4 biliwn sy'n cael ei wario gan y sector cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn ar nwyddau, gwasanaethau ac adeiladu.

Mater sy'n peri pryder yw mai cyfyngedig yw sylfaen ymchwil a datblygu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. Fel y crybwyllwyd, mae arloesedd yn hanfodol mewn byd cystadleuol, lle y mae Cymru, ynghyd â nifer o wledydd datblygedig eraill, yn brwydro i gystadlu â gwledydd sydd â chyflogau isel a chostau cynhyrchu isel. Fe'ch anogaf chi a Llywodraeth Lafur y Cynulliad i roi ystyriaeth lawer mwy difrifol i hyn er mwyn sicrhau gwell cydweithredu rhwng academia a busnesau, ac i sicrhau mwy o gymorth gan y Llywodraeth, yn enwedig ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu. Argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen hefyd fod angen brys am fwy o eglurder ynghylch y cymorth cyhoeddus sydd ar gael i weithgynhyrchwyr i ddiwallu eu hanghenion hyfforddi, i'w galluogi i gynllunio gweithgareddau datblygu yn hyderus. A wnewch chi ein sicrhau bod y mater hanfodol hwn yn cael sylw a rhoi'r wybodaeth



manufacturing companies can offer is vital, and it will mean that Wales can thrive in the manufacturing industry in the twenty-first century.

**Lisa Francis:** It is always tempting in a debate such as this to reel off statistics and figures in much the same way as telephone numbers, and the effects of this can sometimes be to bore one witless. I will speak about skills and skills deficits. Last year, the Economic Development and Transport Committee visited mid Wales, as the Minister will recall—well, he will not recall the visit because he was not there, but he received a report on it. In that area, there has been a long tradition of manufacturing in the Llanidloes, Newtown and Welshpool corridor, and, at that meeting, ELWa told us that there was clear evidence of a downward spiral in terms of manufacturing skills, with fairly low demand from adults in the region who wanted to engage in education and training.

In a meeting of the Economic Development and Transport Committee in January of last year, Minister, you informed us that the manufacturing task and finish group was asking Future Skills Wales to constantly look at the needs of employers. However, at that meeting in Newtown—you will have seen the report—the private sector representatives who gave evidence told us that they felt that there was no fair or regular assessment of the skills that manufacturers required. I appreciate that there is a large variety of businesses requiring a massive variety of different skills in areas like mid Wales, and it is clearly going to be difficult to supply training programmes to cover that variety. That is why the shared apprenticeship scheme was so valuable in that area. It enabled three or four companies who needed tool makers, machine operators, computer numerical lathe control operators, and so on, to take on two or three youngsters and see them gaining valuable experience and learning those skills.

ddiweddaraf am hynny? A wnewch chi gadarnhau sut yr ydych yn cynyddu ymwybyddiaeth? Mae ymwybyddiaeth o'r cyffro y gall cwmnïau gweithgynhyrchu ei gynnig yn hanfodol, a bydd yn golygu y gall Cymru ffynnu yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Lisa Francis:** Mae'n demtasiwn bob amser mewn dadl fel hon i restru ystadegau a ffigurau mewn ffordd debyg iawn i rifau teleffon, a gall hyn arwain weithiau at ddiflasiu rhywun yn llwyr. Byddaf fi hefyd yn siarad am sgiliau a diffyg sgiliau. Y llynedd, ymwelodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth â'r canolbarth, fel y bydd y Gweinidog yn cofio—wel, ni fydd yn cofio'r ymweliad oherwydd nid oedd yno, ond cafodd adroddiad arno. Yn yr ardal honno, mae traddodiad maith o weithgynhyrchu yng nghoridor Llanidloes, y Drenewydd a'r Trallwng, ac yn y cyfarfod hwnnw dywedodd ELWa wrthym fod tystiolaeth glir o duedd ar i lawr mewn sgiliau gweithgynhyrchu, a galw cymharol isel gan oedolion yn y rhanbarth a oedd am ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ym mis Ionawr y llynedd, Weinidog, cawsom wybod gennych fod y grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgynhyrchu yn gofyn i Sgiliau Dyfodol Cymru edrych yn barhaus ar anghenion cyflogwyr. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwnnw yn y Drenewydd—byddwch wedi gweld yr adroddiad—dywedodd cynrychiolwyr y sector preifat a roddodd dystiolaeth eu bod yn teimlo nad oedd asesiad teg na rheolaidd o'r sgiliau yr oedd eu hangen ar weithgynhyrchwyr. Cydnabyddaf fod amrywiaeth mawr o fusnesau ag arnynt angen amrywiaeth mawr o wahanol sgiliau mewn ardaloedd fel y canolbarth, ac yn amlwg bydd yn anodd darparu rhaglenni hyfforddi i gwmpasu'r amrywiaeth hwnnw. Dyna pam yr oedd y cynllun prentisiaeth a rennir mor werthfawr yn yr ardal honno. Yr oedd yn galluogi tri neu bedwar cwmni yr oedd arnynt angen gwneuthurwyr offer, gweithredwyr peiriannau, gweithredwyr rheoli turn rhifol cyfrifiadurol, ac ati, i gyflogi dau neu dri pherson ifanc a'u gweld

yn ennill profiad gwerthfawr ac yn dysgu'r sgiliau hynny.

Sadly, because that scheme could not get a guarantee of support from ELWa or the WDA, it had to close. Minister, you might think that that is small beer for that area, but the move really hurt the Severn valley community in mid Wales because it prevented skills coming through. Losing 10 apprentices a year in a small engineering economy is a lot. Losing manufacturing jobs in areas like this, where it is not unusual for the travel-to-work area to cover a radius of around 30 miles, is a huge body blow to the local economy. We then saw the development of a system where training providers were funded to decide what training they would provide and to then sell it to manufacturers in a market place.

Yn anffodus, oherwydd na allai'r cynllun hwnnw gael sicrwydd cymorth gan ELWa na WDA, bu'n rhaid iddo gau. Weinidog, efallai eich bod yn meddwl mai rhywbeth dibwys yw hynny i'r ardal honno, ond niweidiwyd cymuned dyffryn Hafren yn y canolbarth yn fawr gan y cam oherwydd yr oedd yn atal y broses o feithrin sgiliau. Mae colli 10 prentis y flwyddyn mewn economi beirianeg fach yn llawer. Mae colli swyddi gweithgynhyrchu mewn ardaloedd fel hyn, lle nad yw'n anarferol i'r ardal teithio-i'r-gwaith gwmpasu radiws o ryw 30 milltir, yn ergyd enfawr i'r economi leol. Wedyn gwelsom ddatblygu system lle câi darparwyr hyfforddiant eu hariannu i benderfynu pa hyfforddiant y byddent yn ei ddarparu ac yna i'w werthu i weithgynhyrchwyr mewn marchnadle.

What needs to be developed is the provision of demand-led training. What has that shared apprenticeship scheme, and many like it throughout Wales, been replaced with, particularly now that we have seen you bringing the WDA and ELWa into the Government? How do you intend to address the issue of demand-led training? How do you intend to interact with the private sector to find out what it wants? I would be very grateful if you were to address those points when you respond to this debate. I appreciate that it is early days, but you must have a strategy and a plan, and we would like to hear about it.

Yr hyn y mae angen ei ddatblygu yw darparu hyfforddiant yn seiliedig ar y galw. Beth a roddwyd yn lle'r cynllun prentisiaeth a rennir, a nifer o gynlluniau tebyg ledled Cymru, yn enwedig gan eich bod yn awr wedi dod â WDA ac ELWA o dan adain y Llywodraeth? Sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â hyfforddiant yn seiliedig ar y galw? Sut yr ydych yn bwriadu rhyngweithio â'r sector preifat i weld beth y mae arno ei angen? Byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddech yn delio â'r pwyntiau hynny wrth ymateb i'r ddadl hon. Cydnabyddaf mai megis dechrau yr ydym, ond rhaid bod gennych strategaeth a chynllun, a hoffem glywed amdanynt.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Diolchaf am y cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth hon. Yr wyf yn hynod o falch ein bod wedi cael cyfle o'r diwedd i gael dadl ar y diwydiant gweithgynhyrchu. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith bod tipyn o gonsensws bellach fod y diwydiant gweithgynhyrchu mewn trafferthion difrifol. Efallai fod gwahaniaeth barn ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am hynny, ac ynghylch yr hyn y dylem ei wneud i geisio goresgyn y broblem, ond o leiaf y derbynir bod argyfwng yn y sector.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. I am very pleased that we have at last had an opportunity to have a debate on the manufacturing industry. It has drawn attention to the fact that there is considerable consensus by now that the manufacturing industry is in dire straits. There may be a difference of opinion as to who is responsible for that, and about what we should do to try to overcome the problem, but at least it is accepted that the sector is in crisis.

Mae nifer o'r siaradwyr wedi tynnu sylw at

Many of the speakers have highlighted

bethau hynod o bwysig. Yn ei araith, soniodd Alun Ffred am yr angen i bwysleisio pwysigrwydd cwmnïau cynhenid, a chytunodd nifer o bobl eraill â hynny, fel Alun Cairns. Yr oedd Alun Ffred hefyd yn pwysleisio'r angen inni gael twf y tu allan i goridorau'r A55 a'r M4 ac, yn naturiol, cytunodd llawer o Aelodau o wahanol rannau o Gymru â hynny, yn enwedig lle'r oedd yn berthnasol i'w hetholaethau. Pwysleisiodd Alun Ffred hefyd—ac mae gennyf ddiddordeb personol yn hyn—yr angen i helpu'r diwydiannau prosesu bwyd mewn ardaloedd gwledig, gan eu bod wedi cael ergydion trwm eleni, gyda 500 o swyddi wedi eu colli yn y sector. Clywsom hefyd gan Mike German fod ffigurau cymharol gwerth ychwanegol crynswth Cymru wedi gwaethygu mewn perthynas â gweddill Prydain, bod allbwn cynhyrchu i lawr ac yn syrthio yn gynt yng Nghymru a bod tyfiant allforion yn llai.

Tynnodd nifer o Aelodau, gan gynnwys Alun Cairns, sylw at y nifer o swyddi sydd wedi'u colli yn y sector er 1999. Yn ei haraith, bu i Lynne Neagle wneud pwynt hynod o bwysig yr ydym oll yn ei dderbyn, sef ei bod yn anodd iawn ichi gael swydd newydd sydd yn taluystal wedi ichi golli swydd yn y sector hwn. Yr ydym yn ymwybodol o hynny ar draws Cymru. Defnyddiodd Helen Mary Jones yr enghraifft o Lanelli fel rhywle lle y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector dros y pedair blynedd rhwng 2000 a 2004.

Fodd bynnag, rhaid inni geisio dod i ryw fath o ddealltwriaeth ar draws y Siambr ynghylch sut y gallwn oresgyn y problemau dybryd hyn sy'n bodoli. Rhaid cyfaddef fy mod yn tueddu i gydymdeimlo â'r sylw a wnaed—nid wyf yn cofio gan bwy—fod y Gweinidog yn hapus i gysylltu'r Llywodraeth â llwyddiannau. Pan mae grant ar gael i'w roi i gwmmi, mae'r Gweinidog yn hapus i gael llun wedi'i dynnu ohono'n ysgwyd llaw gyda chynrychiolydd o'r cwmni. Fodd bynnag, os bydd cwmni yn mynd i'r wal, mae'n dweud, 'Nid yw hynny'n ddim byd i wneud â ni; mae'n ymwneud â phroblemau rhyngwladol—Tsieina ac India'. Yr ydym wedi clywed hwnnw sawl gwaith heddiw.

Nid oes gennyf broblem gyda'r Llywodraeth

extremely important points. In his speech Alun Ffred referred to the need to emphasise the importance of indigenous companies, and several others agreed with that, such as Alun Cairns. Alun Ffred Jones also emphasised the need to secure growth outside the A55 and M4 corridors, and, naturally, several Members from various parts of Wales concurred with that, especially where it was relevant to their constituencies. Alun Ffred also emphasised—and I have a personal interest in this—the need to assist the food processing industries in rural areas, as they have received exceptionally heavy blows this year, with 500 jobs lost in the sector. We also heard from Mike German how Wales's comparative gross added value figures have worsened compared with the rest of Britain, that production output is down and is decreasing more rapidly in Wales, and that export growth is less.

Many Members, including Alun Cairns, drew attention to the number of jobs that have been lost in the sector since 1999. In her speech, Lynne Neagle made a very important point, which we all accept, that it is exceptionally difficult to find a new job that pays as well once you have lost a job in this sector. We are aware of that throughout Wales. Helen Mary Jones used Llanelli as an example of an area where there has been a sharp decline in the number of people working in the sector in the four years between 2000 and 2004.

However, we must try to reach some kind of understanding in the Chamber as to how we overcome some of the serious problems that exist. I must admit that I tend to sympathise with a comment made—I cannot remember by whom—that the Minister is happy to associate the Government with successes. When a grant is available to be awarded to a company, the Minister is happy to have his photograph taken shaking the hand of a representative of the company. However, if a company goes to the wall, he says, 'That has nothing to do with us; it is because of international problems—China and India'. We have heard that repeatedly today.

I do not have any problem with the

yn derbyn clod os yw'n rhoi grant i gwmni, ond mae cyfrifoldeb arni hefyd i ysgwyddo'r cyfrifoldeb pan mae pethau yn mynd o'i le. Rhaid inni dderbyn bod 72,000 o swyddi wedi'u colli yng Nghymru er 1997. Derbyniwn fod swyddi newydd wedi'u creu, ond rhaid cofio y bu'n anodd iawn creu swyddi o'r un ansawdd, cyflog a sylwedd yn y sector ers hynny.

We need to look for specific responses. I think that it was Jeff Cuthbert who challenged one opposition Member—not from my party, as it happens—asking, 'What would you do differently?'. We have made a number of suggestions. We have asked why, for example, we cannot have different tax rates—corporation tax, for example—in places like the Objective 1 areas. Why does the Government not consider that particular proposal? What about helping companies with business rates in those areas that are badly hit by job losses? Imaginative suggestions like those of the sorts of things that we could do to help those industries are not currently being considered.

I put another point to the Minister. A lot of the companies that have been hit in the food sector in rural Wales would ask the Government to think again on some of the regulations in relation to taking away waste material from those plants. Those are the kinds of things that we ought to be looking at in the context of this debate. I hope that, when the Minister responds, he is prepared to take some responsibility for the things that have happened in recent years.

5.20 p.m.

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** It is clear that recent announcements confirm the scale of the challenges facing our manufacturing sector, but those changes are not just being made in Wales. In fact, across the whole of the advanced industrial world, particularly in other parts of the United Kingdom, there has been a significant fall in manufacturing employment.

Government being praised if it awards a grant to a company, but it is also duty bound to shoulder the responsibility when things go wrong. We must accept that 72,000 jobs have been lost in Wales since 1997. We accept that new jobs have been created, but we must not forget that it has been exceptionally difficult to create jobs of the same standard, salary and substance in the sector since then.

Mae angen inni chwilio am ymatebion penodol. Credaf mai Jeff Cuthbert a heriodd un Aelod o'r gwrthbleidiau—nid o'm plaid i, fel mae'n digwydd—drwy ofyn, 'Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol?'. Yr ydym wedi gwneud nifer o awgrymiadau. Yr ydym wedi gofyn pam, er enghraifft, na allwn gael cyfraddau treth gwahanol—treth gorfforaeth, er enghraifft—mewn lleoedd fel ardaloedd Amcan 1. Pam nad yw'r Llywodraeth yn ystyried y cynnig penodol hwnnw? Beth am helpu cwmnïau gyda threthi busnes yn yr ardaloedd hynny y mae colli swyddi'n effeithio'n wael arnynt? Nid yw awgrymiadau llawn dychymyg, fel rhai sy'n sôn am y mathau o bethau y gallem eu gwneud i helpu'r diwydiannau hynny, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Gofynnaf gwestiwn arall i'r Gweinidog. Byddai nifer o'r cwmnïau yr effeithiwyd arnynt yn y sector bwyd yng Nghymru wledig yn gofyn i'r Llywodraeth ailfeddwl am rai o'r rheoliadau mewn perthynas â gwaredu deunydd gwastraff o'r gweithfeydd hynny. Dyna'r mathau o bethau y dylem fod yn eu hystyried yng nghyd-destun y ddadl hon. Gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb, yn barod i gymryd rhywfaint o'r cyfrifoldeb am y pethau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf.

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae'n amlwg bod cyhoeddiadau'n ddiweddar yn cadarnhau maint yr heriau sy'n wynebu ein sector gweithgynhyrchu, ond nid yng Nghymru yn unig y mae'r newidiadau hynny'n cael eu gwneud. A dweud y gwir, ar draws y byd diwydiannol datblygedig, yn arbennig mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, bu gostyngiad sylweddol mewn swyddi gweithgynhyrchu.

**Alun Cairns:** Will you give way?

**Andrew Davies:** No. The statistics that have been quoted are very selective—

**Alun Cairns:** Give way.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. He has said only one sentence and I do not know how on earth one can intervene.

Mae'n agenda heriol ac erys llawer i'w wneud. Mae ymgynghori ar 'Y Wlad sy'n Dysgu 2' yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd ac mae'n ystyried y materion penodol hyn. Cymeradwyaf adroddiad y prif arolygydd i'r Cynulliad a chymeradwyaf gynnig y Llywodraeth i'r Aelodau, wedi'i ddiwygio gan welliannau 10 ac 11.

**William Graham:** I propose the following amendments in the name of Lisa Francis. Amendment 1: add a new point at the end of the motion:

**William Graham:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*instructs the Assembly Government to direct funding towards reducing the number of children not in education, training or employment.*

*yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i gyfeirio cyllid tuag at leihau nifer y plant nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.*

I propose amendment 2. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiau welliant 2. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*notes with concern the number of children leaving school with inadequate literacy, numeracy and social interaction skills.*

*yn nodi gyda phryder nifer y plant sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a rhyngweithio cymdeithasol annigonol.*

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiau welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*notes with concern the inspectors' observations that 30 per cent of learners were absent from the lessons assessed and the lack of effective strategies to help learners keep up their attendance.*

*yn nodi gyda phryder sylwadau arolygwyr bod 30 y cant o ddysgwyr yn absennol o'r gwersi a aseswyd a diffyg strategaethau effeithiol i helpu dysgwyr i fod yn bresennol yn gyson.*

I propose amendment 4. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiau welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*notes with concern the failure to address education issues relating to the youth justice system.*

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

*instructs the Assembly Government to address the 0 per cent growth in real terms in further education spending.*

I propose amendment 6. Add a new point at the end of the motion:

*notes with concern the failure to meet Assembly Government set examination targets in secondary schools and colleges.*

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

*notes with concern that schools in deprived areas in England outperform schools in such areas in Wales.*

I acknowledge the report as being thorough and comprehensive. I also acknowledge that the new inspection arrangements incorporate a common structure for inspecting the education and training of learners of all ages. The report highlights many continuing improvements across all levels of education throughout Wales, and I wholly endorse the Minister's rightful praise of the profession. It also highlights many of the continuing issues that face our schools and colleges. The motion that we consider today links this report with 'The Learning Country', which is described by the Labour Assembly Government as a distinctive agenda for Wales. However, the chief inspector's report clearly indicates that this agenda is not working properly. The Government has set out its target aspirations, but, as is the case with so many of its targets, including its manifesto promises, they are incapable of fruition.

All aspects of education in Wales face many problems, which range from declining pupil numbers to the fact that unprecedented numbers of teachers in Welsh schools are

*yn nodi gyda phryder y methiant i roi sylw i faterion addysg sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid.*

Cynigiau welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i roi sylw i'r twf gwirioneddol o 0 y cant yn y gwariant ar addysg bellach.*

Cynigiau welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn nodi gyda phryder na lwyddwyd i gyflawni'r targedau arholiadau a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ysgolion uwchradd a cholegau.*

Cynigiau welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn nodi gyda phryder bod perfformiad ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn Lloegr yn well na pherfformiad ysgolion mewn ardaloedd tebyg yng Nghymru.*

Cydnabyddaf fod yr adroddiad yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Cydnabyddaf hefyd fod y trefniadau arolygu newydd yn cynnwys strwythur cyffredin ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant dysgwyr o bob oed. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o welliannau parhaus ar draws pob lefel mewn addysg ledled Cymru, a chymeradwyaf yn llwyr y ffaith fod y Gweinidog yn canmol y proffesiwn, sy'n gwbl gywir. Mae hefyd yn tynnu sylw at nifer o'r problemau parhaus y mae ein hysgolion a'n colegau yn eu hwynebu. Mae'r cynnig a ystyriwn heddiw yn cysylltu'r adroddiad hwn â 'Y Wlad sy'n Dysgu', a ddisgrifir gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad fel agenda unigryw ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae adroddiad y prif arolygydd yn dangos yn glir nad yw'r agenda hon yn gweithio'n iawn. Mae'r Llywodraeth wedi gosod allan ei dyheadau o ran targedau, ond fel sy'n wir gyda chynifer o'i thargedau, gan gynnwys ei haddewidion maniffesto, ni allant gael eu gwireddu.

Mae pob agwedd ar addysg yng Nghymru yn wynebu nifer o broblemau, yn amrywio o niferoedd disgyblion sy'n lleihau i'r ffaith fod niferoedd digyffelyb o athrawon mewn

approaching their retirement while trying to adapt to meet the wider requirements expected of teachers and schools. The amendments tabled by the Welsh Conservative group highlight the urgent issues that we need to face to ensure, as the chief inspector says, that education and training fulfil a vital role in making a difference to the lives and future of individuals and communities in Wales.

As is the case with every problem that the Government faces, it hides behind the fact that it is spending more on the services that it provides. It appears to be blinded by the size of the pound sign and blind to growing inefficiencies. Education funding is confined within the straitjacket of historical spending patterns. Its progress is restricted by the fact that schools are compared with other local schools rather than with the best schools. Let us be bold in Wales and aim for the best.

The report outlines progress but highlights that almost every step forward is accompanied by a step backwards. I will give a few examples. The report states that national curriculum assessment results at key stage 3 remained static in mathematics and had declined in science. It also states:

‘Pupils’ examination results at GCSE in key stage 4 improved only slightly since last year and it does not look as though pupils will be able to achieve any of the Welsh Assembly Government’s ambitious targets by 2007.’

It is noted in the report that, for secondary school pupils, key skills had not changed since last year, and that information and communication technology skills had not improved and remained weak in almost half of the secondary schools inspected. The chief inspector states that secondary schools still have a long way to go to meet the Government’s target of reducing absenteeism to below 7 per cent by 2007, and that 80 per cent of secondary schools have failed to

ysgolion yng Nghymru yn agosáu at oed ymdeol gan geisio ymaddasu i fodloni’r gofynion ehangach a ddisgwylir gan athrawon ac ysgolion. Mae’r gwelliannau a gyflwynwyd gan grŵp Ceidwadwyr Cymru yn tynnu sylw at y materion brys y mae angen inni eu hwynebu i sicrhau, fel y dywed y prif arolygydd, fod addysg a hyfforddiant yn cyflawni rôl hanfodol wrth wneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol unigolion a chymunedau yng Nghymru.

Fel sy’n wir gyda phob problem sy’n wynebu’r Llywodraeth, mae’n cuddio y tu ôl i’r ffaith ei bod yn gwario mwy ar y gwasanaethau a ddarperir ganddi. Ymddengys ei bod wedi’i dallu gan yr arian dan sylw ac nad yw’n gweld yr aneffeithlonrwydd cynyddol. Mae’r arian a roddir i addysg wedi’i gyfyngu gan batrymau gwario hanesyddol. Cyfyngir ar ei chynnydd oherwydd y ffaith fod ysgolion yn cael eu cymharu ag ysgolion lleol eraill yn hytrach nag â’r ysgolion gorau. Gadewch inni fod yn eofn yng Nghymru ac anelu at y gorau.

Mae’r adroddiad yn amlinellu cynnydd ond yn tynnu sylw fod cam yn ôl yn digwydd ar ôl pob cam ymlaen. Dyma i chi rai enghreifftiau. Dywed yr adroddiad fod canlyniadau asesiadau’r cwricwlwm cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3 wedi parhau yn eu hunfan mewn mathemateg ac wedi gostwng mewn gwyddoniaeth. Dywed hefyd:

‘Dim ond ychydig y mae canlyniadau arholiadau disgyblion wedi gwella mewn TGAU yng nghyfnod allweddol 4 ers y llynedd, ac nid yw’n debyg y bydd disgyblion yn gallu cyflawni unrhyw un o dargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2007.’

Dywedir yn yr adroddiad, ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd, nad oedd sgiliau allweddol wedi newid ers y llynedd, ac nad oedd sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gwella a’u bod yn parhau’n wael yn hanner yr ysgolion uwchradd bron a arolygwyd. Dywed y prif arolygydd fod gan ysgolion uwchradd lawer i’w wneud eto i gyrraedd targed y Llywodraeth o ostwng absenoldeb i lai na 7 y cant erbyn 2007, a bod 80 y cant o ysgolion uwchradd wedi methu â

improve their pupils' attendance in recent years. She goes on to say:

'Work-based learning continues to be a cause of great concern. This is a serious issue given that many areas of Wales have difficulties in providing services for the health and care of young people, elderly people and vulnerable members of their communities.'

If we seek an education system that allows our children to achieve their highest potential by attaining academic and vocational qualifications, and provides the widest opportunities for lifelong learning within a safe environment, we need to address some fundamental issues.

The report notes that 10 per cent of all primary schools have shortcomings in terms of their arrangements for child protection because staff are not adequately trained in child-protection issues, or teachers are not clear about the procedures of their school or local authority. This issue requires all-party support for it to be immediately resolved.

The report also outlines how economic prosperity in Wales depends on people from all backgrounds being able to take part fully in employment and to contribute to building a better society. We must reduce the number of children leaving school with inadequate literacy, numeracy and social interaction skills. Seven per cent of young people in Wales leave school with no more than one GCSE qualification at grade C or its equivalent. This is compared with only 2.6 per cent in England.

There is a requirement to redirect funding towards reducing the number of children who are not in education, training or employment. Despite an increase of 52 per cent in spending on education in Wales, standards sadly remain the worst in the United Kingdom.

It is an amazing fact that, in Wales today, 28 per cent of adults struggle with reading and 32 per cent find basic mathematics difficult. We need to balance this against the comments made about work-based learning

gwella presenoldeb eu disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

'Mae dysgu yn y gweithle'n parhau i fod yn destun pryder mawr. Mae hwn yn fater difrifol o gofio bod llawer o ardaloedd yng Nghymru'n cael anawsterau o ran darparu gwasanaethau ar gyfer iechyd a gofal pobl ifanc, pobl oedrannus ac aelodau bregus o'r gymdeithas.'

Os ceisiwn gael system addysg sy'n galluogi ein plant i gyflawni eu potensial gorau drwy gyrraedd cymwysterau academiaidd a galwedigaethol, ac sy'n rhoi'r cyfleoedd ehangaf ar gyfer dysgu gydol oes mewn amgylchedd diogel, mae angen inni ymdrin â rhai materion sylfaenol.

Dywed yr adroddiad fod gan 10 y cant o ysgolion cynradd ddiffygion yn eu trefniadau amddiffyn plant am nad yw staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol ym maes amddiffyn plant, neu am nad yw athrawon yn deall gweithdrefnau eu hysgol neu'r awdurdod lleol. Mae angen cefnogaeth pob plaid gyda'r broblem hon er mwyn ei datrys ar unwaith.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu sut y mae ffyniant economaidd yng Nghymru yn dibynnu ar allu pobl o bob cefndir i gymryd rhan lawn mewn cyflogaeth a chyfrannu at ddatblygu cymdeithas well. Rhaid inni leihau nifer y plant sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a rhyngweithio cymdeithasol annigonol. Mae 7 y cant o bobl ifanc yng Nghymru yn gadael yr ysgol gyda dim mwy nag un cymhwyster TGAU gradd C neu gymhwyster cyfatebol. Mae hynny o'i gymharu â dim ond 2.6 y cant yn Lloegr.

Mae'n ofynnol ailgyfeirio cyllid i leihau nifer y plant nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Er y cynnydd o 52 y cant mewn gwariant ar addysg yng Nghymru, ein safonau, yn anffodus, yw'r gwaethaf yn y Deyrnas Unedig o hyd.

Mae'r ffaith fod gan 28 y cant o oedolion anawsterau darllen a bod gan 32 y cant anawsterau mewn mathemateg sylfaenol yng Nghymru heddiw yn ffaith anghredadawy. Mae angen inni gydbwysu hyn yn erbyn y



and the care of young people. It was in work-based learning provision that inspectors observed that 30 per cent of learners were absent from the lessons being assessed. There is a lack of an effective strategy to help learners maintain their attendance. It is pointless for the Assembly Government to set targets if providers lack effective strategy guidance to deliver these targets.

When the Minister read the comments concerning accommodation in secondary schools not being outstanding, did she recall the days of previous Labour Governments, which, as the First Minister described in Plenary yesterday, commissioned the construction of trash-built schools in the 1960s?

There are major education issues relating to the youth justice system where the report identifies a lack of progress, especially with regard to young offenders who broke the law but were not taken into custody and who still do not attend full-time education or training. Consequently, they are unable to gain a recognised qualification that might help them to find employment, increasing the likelihood that they will reoffend. Of those in prison in Wales, 6 out of 10 are virtually illiterate and innumerate.

The Minister will try to convince people to leave it to her and that everything is all right. However, on closer scrutiny, the inspector reported that all is not as the Minister wishes us to believe. The amendments proposed by the Conservative group support the observations of the chief inspector and outline a way forward in delivering—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You need to wind up.

**William Graham:** I ask that the Minister looks again at the way in which we improve the quality of education in Wales.

**Peter Black:** I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 8: add a new point at the end of

sylwadau a wnaed am ddysgu'n seiliedig ar waith a gofalu am bobl ifanc. Yn y ddarpariaeth dysgu'n seiliedig ar waith y sylwodd arolygwyr fod 30 y cant o'r dysgwyr yn absennol o'r gwersi a oedd yn cael eu hasesu. Mae diffyg strategaeth effeithiol i helpu dysgwyr i gynnal eu lefelau presenoldeb. Nid oes diben i Lywodraeth y Cynulliad bennu targedau os nad oes gan ddarparwyr ganllawiau strategaeth effeithiol ar gyfer cyflawni'r targedau hyn.

Pan ddarllenodd y Gweinidog y sylwadau sy'n dweud nad yw adeiladau ac ystafelloedd mewn ysgolion uwchradd o safon eithriadol, a oedd yn cofio diwrnodau Llywodraethau Llafur blaenorol a gomisiynodd waith, fel y disgrifiodd y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ddoe, i adeiladu ysgolion o safon isel yn y 1960au?

Mae yna broblemau addysgol pwysig mewn perthynas â'r system cyfiawnder ieuencid, lle mae'r adroddiad yn nodi diffyg cynnydd, yn arbennig o ran troseddwr ifanc sydd wedi torri'r gyfraith ond na chymerwyd i'r ddalfa ac nad ydynt o hyd yn mynychu addysg neu hyfforddiant llawn amser. O ganlyniad, ni allant ennill cymhwyster cydnabyddedig a allai eu helpu i gael gwaith, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu. O'r rheini sydd yn y carchar yng Nghymru, mae 6 o bob 10 fwy neu lai yn anllythrennog ac yn anrhifog.

Bydd y Gweinidog yn ceisio darbwylllo pobl i adael llonydd iddi fwrw ati a bod popeth yn iawn. Fodd bynnag, o graffu'n agosach, dywedai'r arolygydd nad yw popeth fel y mae'r Gweinidog am inni ei gredu. Mae'r gwelliannau a gynigir gan y grŵp Ceidwadwyr yn ategu arsylwadau'r prif arolygydd ac yn amlinellu ffordd ymlaen wrth gyflwyno—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae angen ichi ddirwyn i ben.

**William Graham:** Gofynnaf i'r Gweinidog ailystyried y ffordd y gallwn wella ansawdd addysg yng Nghymru.

**Peter Black:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 8: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y

the motion:

*notes the concern expressed by Estyn of the condition of school buildings and the lack of co-ordination in planning their maintenance and repair.*

I propose amendment 9. Add a new point at the end of the motion:

*notes with concern the limited effect of community consortia for education and training and 14-19 networks and calls on the Welsh Assembly Government to provide these partnerships with the resources and powers to bring about change.*

I propose amendment 10. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Welsh Assembly Government to improve provision for learning for young people with mental health problems.*

I propose amendment 11. Add a new point at the end of the motion:

*recognises the need for local education authorities to address the lack of provision of full-time education for excluded pupils in Wales.*

I welcome the Minister's acceptance of amendments 10 and 11. It is important, with regard to those two amendments in particular, that we take action to deal with those students and young people who have mental-health problems, and I am pleased that the Minister has acknowledged that there is more work to be done on that.

In terms of pupil referral units for those pupils who cannot attend school for health or other reasons, a quarter of students have an SEN statement, and at least two-thirds of local education authorities do not yet provide all excluded pupils with the full-time education to which they are entitled. There are a number of needs that are not being met, not least school places for excluded pupils. It is important that that is addressed. The issue of the large number of children with special educational needs who are excluded from school has been raised on a number of occasions, as has the need to try to get some

cynnig:

*yn nodi'r pryder a fynegwyd gan Estyn ynghylch cyflwr adeiladau ysgolion a diffyg cydlynad wrth gynllunio'r gwaith o'u cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio.*

Cynigiad welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn nodi gyda phryder effaith gyfyngedig consortia cymunedol dros addysg a hyfforddiant a rhwydweithiau 14-19 ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi i'r partneriaethau hyn yr adnoddau a'r pwerau ar gyfer sicrhau newid.*

Cynigiad welliant 10. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer pobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl.*

Cynigiad welliant 11. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn cydnabod yr angen i awdurdodau addysg lleol roi sylw i'r diffyg yn yr addysg amser llawn a ddarperir ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd yng Nghymru.*

Croesawaf y ffaith fod y Gweinidog yn derbyn gwelliannau 10 ac 11. Mae'n bwysig, o ystyried y ddau welliant hwnnw'n arbennig, inni weithredu i ymdrin â'r myfyrwyr a'r bobl ifanc hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi cydnabod bod mwy o waith i'w wneud ar hynny.

O ran unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer y disgyblion hynny na allant fynychu'r ysgol am resymau iechyd neu resymau eraill, mae gan chwarter y myfyrwyr ddatganiad AAA, ac nid yw o leiaf dwy ran o dair o awdurdodau addysg lleol hyd yma yn darparu'r addysg amser llawn i bob disgybl wedi'i wahardd sydd â'r hawl i'w chael. Mae nifer o anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu, yn arbennig o ran lleoedd ysgol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd. Mae'n bwysig ymdrin â hynny. Mae problem y nifer fawr o blant ag anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol wedi ei

awareness among schools in particular about how that can be avoided. That is an issue that has been raised as part of our review on special educational needs, but also in terms of a number of sessions of evidence where that issue has been raised with the Education, Lifelong Learning and Skills Committee.

In terms of the other two amendments proposed by the Welsh Liberal Democrats, I feel that the amendment on school buildings is crucial. Estyn has expressed concern over the condition of school buildings and the lack of co-ordination in planning their maintenance and repair. That is reflected in our amendment. Although the Government continually notes the amount of money that is being put into school capital, the amount of money that is being spent by local education authorities underlines Estyn's point, that it is consistently less than that which the Government claims is being put in. That money is not being earmarked for school capital when it reaches local education authorities. We need to step up our game in terms of school buildings if we are to come anywhere near meeting the target that has been set by the Government, that all school buildings should be fit for purpose by 2010. I am very concerned that all those who have so far come before the Committee on School Funding—along with many who have come before the Education, Lifelong Learning and Skills Committee—have said that they do not believe that that target is attainable. We are waiting for the Minister to give us the figures from the local education authorities which were promised in July. Those figures will, no doubt, allow us to evaluate how achievable that target is.

5.50 p.m.

I think that it is appropriate that we continue to express our concern and note Estyn's concern that that target may not be met. I think that it is also appropriate that we continue to put on record the concerns of local education authorities, headteachers, parents, and the children and teachers who have to work in these buildings, that the condition of our school buildings is not acceptable. There are still far too many that

chodi droeon, felly hefyd yr angen i geisio cynyddu ymwybyddiaeth mewn hysgolion yn arbennig o'r ffordd y gellir osgoi sefyllfa felly. Mae hynny'n fater a godwyd fel rhan o'n hadolygiad o anghenion addysgol arbennig, ond hefyd o ran nifer o sesiynau tystiolaeth lle mae'r mater wedi ei godi gyda'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

O ran y ddau welliant arall a gynigiwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, teimlaf fod y gwelliant ar adeiladau ysgolion yn hanfodol. Mynegodd Estyn bryder ynghylch cyflwr adeiladau ysgolion a'r diffyg cydlynw wrth gynllunio'u cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio. Adlewyrchir hynny yn ein gwelliant. Er bod y Llywodraeth yn nodi'n gyson faint o arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn cyfalaf ysgolion, mae'r swm sy'n cael ei wario gan awdurdodau addysg lleol yn ategu pwynt Estyn, sef ei fod yn gyson yn llai na'r swm y mae'r Llywodraeth yn honni ei fuddsoddi. Nid yw'r arian hwnnw'n cael ei neilltuo ar gyfer cyfalaf ysgolion wrth iddo gyrraedd awdurdodau addysg lleol. Mae angen inni gymryd camau brys o ran adeiladau ysgolion os ydym i ddod yn agos at gyrraedd y targed sydd wedi ei osod gan y Llywodraeth, sef y dylai pob adeilad ysgol fod yn addas at y diben erbyn 2010. Yr wyf yn bryderus iawn fod pawb a ddaeth gerbron y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion hyd yn hyn—ynghyd â'r llu a ddaeth gerbron y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau—wedi dweud nad ydynt yn credu y gellir cyrraedd y targed hwnnw. Yr ydym yn aros i'r Gweinidog roi inni'r ffigurau gan yr awdurdodau addysg lleol a addawyd ym mis Gorffennaf. Bydd y ffigurau hynny, yn ddiau, yn caniatu inni fesur pa mor bosibl yw cyrraedd y targed hwnnw.

Credaf ei bod yn briodol inni barhau i ddatgan ein pryder a nodi pryder Estyn efallai na chyflawnir y targed hwnnw. Credaf ei bod hefyd yn briodol inni barhau i roi ar gofnod bryderon awdurdodau addysg lleol, penaethiaid, rhieni, a'r plant a'r athrawon sy'n gorfod gweithio yn yr adeiladau hyn, nad yw cyflwr adeiladau ein hysgolion yn dderbyniol. Mae llawer gormod ohonynt yn anaddas at y diben o hyd. Ni allwn weld

are not fit for purpose. We cannot see a way through, given the current level of resources for that particular point.

On amendment 9, the Minister has promised us a way forward on CCETs and 14-19 networks. This is still very much in limbo. We are still waiting for concrete proposals and we are still waiting to see how those partnerships will work on the ground. Again, I think that it is appropriate that we note the concern expressed by Estyn and others that those partnerships are still not working properly.

I am grateful to William for mentioning work-based learning, which continues to be a source of concern for the entire Education, Lifelong Learning and Skills Committee. That is why the committee has spent a significant amount of time this year looking at work-based learning and how we can move forward on that. Estyn continues to raise that issue with us; I do not see any light at the end of the tunnel given that Estyn continues to flag up that concern. I accept that the Minister is doing everything that she can to raise that issue with the providers. Now that ELWa has been taken into the Welsh Assembly Government, I would hope that the Minister is able to focus her efforts much more closely in terms of raising standards among work-based learning providers, to ensure that the criticisms that Estyn has flagged up for a number of years can finally be addressed. The new, amalgamated Department for Education, Lifelong Learning and Skills now has the opportunity to address that issue.

To briefly mention the funding of schools, we need to try to get more money out there. Headteachers are still raising that issue. Far too many teachers are being made redundant when there are issues around class sizes and investment in schools that should be addressed.

**Janet Ryder:** I add Plaid Cymru's congratulations to Susan Lewis and her team of inspectors for producing the report, and also to our teaching workforce. Without their

ffordd i ddatrys y sefyllfa, o ystyried lefel bresennol yr adnoddau a ddarperir ar gyfer y pwynt penodol hwnnw.

O ran gwelliant 9, mae'r Gweinidog wedi addo ffordd ymlaen inni ar Gonsortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant a rhwydweithiau 14-19. Mae'r mater wedi mynd yn angof i ryw raddau. Yr ydym yn dal i ddisgwyl cynigion pendant ac yn dal i ddisgwyl gweld sut y bydd y partneriaethau hynny'n gweithio ar lawr gwlad. Eto, credaf ei bod yn briodol inni nodi'r pryder a fynegwyd gan Estyn ac eraill nad yw'r partneriaethau hynny'n gweithio'n iawn o hyd.

Yr wyf yn ddiolchgar i William am grybwyll dysgu'n seiliedig ar waith, sy'n parhau'n destun pryder i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau cyfan. Dyna pam mae'r pwyllgor wedi treulio llawer iawn o amser eleni yn trafod dysgu'n seiliedig ar waith a sut y gallwn symud ymlaen ar hynny. Mae Estyn yn parhau i godi'r mater hwnnw gyda ni; ni welaf unrhyw oleuni ar ddiwedd y twnnel o gofio bod Estyn yn parhau i nodi'r pryder hwnnw. Derbyniaf fod y Gweinidog yn gwneud popeth o fewn ei gallu i godi'r mater hwnnw gyda'r darparwyr. Gan fod ELWa yn awr wedi dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, byddwn yn gobeithio y gallai'r Gweinidog ganolbwyntio ei hymdrechion lawer yn agosach o ran codi safonau ymhlith darparwyr dysgu'n seiliedig ar waith, er mwyn sicrhau y gellir ymdrin o'r diwedd â'r beirniadaethau y mae Estyn wedi bod yn eu nodi ers llawer blwyddyn. Bellach mae gan yr Adran dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau newydd, unedig gyfle i ymdrin â'r mater hwnnw.

Gan sôn yn gyflym am ariannu ysgolion, mae angen inni geisio dosbarthu mwy o arian iddynt. Mae penaethiaid yn codi'r mater hwnnw o hyd. Mae llawer gormod o athrawon yn cael eu diswyddo pan fydd problemau gyda maint dosbarthiadau a buddsoddi mewn ysgolion y dylid ymdrin â hwy.

**Janet Ryder:** Hoffwn ychwanegu llongyfarchiadau Plaid Cymru i Susan Lewis a'i thîm o arolygwyr am gynhyrchu'r adroddiad, a hefyd i'n gweithlu o athrawon.

hard work and dedication, standards would not be rising. It is a great tribute to teachers in our classrooms that we see increases, generally, in the education system in Wales.

As many other Members have said, there are areas of concern, as this report highlights. We all share many of those concerns. There are concerns about further education and the fact that not enough people are completing their courses and gaining qualifications. As Susan Lewis has identified, in many cases that is because students have been given poor guidance when registering at college; they may not be on quite the right course. Some years ago, to be cynical, you could say that some colleges attracted students so that they could draw down the money for courses. With the new ELWa funding, that should not be happening. Students should be recruited to courses that they will complete, because colleges are paid on completion of courses. Therefore, why are we still facing this problem?

The Minister has highlighted that one way forward for the 14-19 age group is through the learning pathways. A key part of the pathway is that students spend more time in colleges, as they play a bigger part in the provision of education. If the right support is not there for vulnerable students at 14 years of age, there are many concerns that we need to consider. The support has to be there, especially if we are going to encourage an increasing number of 14-year-olds to go into college situations. Some 14-year-olds may not have the maturity to deal with that, and they need proper guidance, care and support. I accept that tutors and individual coaches will, hopefully, try to overcome that.

**Christine Chapman:** I will just remind you, Janet, that that is the big feature of the 14-19 learning pathways action plan. For young people, in whatever setting—college, work, training or still in school—there is a strong emphasis on the learning coach. There has been much development work done on that. Therefore, I hope that you would acknowledge the work that is being done. We know that there is more to progress on this,

Heb eu gwaith caled a'u hymroddiad hwy, ni fyddai safonau'n codi. Mae'n deyrnged fawr i athrawon yn ein hystafelloedd dosbarth ein bod yn gweld gwelliant, yn gyffredinol, yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru.

Fel y dywedodd llawer Aelod arall, mae yna feysydd pryder, fel y mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw. Yr ydym bob un yn rhannu nifer o'r pryderon hynny. Mae pryderon ynghylch addysg bellach a'r ffaith nad oes digon o bobl yn cwblhau eu cyrsiau ac yn ennill cymwysterau. Fel y mae Susan Lewis wedi ei ddweud, mewn llawer achos y rheswm am hynny yw bod myfyrwyr wedi cael arweiniad gwael wrth gofrestru yn y coleg; efallai nad ydynt ar y cwrs cywir. Rai blynyddoedd yn ôl, i fod yn sinigaidd, gellid dadlau bod rhai colegau wedi denu myfyrwyr er mwyn iddynt allu hawlio'r arian ar gyfer cyrsiau. Gyda chyllid newydd ELWa, ni ddylai hynny fod yn digwydd. Dylai myfyrwyr gael eu recriwtio i gyrsiau y byddant yn eu cwblhau, am fod colegau'n cael eu talu ar ôl cwblhau cyrsiau. Felly, pam yr ydym yn dal i wynebu'r broblem hon?

Mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw mai un ffordd ymlaen i'r grŵp oed 14-19 yw'r llwybrau dysgu. Rhan allweddol o'r llwybr yw'r ffaith bod myfyrwyr yn treulio mwy o amser mewn colegau, gan fod iddynt fwy o ran wrth ddarparu addysg. Os na ddarperir y cymorth cywir i fyfyrwyr diamddiffyn yn 14 oed, mae yna nifer o bryderon y mae angen inni eu hystyried. Mae'n rhaid darparu'r cymorth, yn arbennig os ydym am annog nifer cynyddol o bobl ifanc 14 oed i fynd i'r coleg. Efallai na fydd gan rai pobl ifanc 14 oed yr aeddfedrwydd i ymdopi â hynny, ac mae arnynt angen canllawiau, gofal a chymorth priodol. Derbyniaf y bydd tiwtoriaid a hyfforddwyr unigol, gobeithio, yn ceisio goresgyn hynny.

**Christine Chapman:** Hoffwn eich atgoffa, Janet, mai dyna'r brif nodwedd yng nghynllun gweithredu'r llwybrau dysgu 14-19. I bobl ifanc, waeth beth fo'r lleoliad—coleg, gwaith, hyfforddiant neu yn yr ysgol o hyd—mae pwyslais cryf ar yr hyfforddwr dysgu. Gwnaed llawer o waith datblygu ar hynny. Felly, gobeithio y byddech yn cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo. Gwyddom fod llawer mwy i'w wneud ar hyn,

but we have started on a—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. There is plenty of time for a speech if you want to make one later.

**Janet Ryder:** We will have to monitor carefully the role that those learning coaches play. There is still a great deal to do to recruit them, to get them trained, and to get the system working properly, as well as to train teachers in schools and lecturers in colleges on how this new 14-19 pathway will work. We need to look at the support that is given in colleges. Some colleges are doing a good job, but some need to look at that.

It is interesting to ask how those colleges will meet that improvement, especially in the training sector, given that they are seeing frozen budgets this year. They will not even be able to meet inflationary pay increases from August 2006. One wonders what kind of improvement and leeway there is in colleges for that.

As other Members have highlighted, there are concerns about work-based training. Given that those concerns are with the health professions and the caring professions—which are now, perhaps, the biggest employers in Wales—the whole committee has expressed concern. That must be addressed.

Finally, on child protection and the issues raised in this report on child protection, almost one in 10 primary schools have shortcomings in their arrangements for child protection. Staff may not have been made well enough aware of those issues. It is on the back of that issue that the Government commissioned the extra Estyn inspection to which Peter Black alluded yesterday. The school inspections were only completed in March this year. The report has now been published, and I draw the Minister's attention to two of the recommendations in that further report.

One is that the Welsh Assembly Government, in collaboration with the Department for Education and Skills, should introduce a single list of unsuitable persons, which is

and yr ydym wedi dechrau ar—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn: Mae digon o amser am araith os hoffech ei gwneud yn ddiweddarach.

**Janet Ryder:** Bydd yn rhaid inni fonitro rôl yr hyfforddwyr dysgu hynny'n ofalus. Mae llawer i'w wneud o hyd i'w recriwtio, i'w hyfforddi, ac i roi'r system ar waith yn iawn, yn ogystal â hyfforddi athrawon mewn ysgolion a darlithwyr mewn colegau ar y ffordd y bydd y llwybr 14-19 newydd hwn yn gweithio. Mae angen inni edrych ar y cymorth a roddir mewn colegau. Mae rhai colegau'n gwneud gwaith da, ond mae angen i rai ohonynt edrych ar hynny.

Mae'n ddiddorol gofyn sut y bydd y colegau hynny'n sicrhau'r gwelliant hwnnw, yn arbennig yn y sector hyfforddi, o gofio bod eu cyllidebau'n cael eu rhewi eleni. Ni fyddant hyd yn oed yn gallu fforddio codiadau cyflog chwyddiannol o fis Awst 2006. Tybed pa fath o welliant a chyfle sydd mewn colegau ar gyfer hynny.

Fel y mae Aelodau eraill wedi tynnu sylw, mae pryderon ynghylch hyfforddiant yn seiliedig ar waith. O gofio bod y pryderon hynny'n gysylltiedig â'r proffesiynau iechyd a'r proffesiynau gofal—sef y cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, o bosibl, erbyn hyn—mae'r pwyllgor cyfan wedi mynegi pryder. Rhaid ymdrin â hynny.

I gloi, o ran amddiffyn plant a'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn am amddiffyn plant, mae gan bron i un ysgol gynradd o bob 10 ddiffygion yn eu trefniadau ar gyfer amddiffyn plant. Efallai nad yw'r staff wedi cael gwybodaeth ddigonol am y materion hynny. Ar sail y mater hwnnw y comisiynodd y Llywodraeth yr arolygiad ychwanegol gan Estyn y cyfeiriodd Peter Black ato ddoe. Dim ond ym mis Mawrth eleni y cwblhawyd yr arolygiadau ysgol. Bellach mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi, a thynnaf sylw'r Gweinidog at ddau o argymhellion yr adroddiad pellach hwnnw.

Mae'r naill yn dweud y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg a Sgiliau, gyflwyno un rhestr o bobl anaddas, a gaiff ei diweddarau'n

kept up to date and can be consulted via a single point of inquiry, in accordance with the future vetting and barring schemes. What progress has been, and is being, made on that? The last recommendation notes that the Welsh Assembly Government should issue clear guidance to schools and LEAs on the action that they should take when they receive information that casts doubt on the suitability of existing staff or prospective employees, and that this guidance should draw attention to the need to observe locally agreed safeguarding procedures. That is exactly what we have been asking for, and is what Peter Clarke recommended in Clywch.

Why do inspectors still find that that has not been actioned? I asked the Minister yesterday whether she was satisfied that all adults, other than teachers, who have access to children on school sites, have been checked. If she is not satisfied with that, what action is she taking to ensure that that is addressed?

**Jeff Cuthbert:** In general, and very clearly, the report shows that enormous advances have been made in terms of education and learning in Wales; we can take heart from that. However, there are points of concern.

My speech today could just as easily have been made during the previous debate on manufacturing. Estyn's report points to the need for more work in the FE and work-based learning sectors to increase standards and decrease the disparities in quality across Wales. Positive points for action are clear in this report and they must, and will, be acted upon. We need to support and reform the FE and work-based learning sectors to enable them to be dynamic in their work with Welsh businesses and deliver wider choices and access to courses, especially in our poorest communities.

Tony Blair was right in his speech to the Confederation of British Industry last night. The growing competition that our economy faces is not from low-wage, low-skill economies, but, increasingly, we are confronted with low-wage, high-skill

rheolaidd ac y gellir edrych arni drwy un pwynt ymholi, yn unol â'r cynlluniau fetio a gwahardd a gyflwynir yn y dyfodol. Pa gynnydd a wnaed, ac sy'n cael ei wneud, ar hynny? Dywed yr argymhelliad olaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau clir i ysgolion ac AALl ar y camau gweithredu y dylent eu cymryd pan fyddant yn cael gwybodaeth sy'n bwrw amheuan ar addasrwydd staff presennol neu ddarpar gyflogeion, ac y dylai'r canllawiau hyn dynnu sylw at yr angen i ddilyn gweithdrefnau diogelu wedi eu cytuno'n lleol. Dyna'n union yr ydym wedi gofyn amdano ac a argymhellwyd gan Peter Clarke yn Clywch.

Pam mae arolygwyr yn gweld o hyd na weithredwyd ar hynny? Gofynnais i'r Gweinidog ddoe a oedd yn fodlon bod pob oedolyn, ar wahân i athrawon, sy'n dod i gysylltiad â phlant ar safleoedd ysgol wedi eu gwirio. Os nad yw'n fodlon am hynny, pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau ymdrin â hynny?

**Jeff Cuthbert:** Yn gyffredinol, ac yn glir iawn, dengys yr adroddiad fod datblygiadau aruthrol wedi'u gwneud o ran addysg a dysgu yng Nghymru; mae hynny'n galonogol. Fodd bynnag, mae yna bwyntiau sy'n peri pryder.

Gallai fy araith heddiw fod wedi ei gwneud lawn mor hawdd yn ystod y ddadl flaenorol ar weithgynhyrchu. Dengys adroddiad Estyn fod angen mwy o waith yn y sector AB a'r sector dysgu'n seiliedig ar waith, er mwyn codi safonau a lleihau'r anghysondebau mewn ansawdd ledled Cymru. Mae pwyntiau gweithredu cadarnhaol yn amlwg yn yr adroddiad hwn a rhaid gweithredu arnynt, a gwneir hynny. Mae angen inni gefnogi a diwygio'r sector AB a'r sector dysgu'n seiliedig ar waith er mwyn eu galluogi i fod yn ddeinamig yn eu gwaith gyda busnesau yng Nghymru a chyflwyno dewisiadau a mynediad ehangach i gyrsiau, yn arbennig yn ein cymunedau tlotaf.

Yr oedd Tony Blair yn llygad ei le yn ei araith i Gydffederasiwn Diwydiant Prydain neithiwr. Mae'r gystadleuaeth gynyddol sy'n wynebu ein heconomi yn dod nid o economïau cyflog isel, sgil isel, ond yn gynyddol yr ydym yn wynebu economïau

economies, particularly from China and India. As Lynne Neagle mentioned in the previous debate, both those countries are now producing 2 million graduates every year, mainly in sciences and engineering.

6.00 p.m.

This is a serious threat to Wales and its future. We need to push harder and further with the changes to our education system to align it better with the demands of the modern workforce. Within this context, the role of our FE sector and work-based learning sector in developing basic and vocational skills has never been more important. The teaching of vocational skills, and what used to be called soft skills—the ability to communicate effectively, to work in teams and to solve problems—is what modern-day employers are crying out for. We need to ensure that the Assembly Government and employers work vigorously with the FE sector and work-based learning sector to do more in this area. While Estyn points to clear signs of progress in some courses, with greater links being made to enterprise and sustainable development, more still needs to be done. If we are to attract the higher-value-added jobs and raise the levels of basic skills in Wales, more FE colleges and work-based learning providers need to be empowered to offer high-quality work experience in partnership with community businesses.

The provision of welding courses in Ystrad Mynach college in my constituency gives a good example of the kind of forward planning assistance we clearly need. The college wanted to close the course down, but this was in contradiction, on the basis of my own investigation, to the needs and desires of local employers, and certainly the sector skills councils such as Summit Skills Centre and the Welding Institute, all of whom wanted the courses to remain. As it happened, major practical problems have now prevented the college from continuing the provision of the course in any event. However, we need to learn lessons about the provision of such skilled courses. Now that ELWa is in-house, we properly expect a fully joined-up approach between education and

cyflog isel, sgil uchel, yn arbennig o Tsieina ac India. Fel y soniodd Lynne Neagle yn y ddadl flaenorol, mae'r ddwy wlad honno bellach yn cynhyrchu 2 filiwn o raddedigion bob blwyddyn, ym maes y gwyddorau a pheirianeg yn bennaf.

Mae hwn yn fygythiad mawr i Gymru a'i dyfodol. Mae angen inni wthio'n galetach ac ymhellach gyda'r newidiadau yn ein system addysg i'w chysoni'n well â gofynion y gweithlu modern. Yn y cyd-destun hwn, ni fu gan ein sector AB a'n sector dysgu'n seiliedig ar waith erioed rôl bwysicach o ran datblygu sgiliau sylfaenol a galwedigaethol. Mae cyflogwyr heddiw yn galw'n daer am ddysgu sgiliau galwedigaethol, a'r hyn a arferai gael eu galw'n sgiliau meddal—y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, gweithio mewn timau a datrys problemau. Mae angen inni sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad a chyflogwyr yn gweithio'n ddiwyd gyda'r sector AB a'r sector dysgu'n seiliedig ar waith i wneud mwy yn y maes hwn. Er bod Estyn yn nodi arwyddion clir o gynnydd mewn rhai cyrsiau, a mwy o gysylltiadau â menter a datblygu cynaliadwy, mae angen gwneud mwy o hyd. Er mwyn denu'r swyddi sy'n ychwanegu mwy o werth a chodi lefelau sgiliau sylfaenol yng Nghymru, mae angen grymuso mwy o golegau AB a darparwyr dysgu'n seiliedig ar waith i gynnig profiad gwaith o safon uchel mewn partneriaeth â busnesau cymunedol.

Mae'r cyrsiau weldio a gynigir yng ngholeg Ystrad Mynach yn fy etholaeth i yn enghraifft dda o'r math o gymorth blaengynllunio y mae ei angen arnom yn amlwg. Yr oedd y coleg yn bwriadu dod â'r cwrs i ben, ond ar sail fy ngwaith ymchwil fy hun, yr oedd hyn yn groes i anghenion a dymuniadau cyflogwyr lleol, ac yn bendant y cynghorau sgiliau sector, fel Canolfan Sgiliau Summit a'r Sefydliad Weldio, a oedd am weld y cyrsiau'n parhau. Fel y digwyddodd, mae problemau ymarferol sylweddol wedi rhwystro'r coleg rhag parhau i ddarparu'r cwrs beth bynnag. Fodd bynnag, mae angen inni ddysgu gwersi ynglŷn â darparu cyrsiau sgiliau o'r fath. Gan fod ELWa bellach wedi uno â ni, yr ydym yn disgwyl gweld mabwysiadu hollol gydgyssylltiedig rhwng



the Department for Enterprise, Innovation and Networks. Artificial departmental boundaries that do not exist in the real world cannot be allowed to inhibit progress.

I agree with the points made by William Graham about the work that we still have to do with regard to our youth justice system. Estyn states that standards have failed to improve since last year. Young people who have broken the law but are not given custodial sentences, are not being given the chance to get back into education and training promptly and thereby break the cycle of criminality they are stuck in. Those who are imprisoned face long delays in re-entering education once released from custody. The result is a period of time where the temptation to go back to crime is very high. We are in danger of overlooking a generation of young people who need our help the most. Further education, work-based learning, soft skills and education within the youth justice system may not be the mainstream of government education provision, but they are no less vital. These kinds of provision are a lifeline to people in deprived communities.

Flexible education provision post 16 is a major gateway back into the world of work for thousands of people in my constituency of Caerphilly. Despite the earlier debate on the MEG, the RAISE programme will make a massive difference to young people in my constituency. At the moment, 35 per cent of all adults in the Caerphilly constituency have no qualifications at all, and most of them left school 10 years ago or more. We want to ensure that that type of end gain is not repeated for the next generation, and I welcome that investment.

